

Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru

Cyhoeddwyd: **Gorffennaf 2021**

Cyhoeddwyd Fersiwn 2: **Mawrth 2022**

I'w roi ar waith: **1 Ebrill 2022**

ADRAN 1: CYFLWYNIAD I GIP

• Cyflwyniad	4
• Negeseuon Allweddol	5
• Y Fframwaith Cenedlaethol	6
• Y Fframwaith Cyfreithiol	11
• Dyletswyddau Sefydliadol	11
• Trefniadau Llywodraethu	14

ADRAN 2: POLISI GIP

• Polisi GIP	16
• Egwyddorion Sylfaenol	16
• Cyfrifoldebau Sefydliadol	22
• Rolau a Chyfrifoldebau Allweddol ym Mhroses GIP	25
• Siart Lif Proses Asesu Cymhwysedd i gael GIP y GIG	33

ADRAN 3: CYN ASESIAD O GYMHWYSEDD I GAEL GIP

• Cydsyniad	34
• Galluedd	38
• Penderfyniadau Budd Pennaf	41
• Proses Llwybr Carlam	43
• Defnyddio Rhestr Wirio	44

ADRAN 4: YR ASESIAD O GYMHWYSEDD I GAEL GIP

• Nodi Anghenion Unigolyn	47
• Penderfynu ar Angen Iechyd Sylfaenol	48
• Defnyddo'r Adnodd Cymorth Penderfynu	50
• Pandemig a Sefyllfaoedd Argyfyngus Eraill	51
• Gwneud yr Argymhelliad ynghylch Cymhwysedd	51
• Sicrhau Ansawdd	53
• Cyfleu'r Penderfyniad ynghylch cymhwysedd	53
• Amserlenni a Dechrau GIP	54

ADRAN 5: DARPARU AC ADOLYGU GWASANAETHAU

• Darparu a Monitro Gofal	56
• Canllawiau ar Gyrrff Cyfrifol	63
• Llais a Rheolaeth, Taliadau Uniongyrchol a GIP	64
• Pecynnau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Cyd	66
• Adolygiadau GIP (3 a 12 mis)	68

ADRAN 6: CYSYLLTIADAU Â PHOLISIŶAU ERAILL A MEYSYDD YMARFER ARBENIGOL

• Iechyd Meddwl	72
• Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	73
• Trosglwyddo o Ddarpariaeth i Blant a Phobl Ifanc i Ddarpariaeth i Oedolion	74
• Cymhwyso Fframwaith GIP i Oedolion ag Anabledd Dysgu	77
• Hawl i gael Gofal arall a ariennir gan y GIG	78
• Cyfarpar Cymunedol	78

ADRAN 7: ANGHYDFODAU AC APELIADAU

• Anghydfodau rhwng sefydliadau	79
---------------------------------	----

• Apeliadau gan Unigolion yn erbyn penderfyniadau am Gymhwysedd	81
• Hybu cysondeb y modd y mae Paneli Adolygu Annibynnol yn gweithredu	83
• Cwynion	85
ADRAN 8: ÔL-HAWLIADAU AM AD-DALIAD	86
RHESTR TERMAU	92
ATODIADAU	100
• ATODIAD 1: Dyfarniadau Cyfreithiol	
• ATODIAD 2: Trosolwg syml o'r Broses	
• ATODIAD 3: Rhestr Wirio Gofal Iechyd Parhaus y GIG	
• ATODIAD 4: Sefydlu Panel Adolygu Annibynnol	
• ATODIAD 5: Canllawiau ar Brawf Talu ar gyfer Ad-dalu Ôl-hawliadau	

ADRAN 1

CYFLWYNIAD I GIP

- 1.1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu Gofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn deg yng Nghymru.
- 1.2. Pecyn cyflawn o ofal parhaus yw GIP a gaiff ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG drwy fyrdau iechyd lleol (BILI), pan asesir bod angen sylfaenol yr unigolyn yn ymwneud â'i iechyd.
- 1.3. Dim ond un elfen o ystod o wasanaethau sydd angen i awdurdodau lleol (ALI) a chyrrff y GIG eu darparu er mwyn cefnogi pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yw GIP. Mae GIP yn cyfeirio at un agwedd ar ofal y gallai fod angen i bobl ag anghenion cymhleth ei gael o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch er mwyn diwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol. Oherwydd natur, dwyster, cymhlethdod a natur anrhagweladwy yr anghenion hynny mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r holl ofal iechyd a ddarperir gan y GIG.
- 1.4. Gellir darparu GIP mewn unrhyw leoliad y tu allan i ysbyty, fel yng nghartref unigolyn, mewn cartref gofal, mewn hosbis neu mewn carchar ac mae'n rhan o'r continwwm gofal a chymorth y gall unigolyn ag anghenion cymhleth ymuno ag ef a'i adael.
- 1.5. Mae GIP yn wahanol i 'Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG' sydd ond yn gymwys i unigolion sydd angen gofal nyrsio mewn cartrefi gofal. Caiff Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG ei ddarparu yn sgil Adran 49 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (sydd wedi'i ddisodli bellach mewn perthynas â Chymru gan adran 47(4) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), nad yw'n cynnwys gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig fel rhan o'r gwasanaethau a all gael eu darparu gan awdurdodau lleol. Dim ond pan ystyrir nad yw'r unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael GIP y dylid gwneud y penderfyniad ynghylch p'un a yw'n gymwys i gael Gofal Iechyd Personol.

Noder: Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae'r [Canllawiau ar Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG mewn Cartrefi Gofal 2004](#) yn dal i fod yn weithredol. Fodd bynnag, bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu yn ystod oes y Fframwaith hwn.

Negeseuon Allweddol

- A1 I unigolion sy'n gymwys i'w dderbyn, mae GIP yn hawl. Mae'n hanfodol anelu at wneud y penderfyniad cywir ar gymhwysedd y tro cyntaf. Gallai penderfyniad anghywir sy'n atal rhywun sy'n gymwys i gael GIP rhag cael yr hyn y mae ganddo hawl i'w gael effeithio'n negyddol ar iechyd unigolyn ac arwain at gostau ariannol sylweddol, gan beri gofid iddo ef a'i deulu. Gall hefyd arwain at ôl-hawliadau a all fod yn ddud a chymryd llawer o amser.
- A2 Yr unig faen prawf ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd i gael GIP yw a yw angen sylfaenol person yn angen iechyd.
- A3 Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r broses a ddefnyddir gan y GIG, ar y cyd ag ALLau partner, i asesu anghenion iechyd unigolyn a sicrhau y darperir y gofal priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.
- A4 Efallai y bydd angen i unigolion gael gwasanaethau gan y GIG a'u hawdurdod lleol. Mae'r GIG yn gyfrifol am asesu, ariannu a darparu gwasanaethau iechyd er mwyn diwallu anghenion ei boblogaeth. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n bosibl y codir tâl ar yr unigolyn am rai o'r gwasanaethau hyn.
- A5 Dylai'r broses benderfynu gael ei hategu gan resymeg glir a thryloyw. Mae uniondeb proffesiynol yn hanfodol.
- A6 Rhaid i unigolion a/neu eu cynrychiolwyr gael eu cynnwys yn llawn yn y broses asesu a dylent gael yr holl wybodaeth sydd eu hangen arnynt yn ystod y broses honno, a hynny yn eu dewis iaith neu fformat.
- A7 Rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir mewn ymateb i angen a aseswyd fod yn gymesur ag angen a chael eu cydgysylltu'n effeithiol, er mwyn osgoi tarfu'n ddiangen ar fywyd yr unigolyn a'i deulu.

Y Fframwaith Cenedlaethol

- 1.6 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gofal Iechyd Parhaus y GIG – y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru*, yn 2014. Mae'n nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd i gael GIP, a chyfrifoldebau sefydliadau'r GIG ac ALLau o dan y Fframwaith a materion cysylltiedig.
- 1.7 Cafodd Fframwaith 2021 ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021 a'i weithredu ar 1 Ebrill 2022. Mae Fframwaith 2021 yn disodli cyhoeddiad 2014.
- 1.8 Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r broses a ddefnyddir gan y GIG ynghyd ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill, er mwyn asesu anghenion iechyd, penderfynu ar gymhwysedd i gael GIP a darparu gofal priodol. Mae'n ofynnol i FILI ac ALI i weithredu'n llawn ofynion y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol. Bydd gofyn i bob BILI ac ALI gymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd, a thrwy hynny sicrhau dull gweithredu ar y cyd a chyson ledled Cymru.
- 1.9 Mae'r Fframwaith yn rhoi sail gyson i asesu, comisiynu a darparu GIP i oedolion dros 18 oed ledled Cymru. Diben hyn yw sicrhau bod y broses ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd yn cael ei rhoi ar waith yn gyson, yn deg ac yn briodol.
- 1.10 Mae crynodeb o'r prif newidiadau rhwng Fframweithiau 2014 a 2021 i'w weld yn y tabl isod.

Cynllun a chyflwyniad	Mae trefn/cynnwys yr Adrannau yn y Fframwaith diwygiedig y mae ei gynllun ar ei newydd wedd yn wahanol, gan adlewyrchu'r broses GIP ei hun o'r dechrau i'r diwedd. Yn ogystal â'r newidiadau i gynllun y Fframwaith, gwnaed y diwygiadau canlynol. Cafwyd gwared ar bob cyfeiriad at wefan Gwybodaeth a Chymorth Gofal Cymhleth. Symudwyd pob atodiad i ddiwedd y ddogfen ac mae'r cyfeiriadau at bolisiau a deddfwriaeth wedi cael eu diweddarau, yn bennaf drwy gysoni gofynion â darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Adran 1 – Cyflwyniad	Yn cynnwys testun ychwanegol yn ymwneud â Gofynion y Gymraeg
Adran 2 – Polisi GIP	Yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am rolau a chyfrifoldebau allweddol pob un o'r sefydliadau dan sylw, yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, gofalcwyr ac eiriolwyr, drwy gydol Proses Asesu'r GIP

	• Yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod ymarferwyr yn darparu <i>Llyfryn y GIP i Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr</i> cyn gynted ag yr ystyrir y gall fod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol • Yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu priodol • Yn cynnwys Siart Lif Asesu Cymhwysedd i Gael GIP
Adran 3 – Cyn Asesiad ar gyfer GIP	• Gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â Chydsyniad, Galluedd a Rhannu Gwybodaeth a phenderfyniadau Budd Pennaf. • Testun ychwanegol yn ymwneud â Defnyddio'r Rhestr Wirio
Adran 4 – Asesu Cymhwysedd i Gael GIP	Nid oes bwriad i newidiadau polisi a wneir drwy'r broses hon effeithio ar y trothwy cymhwysedd i gael GIP, sydd yn hen sefydledig ac yn seiliedig ar ystyried 'angen iechyd sylfaenol'. • Mae geiriad ychwanegol yn sicrhau bod prosesau sgrinio ac asesu cymhwysedd i gael GIP yn cael eu cynnal ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, pan fydd unrhyw anghenion parhaus yn hysbys. • Nodi cymhwysedd unigolyn i gael GIP yn seiliedig ar ei holl anghenion a'i gwneud yn ofynnol i wneud penderfyniad clir a rhesymegol sy'n gofyn i BILlau ac ALLau ystyried, ni waeth beth yw'r canlyniad, a yw asesiad amlddisgyblaethol wedi nodi materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. • Adnodd Cymorth Penderfynu – canllawiau ychwanegol ar sut i'w gwblhau, pryd a chan bwy, a newidiadau bach i'r diffiniadau mewn rhai o'r meysydd angen. Rhoi'r meysydd mewn trefn fwy rhesymegol sy'n dilyn y drefn arferol i ystyried anghenion unigolyn. • Gwybodaeth ychwanegol am rôl ac aelodaeth y Tîm Amlddisgyblaethol. • Cymhwysedd – Dylai gwybodaeth ychwanegol am y broses ymgysylltu â'r unigolyn a'i gynnwys, y dull o benderfynu ar argymhellion a'u cofnodi, a sut y caiff unrhyw benderfyniad terfynol ei gyfleu. • Pandemig a sefyllfaoedd argyfyngus eraill – cwblhau asesiadau yn ystod pandemig a sefyllfaoedd argyfyngus eraill er mwyn sicrhau bod unigolion yn parhau i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
Adran 5 – Darparu Gwasanaethau ac Adolygiadau	Cysoni'r testun ymhellach â threfniadau ar gyfer monitro a rheoli gofal oedolion yn barhaus o dan ran 4 (Diwallu Anghenion) o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Hefyd; • Mae cyfeiriad at y Canllawiau Corff Cyfrifol ar gyfer GIG Cymru wedi'i gynnwys • Testun ychwanegol yn ymwneud ag anghenion a reolir yn dda, pwyslais cryf ar y ffaith na ddylai fod unrhyw fwch yn y gofal a ddarperir, a chefnogi unigolion sy'n gymwys i gael GIP yn eu cartrefi eu hunain

	• Gwybodaeth ychwanegol am y rhyngwyneb rhwng taliadau uniongyrchol a GIP a sut y gall sefydliadau roi llais a rheolaeth i unigolion o ran eu hiechyd a'u hanghenion gofal cymdeithasol. • Esbonio diben yr adolygiadau 3 a 12 mis a sut y dylid eu cynnal.
Adran 6 – Mae Cysylltiadau â Meysydd Polisi eraill a	• Chysylltiadau â darpariaethau presennol wedi eu cadw a'u hailwampio • Esbonio ac atgyfnerthu'r ffordd y geiriwyd y wybodaeth am wasanaethau ôl-ofal ar gyfer iechyd meddwl ac amddifadu o ryddid. • Atgyfnerthu darpariaethau o gwmpas trefniadau pontio ar gyfer plentyn sy'n mynd i mewn i'r drefn GIP i Oedolion yn 18 oed.
Adran 7 – Anghydfodau a'r Broses Apelio	• Gofyniad i BILLau esbonio'r trefniadau a'r amserlenni ar gyfer ymdrin ag adolygu'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd i unigolion. • Nid yw Fframwaith 2014 yn cynnwys amserlenni ar gyfer apeliadau. Mae Fframwaith 2021 yn nodi'r canlynol ◦ dylai unigolyn neu ei gynrychiolydd roi gwybod i'r BILL yn ysgrifenedig o'i fwriad i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG neu GIP o fewn 28 diwrnod i dderbyn y llythyr penderfyniad ynghylch cymhwysedd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir ceisiadau a wneir ar ôl y cyfnod. ◦ dylai unigolyn neu ei gynrychiolydd gyflwyno ei apêl (yn ysgrifenedig) yn erbyn penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG neu GIP o fewn 6 mis i dderbyn y llythyr penderfyniad ynghylch cymhwysedd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir ceisiadau a wneir ar ôl y cyfnod. • Ychwanegu gofyniad, lle bo anghydfod heb ei ddatrys o fewn y tîm amlddisgyblaethol, yna dylid uwchgfyfeirio hyn o fewn 48 awr er mwyn sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu hystyried yn gyflym.
Adran 8 - Ôl-adolygiadau	O fis Ebrill 2019, mae'r holl Ôl-hawliadau wedi cael eu rheoli gan y BILLau unigol. Mae'r broses Ôl-hawliadau Cam 2 wedi'i chynnwys yn Fframwaith 2021 er mwyn datrys yr hawliadau hyn yn effeithiol, amserol a chywir. ◦ Mae Cam 1 yn defnyddio Adnodd Rhestr Wirio GIP i nodi ffactorau sbarduno ar gyfer cymhwysedd. ◦ Cam 2 - Lle canfyddir ffactorau sbarduno, bydd gwybodaeth yn y gronoleg yn cael ei hadolygu a'i hasesu yn erbyn y 4 dangosydd o ran angen iechyd sylfaenol (natur, dwysedd, cymhlethdod ac anrhagweladwyedd) • Ar ôl i'r wybodaeth gael ei dadansoddi, caiff ei chofnodi mewn dogfen yn cynnwys yr argymhelliad. Caiff y ddogfen hon ei

	hadolygu gan gymheiriaid gan glinigydd gwahanol er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad a'r dystiolaeth ategol yn gadarn a bod y meini prawf wedi cael eu cymhwyso'n gyson. Er mwyn sicrhau bod hawliadau yn cael eu datrys yn amserol, caiff achosion lle na chanfyddir cymhwysedd eu hadolygu gan o leiaf un '<i>clinigwr gwahanol yn cynnal adolygiad gan gymar</i>'. • Mae hyn yn wahanol i ofyniad Fframwaith 2014 y '<i>bydd 2 glinigwr gwahanol</i>' yn cynnal adolygiad o benderfyniad na chanfyddir cymhwysedd.
--	---

Rheoli Fersiynau
Cyhoeddwyd Fersiwn 2: Mawrth 2022

Mân newidiadau i fynd i'r afael â gwallau, er enghraifft gyda therminoleg a rhifau paragraffau. Hefyd egluro manylion am y broses Ôl-hawliadau a diwygio siartliff y broses Ôl-hawliadau.

1.11 Caiff y Fframwaith ei ategu gan:

- Llyfryn Gwybodaeth Gofal Iechyd Parhaus i Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr
- Digwyddiad e-ddysgu ar y cyd rhwng BILlau ac ALLau (wedi'i gyflwyno'n rhithiol) ar weithredu'r Fframwaith
- Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd
- Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol

1.12 Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru [Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc Ionawr 2020](#) yn ymdrin ag asesu a darparu gofal i blant a phobl ifanc. Mae'r manylion am drosglwyddo o ofal parhaus i blant a phobl ifanc i GIP oedolion wedi'u nodi yn **Adran 6**.

1.13 Mae'r Fframwaith hwn yn cyfeirio at wahanol ganllawiau deddfwriaethol, rheoliadol a statudol a chaiff rhai o'r rhain eu diwygio dros amser. Felly, wrth ddehongli'r canllawiau yn y ddogfen hon, dylid ystyried unrhyw newidiadau a wneir iddynt yn y dyfodol.

Adolygu'r Fframwaith

1.14 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i adolygu'r Fframwaith ar ôl iddi fod yn weithredol am bum mlynedd a chyhoeddi canllawiau ychwanegol neu interim pan fo angen.

- 1.15 Mae gwybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus y GIG ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-iechyd-parhaus-y-gig>. A hefyd drwy gysylltu â:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffoniwch: 0300 0604400 **E-bost:** customerhelp@gov.wales

Y Fframwaith Cyfreithiol

Deddfwriaeth a Chyfraith Achosion

1.16 Nid yw deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn defnyddio'r termau "gofal parhaus", "Gofal Iechyd Parhaus y GIG" nac "angen iechyd sylfaenol". Fodd bynnag, mae [Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006](#) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru, a luniwyd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- (i) iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru;
- (ii) atal, canfod a thrin salwch.

1.17 Gwnaed dyfarniadau llys pwysig wrth benderfynu ar gydbwysedd cyfrifoldebau awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd dros ofal hirdymor. Mae'r Fframwaith hwn yn adlewyrchu deddfwriaeth berthnasol yng Nghymru gyda phwyslais penodol ar y gwahanol ddarpariaethau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwnaeth y rhain ddisodli'r ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ati mewn penderfyniadau llys ar achosion blaenorol, sef:

- (i) Penderfyniad y Llys Apêl yn *R v North and East Devon Health Authority ex parte Coughlan* [1999] "The Coughlan Judgment".
- (ii) Penderfyniad y Llys Apêl yn *R v. Bexley NHS Care Trust ex parte Grogan* [2001] "The Grogan Judgment".

Mae'r pwyntiau allweddol o'r dyfarniadau hyn wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**.

(iii) [Adran 47 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), sef Adran 49 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 gynt

Dyletswyddau Sefydliadol

Dyletswyddau'r GIG ac Awdurdodau Lleol

1.18 Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu, ledled Cymru, i'r graddau a ystyrir yn angenrheidiol ganddynt i fodloni'r holl ofynion rhesymol, wasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer atal salwch, gofalu am bobl sy'n sâl a darparu gofal dilynol i bobl sydd wedi bod yn sâl fel sy'n briodol yn eu barn hwy fel rhan o'r gwasanaeth iechyd" ([Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\)](#), [Adran 3](#)). Mae hyn yn cynnwys llety at ddibenion gwasanaethau iechyd a ddarperir o dan y Ddeddf honno. Mae

sefydliadau'r GIG (ymhlith eraill) yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar ran Gweinidogion Cymru.

- 1.19 Felly rhaid ystyried beth y mae'n briodol ei ddarparu fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng ngoleuni diben cyffredinol y gwasanaeth iechyd - gwella iechyd corfforol neu feddyliol ac atal, canfod neu drin salwch.
- 1.20 O dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar bob ALI i asesu anghenion gofal cymdeithasol oedolyn os ymddengys y gall fod gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth ([Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014, Adran 19](#)). Gellir diwallu anghenion oedolyn drwy ddarparu gwahanol fathau o ofal a chymorth, neu drefnu eu bod yn cael eu darparu, gan gynnwys llety mewn cartref gofal, yn ogystal ag yng nghartref oedolyn neu yn y gymuned neu drwy roi gwybodaeth a chynghor ([Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014, Adran 34](#)).
- 1.21 Os yw'r ALI yn fodlon, ar sail yr asesiad o anghenion, fod gan unigolyn anghenion gofal cymdeithasol a chymorth cymwys, rhaid iddo benderfynu, ar y cyd â'r unigolyn, sut y caiff yr anghenion hynny eu diwallu.
- 1.22 Os yw un o gyrff y GIG yn asesu anghenion unigolyn (boed yr unigolyn hwnnw wedi'i nodi'n gymwys i gael GIP ai peidio) a bod yr asesiad yn dangos y gallai fod angen gwasanaethau gofal a chymorth arno a allai fod yn rhan o gyfrifoldebau ALI, dylai hysbysu'r awdurdod a'i wahodd i gymryd rhan yn y broses asesu.

Graddau Pwerau Awdurdodau Lleol

- 1.23 Mae Adran 47(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu na chaiff ALI ddiwallu anghenion unigolyn am ofal a chymorth drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gwasanaeth y mae'n ofynnol ei ddarparu o dan ddeddfiad iechyd, oni bai y byddai gwneud hynny yn gysylltiedig â gwneud rhywbeth arall i ddiwallu anghenion hynny, neu'n ategol at wneud hynny. Mae Adran 47(10) o'r Ddeddf yn darparu mai ystyr "gofal nyrsio" yw "gwasanaeth sy'n cynnwys naill ai darparu gofal neu gynllunio, goruchwyllo neu ddirprwyo'r gwaith o ddarparu gofal, ond nid yw'n cynnwys gwasanaeth nad oes angen iddo, o ran ei natur a'r amgylchiadau y mae i'w ddarparu ynddynt, gael ei ddarparu gan nyrs gofrestredig".
- 1.24 Mae [Adran 47\(4\) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn darparu na chaiff ALI ddiwallu anghenion unigolyn am ofal a chymorth drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig.

Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

- 1.25 Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) (y Ddeddf Cydraddoldeb) yn dwyn ynghyd gyfreithiau gwahaniaethu a gyflwynwyd dros bedwar degawd drwy ddeddfwriaeth a rheoliadau. Mae'n disodli'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth flaenorol ar wahaniaethu, sydd bellach wedi'i diddymu. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Cyfeirir at y categorïau hyn yn y Ddeddf Cydraddoldeb fel 'nodweddion gwarchodedig'.
- 1.26 Hefyd, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Godau Ymarfer sy'n ymdrin â gwahaniaethu o fewn gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus fel y nodir yn Rhan 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb, ac a gafodd eu deddfu ar 6^{ed} Ebrill 2011.
- 1.27 Mae Rhan 3 yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb pan fyddant yn defnyddio unrhyw wasanaeth cyhoeddus neu breifat, p'un a delir am y gwasanaeth hwnnw ai peidio.
- 1.28 O dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 mae'n anghyfreithlon i awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau penodol o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol (y cyfeirir ato yn y Ddeddf Hawliau Dynol fel "hawliau'r Confensiwn"). Felly, bydd awdurdodau cyhoeddus yn torri'r Ddeddf Hawliau Dynol os byddant yn gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn mewn unrhyw faes o'u gweithgarwch, gan gynnwys darparu gwasanaethau neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a gwaith.
- 1.29 Gall materion hawliau dynol godi mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth gyhoeddus a gaiff ei harfer neu unrhyw wasanaeth cyhoeddus sy'n dwyn i rym hawliau unigolyn o dan y Confensiwn, er enghraifft hawliau o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn (yr hawl i barch tuag to fywyd preifat a theuluol). Os bydd awdurdod cyhoeddus neu unrhyw gorff arall yn gwahaniaethu wrth gyflawni swyddogaeth gyhoeddus sy'n dwyn un o hawliau'r Confensiwn i rym, gellir ystyried ei fod yn torri'r Ddeddf Hawliau Dynol am fod gwahaniaethu sy'n effeithio ar allu pobl i arfer hawliau'r Confensiwn yn gyfystyr â thorri'r Confensiwn (o dan Erthygl 14). Pan fo gwahaniaethu o'r fath yn seiliedig ar nodwedd a gaiff ei gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae hefyd yn debygol o dorri'r Ddeddf Cydraddoldeb.
- 1.30 Mae dyletswyddau statudol ar BILlau ac ALLau i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol a sicrhau bod hynny'n rhan annatod o'r ffordd y caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu blaenoriaethu a'u darparu. Dylai hyn alluogi pobl i fwynhau ansawdd bywyd a chael eu trin ag urddas a pharch. Caiff amcanion o'r fath eu hategu gan y canlynol:

- Mynediad cyfartal at ofal a chymorth, sy'n golygu na ddylai BILlau nac ALLau atal unrhyw un rhag cael asesiad am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned, os ymddengys fod ganddo anghenion a allai olygu ei fod yn gymwys i gael cymorth.
- Canlyniadau cyfartal ar ôl cael gofal a chymorth, sy'n golygu y dylai unigolion yn yr un ardal sydd ag anghenion tebyg ddisgwyl canlyniadau o ansawdd tebyg, er y gallai'r math o gymorth y byddant yn dewis ei gael amrywio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.
- Cyfle cyfartal, sy'n golygu y dylai BILlau ac ALLau gydweithio ag unigolion er mwyn nodi a goresgyn unrhyw rwystrau i gyfranogiad economaidd a chymdeithasol yn y gymuned.

Y Gofynion o ran y Gymraeg

- 1.31 Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") cafodd y Gymraeg ei gwneud yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hefyd, gwnaeth y Mesur greu rôl Comisiynydd y Gymraeg a galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg. O fis Mawrth 2016, disodlodd Safonau'r Gymraeg y system bresennol o Gynlluniau Iaith Gymraeg a ddarparwyd ar gyfer Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 1.32 Fel rhan o Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer 2018-19, cafodd y mesur canlynol ei gynnwys o dan y maes 'gofal unigol':
- *Tystiolaeth bod camau gweithredu'r iaith Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith fel y'i diffiniwyd yn [Mwy na Geiriau](#)*
- 1.33 Cafodd y mesur hwn ei gynnwys yn y fframwaith er mwyn sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn diwallu anghenion gofal siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd a'u gofalcwyr fel yr amlinellir yn y fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau'. Er mwyn dangos y canlyniad hwn, disgwylir i bob un o sefydliadau'r GIG baratoi adroddiad bob dwy flynedd ar y camau gweithredu allweddol a gyflawnwyd o dan y chwe maes blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau iechyd yn eu hiaith gyntaf.
- 1.34 Disgwylir i sefydliadau'r GIG ddangos bod y meysydd â blaenoriaeth wedi'u rhoi ar waith yn y sectorau gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Trefniadau Llywodraethu

Trosolwg Strategol

- 1.35 Mae darparu GIP yn effeithiol yn elfen allweddol o fusnes BILlau. Rhaid i bob BILI enwi swyddog gweithredol, ar lefel Cyfarwyddwr, i fod yn gyfrifol am fonitro perfformiad a chynnal goruchwyliaeth strategol.

- 1.36 Rhaid i'r Cyfarwyddwr penodedig allu cael gafael ar y data a'r wybodaeth reoli sydd eu hangen i'w alluogi i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.
- 1.37 Rhaid fod gan bob ALI gyswllt penodedig â statws sefydliadol cyfatebol. Rhaid iddo gydweithio'n agos â'r cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am GIP yn ei BILl a bydd yn gyfrifol am gyflwyno adroddiadau i'w bwyllgor craffu neu i gorff cyfatebol.
- 1.38 Dylai Cyfarwyddwyr yr ALI a'r BILl ymgysylltu â darparwyr sector annibynnol lleol a thrydydd sector, er mwyn sicrhau bod barn a phrofiadau darparwyr yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses graffu.

Fframwaith Perfformiad

- 1.39 Mae Fframwaith Perfformiad 2021 yn rhan o'r trefniadau Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer GIP yng Nghymru. Mae'n rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru y bydd sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni GIP yn cydymffurfio â Fframwaith GIP. Rhaid i BILlau gydymffurfio â'r trefniadau adrodd a nodir yn Fframwaith Perfformiad 2021 i gefnogi gwelliannau gwasanaeth parhaus a bodloni Llywodraeth Cymru ynghylch cysondeb y penderfyniadau a wneir am gymhwysedd i gael GIP ledled Cymru.
- 1.40 Mae Fframwaith Perfformiad 2021 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni chaiff cynnwys y Fframwaith Perfformiad ei ailadrodd yn y ddogfen hon.

ADRAN 2

POLISI GIP

2.1 Mae polisi Gweinidogion Cymru ar gymhwysedd i gael GIP yn seiliedig ar ba un a yw angen sylfaenol unigolyn yn angen iechyd ("y dull angen iechyd sylfaenol" fel y'i gelwir). Yr unig faen prawf ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd i gael GIP yw a yw angen sylfaenol unigolyn yn angen iechyd ai peidio.

2.2 Wrth benderfynu a yw angen sylfaenol unigolyn yn angen iechyd, rhaid gwneud penderfyniad rhesymegol, clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghenion a ddaw o asesiad cynhwysfawr. **Ffigur 1. Nodi prif gamau'r broses gymhwysedd.** Disgwylir i'r ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol dan sylw gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a chanllawiau ymarfer sy'n bodoli eisoes ar asesu a chynllunio gofal gan gynnwys:

- [Codau ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 sy'n ymwneud â Rhan 3 Asesu Anghenion Unigolion](#) a
- [Rhan 4 Diwallu Anghenion](#)
- [Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Rhan 2 a 3 Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#)
- [Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 17/2005 Hospital Discharge Planning Guidance](#)
- [Passing the Baton: A Practical Guide to Effective Discharge Planning \(2008\)](#)
- [Gofynion gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty: COVID-19](#)

2.3 Dylai ymarferwyr gyfeirio'n uniongyrchol at y canllawiau uchod. Ni cheisir eu hailadrodd yn y Fframwaith hwn.

EGWYDDORION SYLFAENOL

2.4 Ni fydd yr un set o ganllawiau yn mynd i'r afael â'r holl sefyllfaoedd posibl a all godi wrth asesu a diwallu anghenion cymhleth unigolyn. Ar adegau, bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn rhoi'r canllawiau ar waith mewn achosion go iawn. Mewn achosion o'r fath, rhaid i ymarferwyr allu dangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddorion a nodir isod

Egwyddor 1: Rhoi pobl yn gyntaf

2.5 Mae angen i'r unigolion sy'n troi at ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol pan fo ganddynt anghenion cymhleth wybod a phrofi mai eu budd pennaf a'u hawliau hwy yw prif ystyriaeth y bobl sy'n eu hasesu a'u cefnogi ac yn gwneud penderfyniadau. Bydd hyn i'w weld yn y parch a'r urddas a ddangosir iddynt fel unigolion. Mae gan unigolion sydd ag angen iechyd sylfaenol hawl i gael arian GIP. Felly, dylent deimlo eu bod yn cael eu

cefnogi drwy'r broses o benderfynu a ydynt yn gymwys a bod yn hyderus y byddant yn cael gofal o'r ansawdd sy'n ofynnol i ddiwallu eu hanghenion.

Egwyddor 2: Uniondeb y Broses Benderfynu

- 2.6 Mae aelodau'r Tîm Amlddisgyblaethol (TA) yn gyfrifol am uniondeb eu hasesiadau, cyngor proffesiynol arbenigol a phenderfyniadau a ddylai gael eu tanategu gan resymeg glir. Y TA sy'n gwneud argymhellion ar gymhwysedd a dim ond yn ystod y cam sicrhau ansawdd mewn amgylchiadau eithriadol, ac am resymau a nodir yn glir, y gellir eu herio. Ni ddylid defnyddio'r broses hon fel swyddogaeth porthgadw nac ar gyfer rheolaeth ariannol. Ni ddylai'r penderfyniad i beidio â derbyn argymhelliad y TA byth gael ei wneud gan un person sy'n gweithio'n unochrol. Dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch cymhwysedd fod yn annibynnol ar gyfyngiadau cyllidebol, ac ni ddylai swyddogion cyllid fod yn rhan o'r broses benderfynu.

Egwyddor 3: Dim penderfyniadau amdanaf heb yn wybod i mi

- 2.7 Yr unigolion eu hunain yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain. Rhaid eu cynnwys hwy a/neu eu cynrychiolwyr fel cyd-gynhyrchwyr wedi'u grymuso yn y broses asesu a chynllunio gofal. Rhaid iddynt gael eu gwahodd i gymryd rhan a chymryd rhan lawn mewn unrhyw asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth. Pan fo canlyniadau ariannol neu emosiynol i'r opsiynau gofal sydd ar gael, ni ddylai gweithwyr proffesiynol osgoi cael sgysiau gonest ac aeddfed gyda'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd. Rhaid i weithwyr proffesiynol gofio efallai y bydd angen i rai unigolion neu eu cynrychiolwyr gael cymorth neu eiriolaeth er mwyn mynegi eu dymuniadau, eu teimladau a'u dyheadau. Mae gan unigolion neu eu cynrychiolwyr yr hawl i benderfynu eu hunain gan bwy y byddent yn hoffi cael cymorth neu eiriolaeth.

Egwyddor 4: Dim oedi cyn diwallu anghenion unigolyn oherwydd trafodaethau am ariannu

- 2.8 Ni ddylai'r unigolyn brofi unrhyw oedi cyn i'w anghenion gael eu diwallu am nad yw asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Rhaid ystyried opsiynau cydariannu a chyllidebau cyfun os gall y rhain hyrwyddo ymatebion cyflymach ac, o ganlyniad i hynny, mwy effeithlon i anghenion a dewisiadau unigolyn. Mae cyfrifoldeb ar gomisiynwyr i ddatrys pryderon/anghydfodau cyn gynted â phosibl drwy sicrhau bod protocolau lleol perthnasol ar waith fel y nodir yn y broses anglydfodau yn **Adran 7**.

Egwyddor 5: Deall y diagnosis, canolbwyntio ar yr angen

- 2.9 Nid yw pobl yn eu diffinio'u hunain yn ôl eu diagnosis meddygol na chlinigol ac ni ddylai'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi wneud hynny ychwaith. Rhaid i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio er mwyn meithrin dealltwriaeth gyfannol o angen a'r effaith ar fywyd dyddiol yr unigolyn. Dylai unrhyw gamau asesu, trin a chynllunio/comisiynu gofal tymor hwy geisio darparu cymorth o ansawdd sydd wedi'i deilwra, sy'n cefnogi annibyniaeth cymaint â phosibl ac sy'n canolbwyntio ar y pethau pwysicaf ym marn yr unigolyn a'i ofalwyr.

Egwyddor 6: Gofal cydgysylltiedig a pharhad

- 2.10 Mae gofal tameidiog yn peri pryder, yn anniogel ac yn gostus. Gall arwain at newid diangen i drefniadau byw, sydd yn ei dro yn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd. Rhaid gwneud pob ymdrech i osgoi tarfu ar drefniadau gofal lle bynnag y bo'n bosib, neu i ddarparu trefniadau pontio esmwyth a diogel pan fo angen newid er budd pennaf yr unigolyn. Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal drwy Daliadau Uniongyrchol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r bwrdd iechyd gydweithio ag ef gyda'r bwriad o gyd-gynhyrchu a gwneud pob ymdrech i gynnal parhad y personél sy'n darparu'r gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny, fel y nodir yn **Adran 5**.

Rhaid i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd gael cyswllt a enwir y gall droi ato am gyngor a chymorth, a all gydgysylltu ymateb cyflym i unrhyw newid mewn angen.

Egwyddor 7: Cyfathrebu

- 2.11 Cyfathrebu gwael sydd wrth wraidd y mwyafrif llethol o gwynion, pryderon ac anghydfodau. Mae'n annerbyniol i weithwyr proffesiynol honni nad oes ganddynt amser i gyfathrebu – bydd yn cymryd mwy o amser i unioni'r sefyllfa'n nes ymlaen a byddant wedi colli ymddiriedaeth. Yn ôl natur y rhyngweithio, bydd angen cyfathrebu'n glir â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd sy'n ceisio ein help a rhoi cymorth clir iddo.
- 2.12 Felly, rhaid cyfathrebu â'r unigolyn neu ei gynrychiolydd yn ei ddewis iaith/fformat neu ddull. Mae hyn yn cynnwys yr holl gyfathrebu llafar ac ysgrifenedig drwy gydol y broses gymhwyso, gan gynnwys y defnydd o'r Rhestr Wirio, ACP a'r broses Llwybr Carlam, a darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth.
- 2.13 Caiff unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu grymuso os gallant siarad â staff yn eu dewis iaith. Mae'n bwysig cydnabod bod y cysyniad o iaith yn elfen hanfodol o ofal unigolyn a'i allu i gymryd rhan ym mhob agwedd arno fel partner cyfartal. Mae cyfathrebu effeithiol yn elfen allweddol o waith asesu ac unrhyw gymorth a ddarperir. Yng Nghymru, rhaid cynnig gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- 2.14 Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Awgryma'r dystiolaeth ei bod hi'n well gan ddefnyddwyr BSL gyfathrebu'n uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol a all gyfathrebu'n rhugl mewn BSL wrth drafod anghenion gofal a chymorth. Mae llawer o ALLau yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol arbennig sy'n gweithio gyda phobl fyddar ac yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio BSL. Mewn achosion pan na all gweithwyr proffesiynol gyfathrebu'n uniongyrchol gan ddefnyddio BSL, bydd yn rhaid defnyddio dehonglwyr yn uniongyrchol neu drwy gyswllt cyfrifiadur fideo.
- 2.15 Bydd angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n asesu anghenion pobl ag anawsterau lleferydd a chyfathrebu difrifol ganfod beth yw dull cyfathrebu dewisol yr unigolyn cyn dechrau'r asesiad. Efallai y bydd angen cymorth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technoleg Gynorthwyol Electronig er mwyn helpu i gynnal asesiadau sy'n ymwneud yn benodol â chyfathrebu.

- 2.16 Ni ddylai'r unigolyn brofi unrhyw oedi wrth gael ei asesiad na gofal a chymorth, ni waeth pa iaith/fformat neu ddull cyfathrebu a ddefnyddir yn ystod proses gymhwyso GIP.
- 2.17 Rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch cymhwysedd gael ei esbonio'n glir ac yn broffesiynol i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd yn ei ddewis iaith. Gweler **Cyfleu'r Penderfyniad ynghylch Cymhwysedd yn Adran 4**.

Process

- 2.18 Dylai'r broses o sgrinio ac asesu cymhwysedd ddechrau pan fydd anghenion parhaus yr unigolyn yn hysbys. Yr egwyddor sylfaenol graidd yw y dylid helpu unigolion i gael a dilyn y broses sydd fwyaf addas i'w hanghenion presennol a pharhaus.
- 2.19 Rhaid cymryd gofal i sicrhau na chaiff unrhyw ragdybiaethau cynamserol eu gwneud ynghylch y gofal hirdymor sydd ei angen tra bod yr unigolyn yn anhwylyd iawn.
- 2.20 Dylai asesiadau gael eu cynnal yng nghartref unigolyn neu mewn lleoliad cymunedol addas arall; nid mewn gwely ysbyty aciwt. Dylid gweithredu ar sail yr egwyddor 'Gartref yn gyntaf' a'r llwybrau Rhyddhau i Adfer Yna Asesu (D2RA) yn awtomatig. Ar ôl i unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty, dylai fod cyfnod o adsefydlu / ail alluogi er mwyn helpu'r unigolyn i barhau i fod mor annibynnol â phosibl, cyn cynnal asesiadau ar gyfer gofal tymor hwy, oni fydd amgylchiadau eithriadol.
- 2.21 Dylid cofio bob amser ei bod yn bosibl na fydd asesiad o gymhwysedd i gael GIP a gynhelir mewn ysbyty aciwt yn adlewyrchu anghenion tymor hwy unigolyn yn gywir. Un rheswm posibl dros hyn yw y gallai'r unigolyn, gyda'r cymorth priodol, wella ymhellach yn y dyfodol agos. Rheswm posibl arall yw ei bod yn anodd asesu anghenion unigolyn yn gywir tra ei fod mewn amgylchedd gwasanaethau aciwt.
- 2.22 Pan fo unigolyn yn barod i gael ei ryddhau'n ddiogel o ysbyty aciwt mae'n bwysig iawn y dylai hyn ddigwydd yn ddi-oed. Felly, ni ddylid gadael i'r broses asesu ar gyfer GIP beri oedi i'r broses o ryddhau unigolyn o'r ysbyty.
- 2.23 Dylid ystyried a yw'n briodol darparu rhagor o wasanaethau a ariennir gan y GIG. Gallai hyn gynnwys therapi a/neu adsefydlu, pe gallai hynny wneud gwahaniaeth i botensial yr unigolyn yn yr ychydig fisoedd nesaf. Galli hefyd gynnwys gofal canolraddol neu becyn cymorth interim yng nghartref yr unigolyn ei hun neu mewn cartref gofal. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid gohirio'r asesiad o gymhwysedd i gael GIP nes y gellir asesu anghenion yr unigolyn yn y dyfodol yn gywir Dylai'r gwasanaethau interim (neu wasanaethau interim amgen priodol os bydd anghenion yr unigolyn yn newid) barhau i gael eu darparu nes i'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd yr unigolyn i gael GIP gael ei wneud. Ni ddylai fod unrhyw fwllch o ran darparu cymorth priodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Defnyddior'r Rhestr Wirio

- 2.24 Y Rhestr Wirio yw'r adnodd sgrinio ar gyfer GIP y gellir ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau er mwyn helpu ymarferwyr i nodi unigolion y gall fod angen iddynt gael asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP. Ceir rhagor o fanylion am ddefnyddio'r Rhestr Wirio yn **Adran 3**.

Asesiadau Llwybr Carlam

- 2.25 O bryd i'w gilydd, bydd angen diogelu llesiant unigolyn drwy roi pobl ar 'lwybr carlam' ar gyfer darpariaeth GIP ar unwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am broses asesu Llwybr Carlam yn **Adran 3**.

Proses Asesu Cymhwysedd i gael GIP

- 2.26 Pan yr ystyrir ei bod yn debygol y bydd angen cymorth tymor hwy ar unigolyn er mwyn diwallu anghenion cymhleth ar ôl iddo gael ei ryddhau (neu yn y gymuned os bydd yr unigolyn gartref), rhaid enwebu cydgysylltydd gofal/gweithiwr proffesiynol arweiniol.
- 2.27 Y Cydgysylltydd Gofal yw'r unigolyn penodedig sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses gyfan o asesu gofal tymor hwy, gan gynnwys casglu tystiolaeth i lywio'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael GIP. Rhoddir rhagor o fanylion am rôl y Cydgysylltydd Gofal ym **mharagraffau 2.67 i 2.72**.
- 2.28 Rhaid i drafodaethau ynghylch anghenion unigolyn, ynghyd ag unrhyw ystyriaeth o gymhwysedd i gael GIP, gan gynnwys defnyddio'r Adnodd Cymorth Penderfynu (ACP), gael eu cynnal mewn cyfarfod ffurfiol o'r Tîm Amlddisgyblaethol ("TA"). Rhaid i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, (gall ei gynrychiolydd fod yn aelod o'r teulu, gofalwr, eiriolwr neu unrhyw gynrychiolydd arall y mae'r unigolyn yn ei ddewis i'w gefnogi, neu siarad neu weithredu ar ei ran) gael ei wahodd i gymryd rhan lawn mewn unrhyw asesiadau o'i anghenion fel y nodir yn **Egwyddor 3: Dim penderfyniadau amdanaf heb yn wybod i mi**.
- 2.29 Dylai'r broses asesu holi'r rhai sydd â gwybodaeth uniongyrchol am yr unigolyn a'i anghenion (mae rhagor o wybodaeth am aelodaeth y TA ar gael ym **mharagraffau 2.77 i 2.80**) a rhaid iddi gynnwys mewnbwn y meddyg ymgynghorol neu'r meddyg teulu sy'n gyfrifol am y claf, fel bod y ffeithiau clinigol a'r anghenion meddygol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r holl anghenion gofal eraill.
- 2.30 Lle y bo'n briodol, dylai'r asesiad gynnwys asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r unigolyn ac sy'n rhan o'i systemau cymorth presennol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, asiantaethau yn y trydydd sector a chymdeithasau tai.

- 2.31 Rhaid i'r Cydgysylltydd Gofal sicrhau bod yr asesiadau a gynhelir gan y TA yn drylwyr ac yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau rhesymegol ar gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP. Er y cydnabyddir manteision cyfarfodydd y TA, ni ddylent arwain at oedi a allai gael effaith negyddol ar y canlyniadau i'r unigolyn hwnnw. Gall y gwaith o gydgysylltu'r broses asesu barhau yn amserol, a dylai wneud hynny, y tu hwnt i gyfyngiadau cyfarfod ffurfiol. Mae'r broses ar gyfer asesu cymhwysedd i gael GIP, gan gynnwys cwblhau'r ACP, wedi'i nodi yn **Adran 4**.
- 2.32 Gall y Cydgysylltydd Gofal a/neu'r TA benderfynu bod angen cael gwybodaeth ychwanegol er mwyn rhoi cyngor arbenigol cadarn i'r BILI ar gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP. Os felly, rhaid nodi'r wybodaeth sydd ei hangen ynghyd â'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol i ategu'r asesiad. Ni ddylid oedi cyn gwneud penderfyniadau oherwydd ceisiadau cyson am ragor o wybodaeth.
- 2.33 I'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, dylai'r BILI ymgynghori â'r ALI perthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch cymhwysedd unigolyn i gael GIP. Wrth wneud hynny, dylai gydweithredu â'r awdurdod lleol perthnasol wrth drefnu i unigolion gymryd rhan mewn TA at y diben hwnnw. Gall BILlau ddefnyddio nifer o ddulliau (e.e. wyneb yn wyneb, fideo/telegynadleda ac ati) i drefnu'r asesiadau hyn gan y TA er mwyn sicrhau, hyd y gellir, fod pob aelod yn chwarae rhan weithredol.
- 2.34 Os ymgynghorir ag ALI, disgwylir iddo roi cyngor a chymorth i'r BILI, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. Os bydd BILI yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid iddo gydweithio i drefnu i unigolion gymryd rhan mewn TA. Dylai cynnwys gweithwyr proffesiynol o ALLau a'r GIG yn y broses asesu symleiddio'r broses o gynllunio gofal a bydd yn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn fwy effeithlon a chyson. Fel gydag unrhyw asesiadau a gynhelir ganddynt, ni ddylai ALLau ganiatáu i amgylchiadau ariannol unigolyn effeithio ar ei gyfranogiad mewn asesiad ar y cyd.
- 2.35 Dylai TAau fod yn ymwybodol bod yr ACP yn cynnwys adran ar ddiwedd tablau'r meysydd lle y gall yr unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr roi ei farn/eu barn ar y broses o gwblhau'r ACP nad ydynt wedi'u cofnodi eisoes rywle arall yn y ddogfen, gan gynnwys p'un a ydynt yn cytuno â lefelau a ddewiswyd yn y meysydd. Mae hefyd yn gofyn am i resymau dros unrhyw anghytundeb gael eu cofnodi. Felly, dylid trefnu cyfarfod y TA mewn ffordd sy'n galluogi'r unigolyn hwnnw i roi ei farn ar y lefelau a gwblhawyd yn y meysydd cyn iddo adael y cyfarfod.
- 2.36 Ar ôl i gymhwysedd gael ei ystyried a'i drafod â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr, ac ar ôl i'r ACP gael ei gwblhau, bydd aelodau'r TA yn gwneud eu hargymhelliad ynghylch a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ar unwaith, yn seiliedig ar y pedwar dangosydd allweddol (**gweler Adran 4**). Caiff yr argymhelliad hwn ei wneud ar wahân i unrhyw drafodaethau â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd ond, hyd yn oed os nad yw'n bresennol ar y diwrnod, dylid ei rannu ag ef/â nhw cyn gynted â phosibl.

- 2.37 Rhoddir trosolwg cryno o'r broses asesu a phenderfynu ar gyfer cymhwysedd i gael GIP yn **Atodiad 3**.

Adolygiadau

- 2.38 Ni ddylid o reidrwydd ystyried bod GIP yn drefniant parhaol. Dylid darparu gofal ar sail anghenion a chanlyniadau a dylid ei gynllunio fel ei fod yn cynyddu gallu ac annibyniaeth yr unigolyn i'r eithaf. Ceir rhagor o wybodaeth am becynnau adolygu gofal yn **Adran 5**.
- 2.39 Rhaid i'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n trefnu'r pecyn gofal gynnal sgysiau agored â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, gan ddisgrifio'r opsiynau y mae angen eu hystyried ac adlewyrchu'r egwyddorion a'r gofynion a nodir yn y Model Cynllunio Gofal Cynaliadwy.
- 2.40 Er mwyn bod yn gyson â dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynnal y broses asesu cymhwysedd i gael GIP, dylid esbonio'r broses asesu ac adolygu barhaus i'r unigolyn, a/neu ei deulu, gofalwr neu unrhyw gynrychiolydd arall y mae'r unigolyn yn ei ddewis, o'r cychwyn cyntaf. Dylid ei esbonio iddo ar lafar hefyd yn ogystal â'i gadarnhau'n ysgrifenedig a dylai pob gohebiaeth â'r unigolyn fod yn newis iaith/fformat yr unigolyn.
- 2.41 Dylid rhoi copi o'r *Llyfryn Gofal Iechyd Parhaus i Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr* i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd, cyn gynted ag yr ystyrir y gall fod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol a'i fod yn gymwys i gael GIP.
- 2.42 At ddibenion y ddogfen hon, lle nodwn 'yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd', mae hyn yn golygu unrhyw gynrychiolydd y mae'r unigolyn yn ei ddewis. Gall fod yn aelod o'i deulu, ei ofalwr neu unrhyw gynrychiolydd arall y mae'n ei ddewis i'w gefnogi, neu i siarad neu weithredu ar ei ran.
- 2.43 Hefyd, fel y nodir yn Egwyddorion Sylfaenol y Fframwaith, yr unigolion yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain. Rhaid eu cynnwys hwy a'u teuluoedd a'u gofalwyr (boed yn rhai â thâl neu'n rhai di-dâl) neu unrhyw gynrychiolydd arall, fel cyd-gynhyrchwyr wedi'u grymuso yn ystod y broses asesu a chynllunio gofal. Rhaid gwahodd yr unigolyn neu ei gynrychiolydd i fod yn bresennol ym mhob asesiad o'i anghenion gofal a chymorth a chymryd rhan lawn ynddynt.

CYFRIFOLDEBAU SEFYDLIADOL

- 2.44 Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r dull polisi a'r cyfeiriad strategol ar gyfer GIP. Bydd yn craffu ar y gwaith o gyflawni GIP ac yn hyrwyddo gwelliant drwy Fframwaith Perfformiad 2021. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiad dysgu yn ystod y cyfnod gweithredu i gefnogi BILlau ac ALLau i gyflawni GIP.

- 2.45 Mae'r GIG yn gyfrifol am asesu, trefnu ac ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau er mwyn diwallu anghenion gofal iechyd byrdymor a hirdymor y boblogaeth. Yn ogystal â chyfnodau o ofal iechyd aciwt, mae angen i rai pobl gael gofal dros gyfnod estynedig, o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch, er mwyn diwallu anghenion iechyd corfforol a/neu anghenion iechyd meddwl. Fel arfer, darperir y gwasanaethau hyn am ddim.
- 2.46 Mae gan BILlau rôl i'w chwarae i sefydlu a gweithredu trefniadau llywodraethu ar gyfer ystyriaethau'n ymwneud â chymhwysedd i gael GIP a phrynu a diogelu gofal, fel y maent yn ei wneud mewn meysydd polisi gofal iechyd eraill. Maent yn gyfrifol am:
- sicrhau y caiff y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer GIP ei gymhwyso'n gyson;
 - hyrwyddo ymwybyddiaeth o GIP;
 - rhoi arfer da ar waith a pharhau i wneud, gan sicrhau y caiff safonau ansawdd eu cyrraedd a'u cynnal;
 - darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu cyson ar y cyd ar gyfer yr holl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol;
 - nodi'r problemau sy'n codi o ran darparu GIP a gweithredu arnynt;
 - llywio trefniadau comisiynu, ar sail strategol ac unigol;
 - sicrhau y dilynir arfer gorau wrth asesu a chadw cofnodion;
 - darparu arweinyddiaeth strategol a datblygu'r sefydliad a'r gweithlu, a sicrhau bod systemau lleol yn gweithio'n effeithiol ac yn gwella perfformiad.
- 2.47 Maent yn gyfrifol am sicrhau bod mynediad at asesiadau, prosesau gwneud penderfyniadau a darpariaeth yn deg ac yn gyson. Ni ddylid gwahaniaethu ar sail hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, na'r math o angen iechyd (er enghraifft p'un a yw'r angen yn un corfforol, meddyliol neu seicolegol). BILlau sy'n gyfrifol am sicrhau nad oes gwahaniaethu'n digwydd a dylent ddefnyddio trefniadau monitro effeithiol i fonitro'r mater yma.
- 2.48 Ar ôl i asesiad ganfod bod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol a'i fod, felly, yn gymwys i gael GIP, mae'r GIG yn gyfrifol am ariannu'r pecyn iechyd a gofal cymdeithasol llawn. Pan fo'r unigolyn yn byw gartref, nid yw hyn yn cynnwys costau llety, bwyd na chymorth cyffredinol yn y cartref. Mae BILlau sy'n contractio â sefydliadau eraill ac, yn enwedig y sector annibynnol, yn gyfrifol am sicrhau bod yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael a'u hansawdd yn ddigonol i ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn. Rhaid i BILlau drefnu adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n parhau i fod yn addas at y diben.
- 2.49 Yn ystod cyfnod gweithredu'r Fframwaith, rhaid i gyrff y GIG:
- gadarnhau i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion, y prosesau a'r cyfrifoldebau yn y Fframwaith hwn
 - sicrhau bod yr holl aelodau perthnasol o staff yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer asesu, penderfynu ar gymhwysedd a darparu

gwasanaethau GIP, drwy gymryd rhan yn nigwyddiad dysgu Llywodraeth Cymru a hyfforddiant pellach ar y cyd yn ôl yr angen

- sicrhau bod *Llyfryn Gwybodaeth Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr* ar gael i unigolion neu eu cynrychiolwyr mewn amrywiaeth o fformatau cyn gynted ag y daw'n amlwg y gall fod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol ac felly y gall fod yn gymwys i gael GIP
- adolygu eu prosesau asesu, sicrhau ansawdd a rhyddhau a'u trefniadau comisiynu presennol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r Fframwaith hwn.

2.50 Mae awdurdodau lleol (ALLau) hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi eu poblogaeth leol, gan gynnwys pobl y mae angen gofal estynedig arnynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys llety, addysg, gofal personol a chymdeithasol, hamdden a gwasanaethau eraill. Gall ALLau godi tâl am wasanaethau gofal yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Godi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol. Yr ALI sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw daliadau a allai gael effaith ar yr unigolyn yn cael eu hegluro cyn gynted â phosibl.

2.51 Nid yw'r ffaith bod gan rywun anghenion iechyd na all ALI eu diwallu yn golygu ynddi'i hun bod yr unigolyn yn gymwys i gael GIP. Os na fydd unigolyn yn gymwys i gael GIP, gall gael amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o hyd. Gall y rhain fod yn rhan o wasanaethau prif ffrwd neu gallant fod wedi'u cynllunio'n unigol er mwyn diwallu anghenion penodol.

2.52 Yn ystod cyfnod gweithredu'r Fframwaith, rhaid i ALLau ystyried sut mae eu harferion presennol yn cyd-fynd â'r cyfrifoldebau a nodir yn y Fframwaith hwn a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

2.53 Mae gan BILlau ac ALLau gyfrifoldebau i sicrhau y caiff unigolion eu hasesu ar gyfer GIP, ac y darperir GIP iddynt, mewn ffordd gyson ac y caiff y broses ei rheoli mewn modd gweithredol er mwyn osgoi unrhyw achosion diangen o oedi. Rhaid ystyried amseriad a lleoliad yr asesiad yn ofalus. Os caiff ei gynnal ar ôl i unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty, dylai BILlau ac ALLau sicrhau bod camau wedi'u cymryd i wella siawns yr unigolyn o ymadfer ac adsefydlu cymaint â phosibl cyn gynnal yr asesiad i gael fGIP. Dylid gwneud hyn gartref neu mewn lleoliad cymunedol addas arall fel cyfleusterau cam i lawr/canolraddol gyda chymorth priodol. Ni ddylai fod unrhyw oedi a achosir oherwydd anghydfodau ynghylch pa asiantaeth a ddylai ariannu'r ddarpariaeth. Gall partneriaid ddefnyddio cyllideb ar y cyd neu gyllideb a rennir i ariannu'r lleoliad yn y byrdymor a gellir ail-lenwi'r gronfa hon ar ôl penderfynu ar y cyfrifoldebau ariannu. Rhaid i gyrff y GIG ac ALLau weithio mewn partneriaeth er mwyn:

- adolygu'r prosesau a'r gwasanaethau sydd eisoes ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i unigolion;

- ystyried eu cyfrifoldebau o dan GIP lle mae angen gwneud trefniadau clir â sefydliadau darparu a sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys mewn prosesau prynu a chontractio;
- cydymffurfio â'u cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Fframwaith hwn;
- cyfleu gofynion y Fframwaith i ddarparwyr gwasanaethau ym mhob sector. Bydd hyn yn eu helpu, er enghraifft, i nodi unigolion ag anghenion gofal iechyd parhaus.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL YM MHROSES GYMHWYSO GIP

2.54 Wrth weithredu'r egwyddorion a nodir uchod, mae gan bawb dan sylw rolau a chyfrifoldebau allweddol i'w cyflawni. Maent yn cynnwys y canlynol:

Yr unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu

- 2.55 Mae'n hanfodol bod yr unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu yn ganolog i'r broses asesu a chynllunio gofal, fel y nodir yn **Egwyddor 3** uchod. Yr unigolyn hwnnw yw'r arbenigwr ar ei fywyd a'i sefyllfa ei hun. Yn ôl ei natur, caiff yr asesiad ei ysgogi'n aml gan salwch neu ddigwyddiad bywyd arall a rhaid i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw wneud pob ymdrech i helpu'r unigolyn i gymryd rhan mewn trafodaethau a fydd yn effeithio ar ei ddyfodol. Dibynnir ar yr unigolyn i roi gwybodaeth onest, mynegi ei farn a'i ddyheadau, a dweud yn glir os oes angen esboniad pellach arno neu os oes materion y mae angen i'r tîm eu deall er mwyn diwallu ei anghenion yn effeithiol.
- 2.56 Drwy gydol proses asesu GIP, gall yr unigolyn ddewis cael cynrychiolydd i'w gefnogi, neu siarad neu weithredu ar ei ran, ar sail ffurfiol neu anffurfiol, gan gynnwys mewn unrhyw gyfarfodydd y maent yn cymryd rhan ynddynt. Gall y cynrychiolydd fod yn aelod o'r teulu, ei ofalwr neu gynrychiolydd arall o'i ddewis.
- 2.57 Bydd cynrychiolydd yr unigolyn yn chwarae rôl bwysig wrth ei gefnogi a rhaid i'r gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech i hwyluso'i gyfranogiad. Er mwyn cyflawni'r canlyniad gorau posibl i'r unigolyn, gan gynnwys cymorth i ymadfer a chadw ei annibyniaeth, bydd disgwyl i ofalwyr/perthnasau/cynrychiolwyr ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth a/neu gymryd rhan yn y cyfarfod amlddisgyblaethol yn amserol. Os oes nifer o berthnasau dan sylw, dylid enwebu prif unigolyn cyswllt a fydd yn gyfrifol am gyfathrebu â'r perthnasau eraill.

Lle nad oes gan yr unigolyn alluedd, ond mae ganddo gynrychiolydd awdurdodedig

- 2.58 Lle y nodwyd nad oes gan yr unigolyn alluedd i roi ei gydsyniad na chyfranogi'n effeithiol yn y broses benderfynu, fel y nodir yn **Adran 3**, caiff cynrychiolydd â'r awdurdod priodol, fel Gorchymyn Dirprwyaeth neu Atwrneiaeth Arhosol gofrestredig,

wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn. Gall y cynrychiolydd awdurdodedig ddewis cael ei gefnogi gan eiriolwr neu gynrychiolydd o'i ddewis.

Rôl y teulu/gofalwr neu gynrychiolydd arall pan fydd Penderfyniad er 'Budd Pennaf' yn cael ei wneud

- 2.59 Lle nad oes gan yr unigolyn alluedd i wneud penderfyniadau, ac nad oes cynrychiolydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ar ei ran, fel y nodir yn **Adran 3**, dylai'r BILI wneud penderfyniad 'budd pennaf' ar ei anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Pan fo angen gwneud penderfyniad 'budd pennaf', rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn unrhyw drydydd parti perthnasol sydd â buddiant gwirioneddol yn lles yr unigolyn hwnnw (os yw'n rhesymol ac yn ymarferol ymgynghori ag ef). Bydd hyn yn cynnwys y teulu, ffrindiau ac eiriolwyr fel arfer. Gall unigolyn ddewis cael aelod o'r teulu neu berson arall, a ddylai weithredu'n annibynnol ar BILlau ac ALLau, i weithredu fel eiriolwr ar ei ran.
- 2.60 Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad gofio bod angen parchu cyfrinachedd ac ni ddylai rannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon onid ystyrir bod gwneud hynny er budd pennaf yr unigolyn at ddibenion yr asesiad o gymhwysedd i gael GIP. Os bydd yr unigolyn wedi gwneud 'datganiad ymlaen llaw' sy'n nodi nad yw am i wybodaeth bersonol gael ei rhannu ag unigolion penodol, dylid ystyried hyn wrth asesu beth i'w wneud er budd pennaf yr unigolyn.
- 2.61 Er bod yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn trydydd partïon perthnasol, nid oes gan y rhai yr ymgynghorir â nhw (gan gynnwys aelodau o'r teulu) yr awdurdod i gydsynio, neu wrthod cydsynio, i'r camau gweithredu a gynigir o ganlyniad i'r broses 'budd pennaf'. Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad sy'n gyfrifol am y penderfyniad, nid y rhai yr ymgynghorir â nhw. Pan fo gwahaniaeth barn rhwng y sawl sy'n gwneud y penderfyniad a'r rhai yr ymgynghorir â nhw, dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys hyn yn anffurfiol. Fodd bynnag, ni ddylai'r broses hon beri gormod o oedi cyn gwneud penderfyniadau amserol er budd pennaf yr unigolyn.
- 2.62 Ni all yr unigolyn na'i gynrychiolwyr fod yn aelodau o'r TA. Fodd bynnag, rhaid iddo gael cyfle i gymryd rhan lawn ym mhroses GIP a chael cyfle i fod yn bresennol yng nghyfarfod y TA lle bydd yr ACP yn cael ei gwblhau er mwyn iddo allu cymryd rhan lawn yn y broses o'i lenwi, a hynny fel partner cyfartal.
- 2.63 Felly, rhaid i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd gael rhybudd rhesymol am gyfarfod y TA lle bydd yr ACP yn cael ei gwblhau er mwyn ei alluogi i fod yn bresennol, gan ystyried ei amgylchiadau personol. Os na fydd yn dymuno bod yn bresennol, lle rhoddir cydsyniad, dylid gofyn iddo am ei sylwadau a'i wybodaeth a'u hystyried wrth gwblhau'r ACP.
- 2.64 Dylai'r gwaith o gwblhau'r ACP gael ei drefnu fel bod yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn deall y broses ac yn cael gwybodaeth a chymorth i'w alluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch y gofal a'r cymorth a roddir iddo yn y

dyfodol. Dylai'r rhesymau dros unrhyw benderfyniadau fod yn dryloyw a dylid eu dogfennu'n glir.

- 2.65 Yn **Adran 1 (2)** o'r ACP, dylai'r TA gofnodi safbwyntiau'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd ar ei anghenion gofal, ac a yw o'r farn bod asesiad y TA wedi adlewyrchu ei anghenion yn gywir.
- 2.66 Yn **Adran 1 (3)** dylid nodi p'un a gyfrannodd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd at yr asesiad o'i anghenion ac, os felly, ym mha ffordd y cyfrannodd ato. Os na chymerodd ran yn yr asesiad, rhaid cofnodi p'un a gafodd wahoddiad ai peidio neu a wnaeth wrthod cymryd rhan.

Rôl y Cydgysylltydd Gofal/Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol

- 2.67 Y Cydgysylltydd Gofal yw'r unigolyn penodedig sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r broses gyfan o asesu gofal tymor hwy. Mae'n atebol am sicrhau bod y broses asesu wedi'i llunio ar y cyd, yn gadarn ac yn amserol. Rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses, a'u cynnwys yn llawn mewn trafodaethau am ei ofal.
- 2.68 Mae'r Cydgysylltydd Gofal yn fwyaf tebygol o fod yn weithiwr iechyd proffesiynol a bydd yn bwysig sicrhau parhad, er enghraifft, os oes gan yr unigolyn glefyd sy'n gwaethygu a gweithiwr proffesiynol allweddol arbenigol. Byddai'r dull hwn o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn awgrymu y gall hefyd fod yn dderbyniol i weithiwr cymdeithasol sydd â chydberthynas hirsefydlog â'r unigolyn a'r teulu weithredu fel Cydgysylltydd Gofal. Byddai hyn yn amodol ar gytundeb rhyngasiantaethol, gyda'r penderfyniad terfynol ynghylch pwy fydd yn gweithredu fel y Cydgysylltydd Gofal yn cael ei wneud gan y BILI.
- 2.69 Gellir cyfeirio at rôl y 'Cydgysylltydd Gofal' fel y Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol. Defnyddiwn y term 'Cydgysylltydd Gofal' yn y ddogfen hon ond mae cwmpasu swyddogaeth y Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol hefyd.
- 2.70 Nodwn fod i'r term 'Cydgysylltydd Gofal' ystyr benodol mewn perthynas â chynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl. Er y gall yr un gweithiwr proffesiynol hefyd gydgyssylltu'r asesiad ar gyfer GIP, swyddogaethau gwahanol ydynt. Os bydd y Cydgysylltydd Gofal yn newid, dylid dilyn trefniadau ffurfiol i drosglwyddo'r wybodaeth berthnasol.
- 2.71 Mae rôl y Cydgysylltydd Gofal yn cynnwys:
- nodi a sicrhau cyfranogiad holl aelodau priodol y TA
 - Sicrhau bod aelodau'r TA yn deall eu rôl yn yr asesiad cynhwysfawr a'u cyfraniad at y broses benderfynu;

- sicrhau bod gan yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd/cynrychiolwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall yr asesiad a'r broses benderfynu a chyfrannu'n llawn ati. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod cymorth eirioli ar gael os bydd ei angen.
- sicrhau y caiff yr holl asesiadau eu coladu mewn un man a'u bod o ansawdd digonol i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ategu proses benderfynu deg a rhesymegol
- sicrhau bod amserlen glir ar gyfer y broses benderfynu a bod y broses yn cydymffurfio â gofynion y Fframwaith hwn
- sicrhau y caiff cyngor arbenigol y TA i'r BILI ar gymhwysedd a'r rhesymeg ei gofnodi'n glir a'i gyfleu i'r partiön angenrheidiol, gan gynnwys yr unigolyn neu ei gynrychiolydd
- cysylltu â'r unigolyn neu ei gynrychiolydd/cynrychiolwyr o fewn 48 awr i gyfarfod y TA lle y penderfynwyd ar gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP. Diben hyn yw sicrhau eu bod yn deall y canlyniad yn llawn ac ateb unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt ar ôl ystyried y canlyniad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â phrotocolau lleol gan gynnwys trefniadau sicrhau ansawdd ac, os bydd angen, brosesau datrys anghydfodau ac apelio, cyn uwchgyfeirio'r achos at y lefel reoli nesaf

2.72 Mae cyfrifoldebau penodol o safbwynt yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn cynnwys:

- Sefydlu cydsyniad
- Sefydlu a oes gan yr unigolyn alluedd
- sefydlu dewis iaith, fformat neu ddull cyfathrebu'r unigolyn neu ei gynrychiolydd cyn gynted ag yr ystyrir y gall fod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ac y gall fod yn gymwys i gael GIP;
- darparu'r *Llyfryn Gofal Iechyd Parhaus i Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr* cyn gynted ag yr ystyrir y gall fod gan yr unigolyn angen gofal iechyd sylfaenol ac y gall fod yn gymwys i gael GIP;
- esbonio amserlenni a cherrig milltir allweddol, gan gynnwys amserlenni adolygu
- rhoi gwybod iddo pa unigolion eraill sy'n debygol o gymryd rhan yn y broses
- ei hysbysu am unrhyw oedi posibl
- darparu sianel gyfathrebu glir rhwng yr unigolyn neu ei gynrychiolydd/cynrychiolwyr a'r TA

Rôl y Tîm Amlddisgyblaethol

- 2.73 Mae aelodau timau amlddisgyblaethol (TA) yn gyfrifol am weithio gyda'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr i gynnal asesiad trylwyr a gwrthrychol o'i anghenion, rhoi cyngor arbenigol i'r BILI ar gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP a gwneud argymhellion ynghylch y lleoliad a'r set sgiliau sy'n ofynnol i weithredu'r cynllun gofal a gyd-gynhyrchwyd.
- 2.74 Mae'r TA yn cydweithio i goladu ac adolygu'r wybodaeth berthnasol am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr unigolyn. Mae'r TA yn defnyddio'r wybodaeth hon er

mwyn helpu i nodi anghenion unigolyn yn gliriach, drwy gwblhau'r Adnodd Cymorth Penderfynu (**ACP gweler Adran 4**) ac wedyn yn cydweithio i lunio barn broffesiynol ar b'un a yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP, a adlewyrchir yn ei argymhelliad. Gelwir y broses hon yn asesiad amlddisgyblaethol o gymhwysedd i gael GIP.

- 2.75 Mae aelodau'r TA yn gyfrifol am uniondeb eu hasesiadau, cyngor proffesiynol a phenderfyniadau a ddylai gael eu tanategu gan resymeg glir. Gellir herio ansawdd eu hasesiad, er enghraifft os oes bylchau yn y wybodaeth sydd ei hangen. Ni ddylid pwyso arnynt i newid eu barn broffesiynol oherwydd cyfyngiadau ariannol.
- 2.76 Mae cyfrifoldeb ar Gadeirydd y TA, y mae'n rhaid iddo fod yn un o'r aelodau a nodir isod, i sicrhau bod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd fel petai'n gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod cyfarfod y TA, ei fod yn cael ei gynnwys yn y drafodaeth a'i fod wedyn yn deall y rhesymeg dros y penderfyniad a wneir.

Aelodau'r TA

- 2.77 Mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n cyfrannu at y broses hon y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol. Rhaid i aelodau'r TA gynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd wrthi'n asesu, adolygu, trin neu gefnogi'r unigolyn ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny'n ddiweddar, a all gyfrannu'n ysturlon at y broses asesu, oni fydd amgylchiadau eithriadol. Bydd hyn yn rhoi hyder i'r unigolyn fod y TA sy'n rhan o'r trafodaethau ynghylch argymhellion yn deall ei anghenion. Fel isafswm, rhaid i'r TA gynnwys y canlynol:
- o leiaf ddau weithiwr proffesiynol, sydd â gwybodaeth uniongyrchol am yr unigolyn a'i anghenion, o broffesiynau gofal iechyd gwahanol, h.y. nyrsys, meddygon teulu neu feddygon ymgynghorol, therapyddion galwedigaethol, arbenigwyr eraill, e.e. Arbenigwyr Therapi Lleferydd ac Iaith / Ymddygiad (oni bai mai dim ond un gweithiwr proffesiynol o'r fath sydd â'r wybodaeth berthnasol)
 - gweithiwr cymdeithasol

A gall hefyd gynnwys y canlynol lle y bo'n briodol:

- Staff cartrefi gofal
 - Staff gofal cartref
- 2.78 Nid yw'n briodol i uwch-reolwyr na rheolwyr cyllid o'r BILI na'r ALI fod yn bresennol yng nghyfarfod y TA.
- 2.79 Mae'n hanfodol cynnwys cydweithwyr o'r ALI yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol yn y broses asesu a bydd hyn yn golygu bod y penderfyniadau a wneir yn fwy effeithiol, gwybodus a chyson.
- 2.80 Dim ond er mwyn pennu angen iechyd sylfaenol y cynhelir cyfarfod y TA. **Rhaid peidio** â thrafod unrhyw anghydfod rhwng y BILI a'r ALI am gomisiynu gwasanaethau

neu gyllid yng nghyfarfod y TA. Dylai'r anghydfod hwn gael ei ddatrys gan ddilyn y broses datrys anghydfodau a nodir yn y Fframwaith.

Rôl y Tîm Comisiynu

- 2.81 Dylai BILlau ac ALLau, er enghraifft, fabwysiadu dull integredig o gomisiynu gofal preswyl a gofal mewn cartrefi nyrsio, er mwyn dylanwadu cymaint â phosibl ar y broses o ddatblygu darpariaeth. Hefyd, bydd angen iddynt weithio'n agos gyda darparwyr er mwyn sicrhau bod amrywiaeth briodol o wasanaethau ar gael er mwyn diwallu anghenion eu poblogaeth. Gall partneriaid ddefnyddio partneriaethau ffurfiol â threfniadau cyllido cyfun i ategu eu dull integredig o gomisiynu gwasanaethau.
- 2.82 Bydd gan bob BIL system gadarn ar waith i gomisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn, fel y nodir yn yr asesiad a'r cynllun gofal. Rhaid iddo ystyried a chydbwysu dewisiadau'r unigolyn, barn ei deulu/cynrychiolydd (cynrychiolwyr) a Pholisi Cynllunio Gofal Cynaliadwy GIG Cymru. Y BIL fydd yn gyfrifol am nodi a bylchau mewn gwasanaethau lleol a mynd i'r afael â nhw. Ceir manylion pellach am gomisiynu o dan Darparu ac Adolygu Gwasanaethau (**Adran 5**).

Eiriolaeth

- 2.83 Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth o dan Ran 10 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi'r gofynion i ALLau sicrhau bod mynediad at wasanaethau eirioli a chymorth ar gael er mwyn galluogi unigolion i ymgysylltu a chymryd rhan pan fydd ALLau yn cyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â nhw; a threfnu eiriolwr proffesiynol annibynnol i hwyluso'r broses o gynnwys unigolion o dan amgylchiadau penodol.
- 2.84 Mae gan yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) rôl statudol i gefnogi a darparu mesurau diogelu cyfreithiol ar gyfer unigolion agored i niwed nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol pwysig ynglŷn â'u gofal a'u hamgylchiadau. Gall hyn gynnwys triniaeth feddygol ddifrifol neu newid preswylfa, er enghraifft, symud i gartref gofal. Mae dyletswydd ar BILlau ac ALLau o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i gyfarwyddo ac ymgynghori ag IMCA os nad oes gan yr unigolion dan sylw alluedd i wneud y penderfyniad sydd ei angen ac nad oes ganddynt deulu na ffrindiau (neu rywun priodol) i'w cynrychioli.
- 2.85 Ehangodd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ddarpariaeth statudol Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) a roddir eisoes i'r rhai a ddelir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i gynnwys pobl sy'n cael gofal a thriniaeth cleifion mewnol ar sail wirfoddol/anffurfiol. Mae gan bobl sy'n destun Gorchmynion Triniaeth Gymunedol neu Warcheidiaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 hawl i gael darpariaeth Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol hefyd.
- 2.86 Os nad yw unigolyn yn bodloni'r meini prawf i gael cymorth IMCA a pha un a oes ganddo alluedd ai peidio, efallai y bydd yn dal i fod eisiau cael cymorth gan eiriolwr. Dylai BILlau ac ALLau sicrhau bod unigolion yn cael gwybod am wasanaethau eirioli lleol a


gwasanaethau a all gynnig cyngor a chymorth iddynt. Mae angen i BILlau hefyd ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau i sicrhau bod gwasanaethau eirioli digonol ar gael i'r rhai sy'n gymwys neu a allai fod yn gymwys i gael GIP. Hefyd, gall unigolyn ddewis cael aelod o'r teulu neu berson arall, a ddylai weithredu yn annibynnol ar BILlau ac ALLau, i weithredu fel eiriolwr ar ei ran.

Gofalwyr Di-dâl

- 2.87 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pwysigrwydd gwella bywydau gofalwyr di-dâl ledled Cymru drwy amlinellu tair egwyddor genedlaethol, sef: cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu; adnabod a chydabod gofalwyr; a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- 2.88 Cydnabyddir y rôl bwysig a chwaraeir gan ofalwyr gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol, waeth sut mae gofal yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn cael ei ariannu. Mae BILlau ac ALLau yn gyfrifol ar y cyd am nodi gofalwyr a gofalwyr ifanc a gweithio mewn partneriaeth â nhw fel y gellir eu cefnogi'n well i barhau â'u rôl ofalu, os ydynt yn barod ac yn abl i wneud hynny.
- 2.89 Gofalwr yw unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl fel arfer, am ffrind neu aelod o'r teulu y mae angen help neu gymorth ychwanegol arno i fyw o ddydd i ddydd, er enghraifft, oherwydd salwch, anabledd neu lesgedd corfforol.
- 2.90 Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol fynd ati'n rhagweithiol i adnabod gofalwyr a bod yn sensitif i lefel y cymorth y mae arnynt ei angen a'i eisiau. Dylai'r dull empathetig hwn o weithredu gael ei adlewyrchu mewn unrhyw Restr Wirio a/neu asesiad llawn o gymhwysedd ar gyfer GIP gyda gofalwyr ac aelodau o'r teulu yn cael eu cynnwys lle y bo'n briodol.
- 2.91 Lle y gofynnir i ofalwyr di-dâl roi cymorth, neu lle maent yn cynnig gwneud hynny, mae dyletswydd ar BILlau ac ALLau i asesu a rhaid iddynt gynnig asesiad i'r gofalwr ar gyfer cymorth os yw'n ymddangos iddynt y gall fod angen cymorth ar y gofalwr. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae gofalwr yn gallu parhau i ymgymryd â'r rôl ac y mae'n fodlon gwneud hynny. O dan Ddeddf 2014, bydd gan ofalwyr:
- hawl i gael asesiad o'u hanghenion cymorth heb iddynt orfod gwneud cais ffurfiol am asesiad (bydd dyletswydd ar awdurdod lleol i gynnal asesiad pan ddaw i'r amlwg y gallai fod gan ofalwr anghenion fel rhan o'i rôl ofalu neu y bydd ganddo anghenion o'r fath);
 - hawl i gymorth os yw eu hanghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir mewn rheoliadau;
 - os oes ganddynt anghenion cymwys, hawl i gael cynllun cymorth statudol y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ei adolygu'n rheolaidd.
- 2.92 Pan fo BILl yn cefnogi pecyn gofal yn y cartref lle mae cynnwys aelod o'r teulu neu ffrind yn rhan annatod o'r cynllun gofal, dylai gyuno â'r gofalwr ar lefel y cymorth a ddarperir ganddo. Dylai hefyd gynnal asesiad o allu'r gofalwr i barhau i ofalu, gan fodloni ei hun bod

cyfrifoldebau'r gofalwr yn briodol ac yn gynaliadwy, a chadarnhau p'un a yw'n 'ymddangos bod angen cymorth arno', a fyddai'n golygu y dylid atgyfeirio'r gofalwr i gael asesiad gofalwr.

- 2.93 Dylid hefyd ystyried atgyfeirio'r gofalwr i gael asesiad gofalwr ar wahân gan yr awdurdod lleol perthnasol. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan holl gyrff y GIG ddyletswydd gyfatebol i gydweithio ag awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu priod swyddogaethau sy'n ymwneud â gofalwyr. Mae ddyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal asesiad gofalwr 'os ymddengys fod angen cymorth arno' yn berthnasol iawn. Golyga hyn os yw'r BILL o'r farn, ar sail y camau uchod, y gall fod angen cymorth ar y gofalwr, y dylid gwneud atgyfeiriad. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol os oes gan y gofalwr anghenion o ran addysg, hamdden neu waith (nad ydynt yn gysylltiedig â'i rôl ofalu) am fod y rhain y tu allan i gwmpas GIP ond gellir ymdrin â nhw drwy ddarpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



ADRAN 3

CYN ASESIAD O GYMHWYSEDD I GAEL GIP

CYDSYNIAD

3.1 Os oes gan yr unigolyn dan sylw y galluedd i gydsynio, dylid cael ei gydsyniad ar sail gwybodaeth cyn dechrau'r broses o benderfynu a yw'n gymwys i gael GIP. Bydd angen i'r cydsyniad hwn gwmpasu caniatâd i gynnal y broses asesu ar gyfer GIP a hefyd 'rhannu a phrosesu data' (h.y. rhannu gwybodaeth bersonol berthnasol rhwng gweithwyr proffesiynol er mwyn cynnal yr asesiad o gymhwysedd i gael GIP, a, lle y bo'n briodol, er mwyn archwilio a monitro penderfyniadau). Er mwyn i gydsyniad fod yn ddilys at y dibenion hyn rhaid iddo fodloni'r meini prawf canlynol:

- **Dylai fod yn glir.** Rhaid i gydsyniad gael ei gadarnhau'n benodol a'i gofnodi'n ysgrifenedig, mewn datganiad clir a phenodol iawn o gydsyniad, sydd mewn man amlwg ac sy'n cael ei gadw ar wahân i wybodaeth arall.
- **Dylai fod yn benodol.** Dylid egluro i'r unigolyn yr hyn y gofynnir iddo gydsynio iddo (e.e. i gwblhau Rhestr Wirio yn unig neu i'r broses asesu cymhwysedd lawn hefyd, os yw ei Restr Wirio wedi rhoi canlyniad cadarnhaol) a ph'un a gaiff ei wybodaeth ei chasglu a'i rhannu ar gyfer agwedd benodol ar y broses o ystyried cymhwysedd neu ar gyfer y broses lawn. Mae angen esbonio hefyd, yn amodol ar ei gydsyniad, y caiff ei wybodaeth bersonol ei rhannu rhwng sefydliadau gwahanol sy'n ymwneud â'i ofal er mwyn cwblhau'r asesiad o gymhwysedd i gael GIP.
- **Dylai fod yn seiliedig ar wybodaeth.** Dylid hysbysu'r unigolyn am yr hyn y mae'r broses asesu cymhwysedd i gael GIP yn ei olygu, pa wybodaeth a gaiff ei chasglu, a gyda phwy y caiff ei rhannu cyn dechrau'r broses o benderfynu ar gymhwysedd i gael GIP.
- **Dylai gael ei rhoi yn wirfoddol.** Golyga hyn bod yn rhaid i gydsyniad gael ei roi'n wirfoddol gan unigolyn sydd wedi cael gwybodaeth briodol ac sydd â'r galluedd a'r awdurdod i gydsynio i'r ymyriad dan sylw. Mae hefyd yn golygu rhoi dewis a rheolaeth barhaus wirioneddol i bobl o ran y ffordd y caiff eu gwybodaeth bersonol ei defnyddio a'i rhannu. Yng nghyd-destun GIP golyga hyn y dylai fod gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio'n wirfoddol i'r broses asesu cymhwysedd i gael GIP fel y'i nodir yn y Fframwaith hwn. Dylai'r unigolyn allu dewis p'un a yw am gydsynio ai peidio, ac ni ddylai cydsyniad fod yn amodol ar yr unigolyn yn cytuno i rywbeth nad yw'n gysylltiedig â'r broses asesu cymhwysedd i gael GIP.

- **Dylai fod yn bosibl ei dynnu'n ôl** Rhaid hysbysu'r unigolyn y gall dynnu ei gydsyniad yn ôl unrhyw bryd, a'i hysbysu am y broses ar gyfer gwneud hynny, a bod hyn yn cynnwys tynnu cydsyniad i rannu gwybodaeth yn ôl.

3.2 Dylid esbonio, yn dibynnu ar y wybodaeth dan sylw, y gallai'r penderfyniad i dynnu cydsyniad i rannu gwybodaeth yn ôl neu wrthod ei roi effeithio ar b'un a fydd yn bosibl cwblhau'r asesiad o gymhwysedd i gael GIP.


Gwrthod Cydsynio i Asesiad GIP (gweler Ffigur 2)

- 3.3 Mae hawl gan oedolyn â galluedd i wrthod asesiad. Os bydd claf yn gwrthod asesiad ar ôl cael gwybodaeth berthnasol a thrafod yr holl opsiynau a goblygiadau, dylid nodi hynny ar y ffurflen gydsynio ac ar nodiadau'r claf. Dylai'r cofnod gynnwys y rhesymau dros wrthod yr asesiad os yw'r unigolyn wedi'u rhoi. Er eu bod yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag archwiliadau a thriniaeth, dylai BILlau ystyried egwyddorion y canllawiau [Cydsyniad Claf i Gynnal Archwiliad neu Ddarparu Triniaeth](#) wrth gydsynio i asesiad.
- 3.4 Os yw'r unigolyn eisoes wedi llofnodi ffurflen gydsynio, ond yn newid ei feddwl ar ôl hynny, dylai hyn gael ei nodi ar y ffurflen a dylid cael ei lofnod os yn bosibl. Dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau bod yr unigolyn yn deall bod hawl ganddo i newid ei feddwl yn nes ymlaen a derbyn yr asesiad.
- 3.5 Os na fydd unigolyn yn cydsynio i gael asesiad o'i gymhwysedd i gael GIP, neu os bydd yn newid ei feddwl ar ôl cael asesiad, rhaid hysbysu'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd o'r effaith y gallai hyn ei chael ar allu'r BILl neu'r ALI i ddarparu gwasanaethau priodol.
- 3.6 Prif ganlyniad gwrthod cael asesiad GIP y GIG yw na all y GIG fod yn gyfrifol am drefnu nac ariannu'r pecyn gofal cyflawn nac, felly, ddarparu gwasanaethau gofal sydd ar gael am ddim i'r unigolyn. Gall gofynion gofal hirdymor yr unigolyn gael eu bodloni drwy drefniant lle bo'r GIG a'r ALI yn rhannu cyfrifoldeb ac, o ganlyniad, efallai y codir tâl ar yr unigolyn fel cyfraniad tuag at y gwasanaethau a drefnwyd gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r unigolyn gael cynllun gofal manwl sy'n nodi pwy fydd yn darparu pa wasanaethau a pha daliadau y gallai fod angen iddo eu gwneud.
- 3.7 Nid yw cydsynio i broses asesu'r GIP yn ymrwymiad ymlaen llaw i dderbyn unrhyw gynnig dilynol o arian GIP. Caiff y cynnig hwn ei wneud gan y BILl i'r unigolyn ar ôl iddo gael asesiad ac os canfyddir ei fod yn gymwys. Gall yr unigolyn wrthod y cynnig ar y pwynt hwn. O dan yr amgylchiadau hyn ni all y BILl ddod yn llwyr gyfrifol am drefnu nac ariannu gofal yr unigolyn yn y dyfodol am nad yw wedi cytuno i hynny.
- 3.8 Pan fo gan unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad gofal iechyd a'i fod wedi gwrthod asesiad neu becyn gofal, dylid trefnu cyfarfod dilynol â'r Cydgysylltydd Gofal, fel ei fod yn cael cyfle i newid ei feddwl. Dylid dweud wrth y clinigydd (clinigwyr) cyfrifol bod asesiad neu becyn gofal wedi cael ei gynnig a'i wrthod.

- 3.9 Pan nad oes gan unigolion alluedd, mae'n bwysig cofnodi a allent adfer eu galluedd i wneud y penderfyniad a phryd y dylid adolygu'r sefyllfa.
- 3.10 Os oes pryderon y gall fod gan unigolyn anghenion parhaus sylweddol, ac y gallai ei benderfyniad i beidio â rhoi cydsyniad effeithio ar y lefel o gymorth priodol, rhaid i'r BILL a'r ALI bwysu a mesur y camau nesaf priodol gyda'i gilydd gan ystyried dyletswyddau a phwerau cyfreithiol statudol pob sefydliad. Dylai pob sefydliad geisio cyngor cyfreithiol lle bo angen.
- 3.11 Er mai dim ond mewn lleiafrif o achosion y bydd claf yn gwrthod rhoi cydsyniad, dylai'r BILLau ac ALLau ystyried protocolau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar y prosesau i'w dilyn. Dylai'r rhain roi cadarnhad ynghylch agweddau fel defnyddio asesiadau a gynhaliwyd eisoes a gwybodaeth arall i benderfynu ar gyfrifoldebau pob sefydliad a'r camau nesaf priodol.

Ffigur 2

Gwrthod Cydsynio i Asesiad GIP*



*Gellir dilyn y broses hon hefyd os oes asesiad wedi cael ei gynnal a bod yr unigolyn yn newid ei feddwl neu'n gwrthod Pecyn Gofal GIP

GALLUEDD

- 3.12 Os oes pryder efallai nad oes gan yr unigolyn y galluedd i roi ei gydsyniad neu gyfrannu'n effeithiol yn y broses benderfynu, dylid gwneud penderfyniad ynghylch hyn ar sail Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig. Pum prif egwyddor Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (adran 1) i'w hystyried yw.
- **Rhagdybiaeth o alluedd:** mae hawl gan bob oedolyn i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid rhagdybio fod ganddo'r galluedd i wneud hynny, oni phofir fel arall.
 - **Cefnogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain:** rhaid i berson gael pob help ymarferol cyn i unrhyw ei drin fel pe na bai'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.
 - **Penderfyniadau annoeth:** ni ddylid trin unigolyn fel rhywun na all wneud penderfyniad, a hynny'n syml am fod y penderfyniad a wneir gan yr unigolyn hwnnw yn cael ei ystyried yn un annoeth.
 - **Budd pennaf:** rhaid i bob cam a gymerir neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf neu ar ran unigolyn nad oes ganddo alluedd fod er budd pennaf yr unigolyn hwnnw (**gweler paragraffau 3.24 i 3.31**).
 - **Yr opsiwn lleiaf cyfyngol:** dylai unrhyw beth a wneir dros neu ar ran unigolyn nad oes ganddo alluedd gyfateb i'r hyn sy'n cyfyngu lleiaf ar ei hawlau a'i ryddid sylfaenol.
- 3.13 Mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw'r ffaith bod unigolyn, o bosibl, yn ei chael hi'n anodd mynegi ei farn neu ddeall rhywfaint o wybodaeth ynddi'i hun yn golygu nad oes ganddo alluedd i wneud y penderfyniad dan sylw. Dylid sicrhau bod cymorth ac addasiadau priodol, er enghraifft, sy'n defnyddio dulliau amgen o gyfathrebu, ar gael i'r unigolyn yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd.
- 3.14 Dylai BILlau ac ALLau sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cymryd rhan mewn asesiadau GIP wedi cael hyfforddiant priodol ar egwyddorion a chyfrifoldebau Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Os nad yw'r asesydd yn gyfarwydd ag egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac yr ymddengys nad oes gan yr unigolyn alluedd dylai'r asesydd ymgynghori â'r sefydliad sy'n ei gyflogi a sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu nodi. Mewn achosion lle mae'r broses o gymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gymhleth neu os oes ansicrwydd yn ei chylch, dylai pob asesydd geisio cyngor priodol o fewn ei sefydliad.

- 3.15 Ni ddylid ystyried bod rhwystrau iaith yn ffactor sy'n penderfynu galluedd meddyliol. Felly, rhaid ystyried i sgiliau iaith neu ddewis iaith fel y cyfrwng ar gyfer cynnal yr asesiad a gwneud darpariaethau priodol.

Rhannu gwybodaeth

Unigolion nad oes ganddynt alluedd

- 3.16 O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 a Deddf Galluedd Meddyliol 2018, caiff ymgeisydd ag Atwrneiaeth Barhaus neu Arhosol a gofrestrwyd â'r Llys Gwarchod, yn gyffredinol, arfer hawliau'r claf i weld cofnodion ar ran y claf hwnnw. Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas â gwybodaeth sydd ei hangen er mwyn iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau fel atwrnai neu ddirprwy y mae hyn yn berthnasol. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng:

- a) Rhywun sy'n gweithredu fel Atwrnai Arhosol (iechyd a lles) a fydd, yn gyffredinol, yn gallu arfer hawliau'r unigolyn i weld cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch ei iechyd a'i les Mae hyn yn cynnwys y gallu i gydsynio (neu wrthod cydsynio) i'r broses GIP ac i wybodaeth gael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n cymryd rhan yn y broses. Rhaid cofrestru Atwrneiaeth a dim ond os bydd yr unigolyn wedi colli'r galluedd i wneud y penderfyniad perthnasol ynghylch ei iechyd a'i les y gellir defnyddio'r math hwn o Atwrneiaeth.
- b) Rhywun ag Atwrneiaeth Barhaus neu rywun ag Atwrneiaeth Arhosol (eiddo a chyllid). Rhaid i'r Atwrneiaeth Barhaus neu Arhosol gael ei gofrestru ond gellir ei defnyddio gyda chaniatâd y rhoddwr er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau ynghylch eiddo a chyllid hyd yn oed os bydd ganddo'r galluedd i wneud penderfyniadau o'r fath ei hun o hyd. Fel arfer, defnyddir Atwrneiaeth (eiddo a chyllid) neu Atwrneiaeth Arhosol ar ôl i'r unigolyn colli galluedd. Am fod GIP yn gallu cael effaith sylweddol ar gyllid unigolyn mae'n ddigon posibl y bydd gan rywun â'r math hwn o Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus reswm dilys dros allu gweld cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol ond **dim ond** i'r graddau bod angen iddo eu gweld er mwyn gwneud penderfyniad penodol ar adeg benodol ynghylch eiddo a chyllid. Er enghraifft, byddai'n briodol iddo gael digon o wybodaeth er mwyn penderfynu p'un a yw'n cytuno â'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd a wnaed ai peidio a ph'un a ddylai geisio adolygiad o'r penderfyniad hwnnw ai peidio. Ni ddylid rhannu unrhyw gofnodion iechyd neu les nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol am ei bod yn bosibl eu bod cynnwys gwybodaeth sensitif na fyddai'r unigolion wedi dymuno iddi gael ei rhannu â'r sawl y mae wedi rhoi'r hawl i reoli ei faterion ariannol iddo. Yn gyffredinol, dylai'r wybodaeth y mae'n debygol y bydd ei hangen arnynt fod wedi'i chynnwys yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu a'r asesiadau sy'n sail iddo.

- 3.17 Os bydd rhywun yn nodi bod ganddo awdurdod o'r fath dylai'r asesydd ofyn am gael gweld copi ardystiedig o'r Gorchymyn Dirprwyeiaeth neu Atwrneiaeth Arhosol gofrestredig ac edrych ar eiriad y gorchymyn er mwyn cadarnhau bod gan yr unigolyn yr awdurdod perthnasol a nodwyd.
- 3.18 Rhaid i atwrneiod a dirprwyon hefyd weithredu er budd pennaf yr unigolyn yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Unigolion â galluedd

- 3.19 Os oes gan unigolyn y galluedd i wneud ei benderfyniadau ei hun, mae ganddo'r hawl i roi ei farn ynglŷn â pha wybodaeth y mae am iddi gael ei rhannu â pherthnasau/eiriolwyr a all fod yn ei gefnogi. Gall yr unigolyn nodi nad yw am i'r holl wybodaeth gal ei rhannu.

Gwybodaeth gan Drydydd Partion

- 3.20 Yn aml mae BILlau yn cadw gwybodaeth gan drydydd partion er mwyn llywio adolygiad cynhwysfawr (cyfredol neu ôl-weithredol) o gymhwysedd unigolion i gael GIP. Fel arfer mae'r cofnodion hyn yn cynnwys cofnodion cartrefi gofal, nodiadau meddygon teulu a chofnodion o'r awdurdod lleol (gwasanaethau cymdeithasol).
- 3.21 Mae gan y GIG ddyletswydd i ddiogelu preifatrwydd yr unigolion a enwir yn y cofnodion hynny ond hefyd mae ganddo ddyletswydd fel rheolydd data i ystyried a yw'n rhesymol datgelu'r cofnodion hynny. Bydd unrhyw ddatgeliad o'r fath ond yn cynnwys y wybodaeth honno sydd ei hangen i ateb dibenion y datgeliad, er enghraifft er mwyn galluogi ymgeisydd i gyfrannu'n ddefnyddiol ar y broses adolygu ar gyfer GIP. Dylid atgoffa'r rhai sy'n darparu gwybodaeth fel rhan o'r broses GIP o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 a'r Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 a dylid rhoi gwybod iddynt sut y caiff y wybodaeth a ddarperir ganddynt ei defnyddio a'i rhannu. Yn benodol, dylai'r BILl sicrhau y gofynnir i'r rhai sy'n darparu gwybodaeth gadarnhau'r cadarnhaol:
- Mae'r wybodaeth a ddarperir ond yn ymwneud â'r unigolyn dan sylw (h.y. nad yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol/gwybodaeth am iechyd am unrhyw un nad yw'n destun yr asesiad a/neu'r adolygiad GIP)
 - Nid yw'r wybodaeth a ddarperir yn cynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n debygol o achosi niwed difrifol i'r unigol (boed yn niwed corfforol neu feddyliol) pe câi ei datgelu. Mae'r prawf ar gyfer niwed difrifol yn eithaf llym ac mae'n mynd y tu hwnt i fod yn anghyfforddus neu'n annymunol.

- 3.22 Os oes unrhyw wybodaeth mewn cofnodion meddygol y mae unigolyn wedi'i darparu ar y sail na chât ei rhannu ag unrhyw un o dan unrhyw amgylchiadau, dylai aros yn gyfrinachol oni fydd Gorchymyn Llys yn rhoi caniatâd i'w datgelu.
- 3.23 Dylid golygu unrhyw wybodaeth am drydydd partion (h.y. gwybodaeth sy'n enwi unigolyn arall heblaw'r claf) oni fydd yr unigolyn arall hwnnw yn weithiwr proffesiynol neu wedi cydsynio i'r datgeliad neu, *o dan yr holl amgylchiadau*, oni fydd yn rhesymol datgelu gwybodaeth y trydydd parti hwnnw heb gydsyniad.

PENDERFYNIADAU ER BUDD PENNAF YR UNIGOLYN

- 3.24 Gall galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau amrywio ac, felly, efallai y bydd amgylchiadau lle y bydd unigolyn yn colli'r galluedd i wneud penderfyniadau dros dro. O dan yr amgylchiadau hyn mae angen penderfynu a fyddai mynd ati i gynnal yr asesiad a rhannu gwybodaeth, neu ohirio ceisio cydsyniad nes i alluedd yr unigolyn ddychwelyd, er budd yr unigolyn. Os felly, gall y penderfyniad er budd pennaf yr unigolyn sydd i'w wneud hefyd gynnwys p'un a ddylid darparu pecyn gofal neu gymorth interim.

Gwneud y penderfyniad 'budd pennaf'

- 3.25 Pan fo angen gwneud penderfyniad 'budd pennaf', rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn unrhyw drydydd parti perthnasol sydd â buddiant gwirioneddol yn lles yr unigolyn hwnnw (os yw'n rhesymol ac yn ymarferol ymgynghori ag ef). Bydd hyn yn cynnwys y teulu, ffrindiau ac eiriolwyr fel arfer. Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad gofio bod angen parchu cyfrinachedd ac ni ddylai rannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partion onid ystyrir bod gwneud hynny er budd pennaf yr unigolyn at ddibenion yr asesiad o gymhwysedd i gael GIP. Os bydd yr unigolyn wedi gwneud 'datganiad ymlaen llaw' sy'n nodi nad yw am i wybodaeth bersonol gael ei rhannu ag unigolion penodol, dylid ystyried hyn wrth asesu beth i'w wneud er budd pennaf yr unigolyn.
- 3.26 Er bod yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn trydydd partion perthnasol, nid oes gan y rhai yr ymgynghorir â nhw (gan gynnwys aelodau o'r teulu) yr awdurdod i gydsynio, neu wrthod cydsynio, i'r camau gweithredu a gynigir o ganlyniad i'r broses 'budd pennaf'. Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad sy'n gyfrifol am y penderfyniad, nid y rhai yr ymgynghorir â nhw. Pan fo gwahaniaeth barn rhwng y sawl sy'n gwneud y penderfyniad a'r rhai yr ymgynghorir â nhw, dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys hyn yn anffurfiol. Fodd bynnag, ni ddylai'r broses hon beri gormod o oedi cyn gwneud penderfyniadau amserol er budd pennaf yr unigolyn.
- 3.27 Wrth wneud y penderfyniad er budd pennaf yr unigolyn o dan amgylchiadau o'r fath dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn ymwybodol o'r ffactorau canlynol:

- A fydd galluedd yr unigolyn yn dychwelyd yn y dyfodol agos? Os felly, a yw'n bosibl gohirio'r broses GIP nes i'r claf allu ymdrin â'r broses ei hun, neu roi cydsyniad i eraill ymdrin â hi.
- Beth yw'r amgylchiadau perthnasol – h.y. a fyddai'n ymddangos yn rhesymol, er enghraifft, fod yr ymgeisydd penodol yn gweithredu ar ran yr unigolyn?
- Pa dystiolaeth sydd o ddymuniadau a theimladau'r unigolyn? Er enghraifft, a oes unrhyw dystiolaeth a fyddai'n awgrymu nad oedd yn dymuno i wybodaeth gael ei rhannu â'r ymgeisydd penodol?
- A oes unrhyw gan unrhyw bobl eraill wrthwynebiadau neu farn a ddylai gael eu/ei hystyried?

Cofnodi'r penderfyniad budd pennaf

- 3.28 Dylid cofnodi'r penderfyniad budd pennaf. Yr unigolyn sy'n arwain yr asesiad sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad a dylai gofio bod disgwyl i bawb a all fod yn gymwys i gael GIP gael y cyfle i gael asesiad o gymhwysedd. Ni all trydydd parti roi neu wrthod rhoi cydsyniad i asesu cymhwysedd i gael GIP, nac i rannu gwybodaeth, ar ran unigolyn nad oes ganddo alluedd, oni bai bod ganddo Atwrneiaeth Arhosol - Iechyd a Lles dilys a chymwys neu ei fod wedi cael ei benodi'n Ddirprwy Atwrneiaeth Arhosol - Iechyd a Lles gan y Llys Gwarchod.
- 3.29 Os bydd ALI yn ymwneud ag unigolyn nad oes ganddo alluedd meddyliol a bod eiriolwr wedi'i benodi, mae gan yr eiriolwr hwnnw hawl statudol i weld gwybodaeth gyfrinachol am iechyd a gofal cymdeithasol sy'n berthnasol i'w rôl a'i swyddogaeth eirioli. Ni châi eiriolwr ei benodi at ddiben asesiad GIP yn unig. Fodd bynnag, os bydd eiriolwr eisoes wedi'i benodi bydd ei rôl a'i swyddogaeth yn ymestyn yn ddilys, gyda chydysyniad yr unigolyn, i gefnogi'r unigolyn hwnnw drwy'r brosesu asesu ar gyfer GIP nes i benderfyniad gael ei wneud ei fod yn gymwys i gael GIP. Os aseswyd bod unigolyn yn gymwys i gael GIP ac nad oes yr un ddarpariaeth arall (e.e. diogelu) yn gymwys, bydd rôl yr eiriolwr yn dod i ben a bydd angen i'r BILL ystyried a oes angen unrhyw gymorth eirioli arall ar yr unigolyn.
- 3.30 Os bydd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) wedi'i benodi gan ALI ar gyfer unigolyn sydd wrthi'n cael ei asesu ar gyfer GIP neu a asesir ar ei gyfer yn ddiweddarach, bydd rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn dal i fod yn gyfyngedig i'r diben y'i penodir ar ei gyfer o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (e.e. mewn perthynas â'r posibilrwydd y bydd yr unigolyn yn newid llety neu driniaeth feddygol ddifrifol). Mae gan yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol hawl statudol i weld gwybodaeth gyfrinachol am iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â'r diben y'i penodwyd ar ei gyfer. Ni châi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ei benodi at ddiben asesiad GIP yn unig.

- 3.31 Pan fo unigolyn, megis cyfreithiwr neu eiriolwr, yn gweithredu ar ran unigolyn â galluedd meddyliol neu ar ran atwrnai cofrestredig (Atwrneiaeth Barhaus neu Arhosol) neu ddirprwy a benodwyd gan y llys i rywun nad oes ganddo alluedd meddyliol, gall yr unigolyn hefyd arfer yr hawliau i weld gwybodaeth ar yr amod bod cydsyniad priodol wedi'r roi i'r unigolyn hwnnw

PROSES LLWYBR CARLAM

- 3.32 Ar brydiau, bydd angen diogelu llesiant unigolyn drwy ei roi ar 'lwybr carlam' ar gyfer cael darpariaeth GIP ar unwaith. Gall unigolion sy'n dirywio'n gyflym fod yn enghraifft o hyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir rhoi cymorth i'r unigolyn yn ei leoliad gofal dewisol heb orfod aros i'r broses lawn o ran cymhwysedd GIP gael ei chwblhau. Rhaid i BILlau roi proses llwybr carlam ar waith er mwyn cwblhau'r asesiad o fewn deuddydd. Fodd bynnag, dylai'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd gael ei gynnwys yn llawn mewn proses symlach o hyd.
- 3.33 Dylai BILlau hefyd ystyried defnyddio asesiadau cyflym mewn achosion eraill, ar wahân i ofal diwedd oes e.e. digwyddiad trychinebus lle mae barn broffesiynol yn dangos bod yr unigolyn yn amlwg wedi datblygu angen iechyd sylfaenol.
- 3.34 Dylai asesiadau cyflym gael eu cwblhau gan glinigydd priodol a ddylai roi'r rhesymau pam bod yr unigolyn yn bodloni'r amodau ar gyfer gwneud penderfyniad cyflym. 'Clinigwyr priodol' yw nyrsys cofrestredig neu ymarferwyr meddygol sydd, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, yn gyfrifol am ddiagnosis, triniaeth neu ofal claf. Dylai fod gan y clinigydd lefel briodol o wybodaeth a phrofiad o'r math o anghenion iechyd dan sylw er mwyn penderfynu a oes gan yr unigolyn gyflwr sy'n dirywio'n gyflym nes y gall fod yn derfynol.
- 3.35 Er bod yn rhaid i un o weithwyr proffesiynol y GIG gydgysylltu'r asesiad cyflym, gall clinigwyr priodol sy'n cyfrannu at yr asesiad hwnnw gynnwys gweithwyr proffesiynol a gyflogir gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol ac annibynnol sy'n chwarae rôl arbenigol mewn gofal diwedd oes e.e. nyrsys mewn hosbisau, ar yr amod eu bod yn cynnig gwasanaethau yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Gall pobl eraill sy'n helpu'r rhai ag anghenion diwedd oes, gan gynnwys sefydliadau sector gwirfoddol ac annibynnol ehangach, weld bod gan yr unigolyn anghenion y dylid eu hystyried o dan broses gyflym. Yn yr achosion hyn, dylent gysylltu â Chydgysylltydd Gofal y GIG.
- 3.36 Dylai'r asesiad cyflym gorffenedig gael ei gefnogi gan brognosis. **Fodd bynnag, ni ddylid gorfodi cyfyngiadau amser caeth sy'n seilio cymhwysedd ar hyd oes ddisgwyliedig yr unigolyn.** Yr asesydd sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad yn seiliedig ar ffeithiau perthnasol yr achos.

- 3.37 Os caiff pecyn gofal brys ei argymhell gan glinigydd priodol drwy'r broses gyflym, **dylai'r BIL dderbyn yr argymhelliad hwnnw a'i roi ar waith ar unwaith.**
- 3.38 Ni ddylid diddymu pecyn gofal unrhyw unigolyn a gafodd ei nodi drwy'r broses gyflym heb adolygu ei gymhwysedd gan ddilyn y broses adolygu a amlinellir yn **Adran 4**. Fel rhan o'r adolygiad, dylai'r TA gwblhau'r ACP, gan gynnwys argymhelliad ar gymhwysedd yr unigolyn yn y dyfodol.
- 3.39 Dylid egluro'r broses gyfan hon yn ofalus ac yn sensitif i'r unigolyn a, lle y bo'n briodol, ei gynrychiolwyr. Mae'n hanfodol gwneud penderfyniadau sensitif er mwyn osgoi'r straen diangen a all gael ei achosi os bydd cymhwysedd unigolyn i gael GIP yn newid o fewn cyfnod byr iawn.
- 3.40 Dylai asesiadau cyflym o ran GIP a phrosesau cynllunio a chomisiynu gofal ar gyfer y rhai ag anghenion diwedd oes gael eu rhoi ar waith mewn ffordd integredig yn unol â llwybr gofal diwedd oes cyffredinol yr unigolyn, gan ystyried dewisiadau'r unigolyn yn llawn. Dylai [Cynllun Gofal Uwch](#) gael ei ddatblygu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

DEFNYDDIO'R RHESTR WIRIO

- 3.41 Rhaid i BILlau gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau y caiff unigolion eu hasesu ar gyfer GIP ym mhob achos lle yr ymddengys y gall fod angen gofal o'r fath. Er nad yw'n orfodol, os defnyddir proses sgrinio gychwynnol i nodi lle y gall fod angen gofal o'r fath, yna Rhestr Wirio yw'r *unig* adnodd sgrinio y gellir ei ddefnyddio at y diben hwn. Mae'r Rhestr Wirio yn annog asesiadau cymesur o gymhwysedd a rhoddir rhesymeg dros benderfyniad ar gyfer pob penderfyniad ynghylch cymhwysedd.
- 3.42 Cyn cwblhau'r Rhestr Wirio, rhaid i'r ymarferwr:
- roi copi o'r *Llyfryn Gwybodaeth Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr* i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd
 - sicrhau y rhoddir cydsyniad priodol
 - sefydlu dewis iaith yr unigolyn neu ei gynrychiolydd
- 3.43 Bwriedir i'r broses o gwblhau'r Rhestr Wirio fod yn gymharol gyflym a syml. Nid oes angen darparu tystiolaeth fanwl ynghyd â'r Rhestr Wirio a gwblhawyd. Mae dau ganlyniad posibl ar ôl cwblhau'r Rhestr Wirio, sef:
- **Rhestr Wirio negyddol**, sy'n golygu nad oes angen i'r unigolyn gael asesiad llawn o gymhwysedd, ac nad ydynt yn gymwys i gael GIP; neu
 - **Rhestr Wirio gadarnhaol** sy'n golygu bod angen i unigolyn gael asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP. Nid yw o reidrwydd yn golygu bod yr unigolyn yn gymwys i gael GIP.

- 3.44 Er mwyn cydymffurfio ag ethos y Fframwaith hwn, ni ddylai'r defnydd o'r Rhestr Wirio ddisodli barn broffesiynol na deialog â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd.

Pryd y dylid ddefnyddio Rhestr Wirio?

- 3.45 Dylai'r broses sgrinio ar gyfer GIP gael ei chynnal ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad cywir ar gyfer yr unigolyn a phan fydd anghenion yr unigolyn yn hysbys. Bydd hyn yn helpu ymarferwyr i nodi unigolion y mae angen iddynt gael asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP yn gywir.

Pwy all gwblhau Rhestr Wirio?

- 3.46 Rhaid i'r Rhestr Wirio gael ei chwblhau gan o leiaf 2 ymarferwr, gan gynnwys cynrychiolydd o'r ALI. Gall gael ei chwblhau gan amrywiaeth o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft: nyrsys cofrestredig a gyflogir gan y GIG, meddygon teulu, clinigwyr eraill neu staff ALI megis gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal neu gynorthwyywyr gofal cymdeithasol.
- 3.47 Dylai cartrefi gofal gysylltu â'r tîm GIP perthnasol er mwyn trefnu i Restr Wirio gael ei chwblhau i'w preswylwyr.

Rôl yr unigolyn yn y broses sgrinio

- 3.48 Dylai'r unigolyn neu ei gynrychiolydd gael rhybudd rhesymol o'r bwriad i ddefnyddio'r Rhestr Wirio a rhaid iddo gael cyfle i fod yn bresennol pan gaiff ei chwblhau, ynghyd ag unrhyw gynrychiolydd a all fod ganddo, fel y nodir yn **Egwyddor 3: Dim penderfyniadau amdanaf heb yn wybod i mi**
- 3.49 Mae tudalen gyntaf y Rhestr Wirio yn gofyn i'r ymarferwr gadarnhau a gafodd yr unigolyn ei gynnwys yn y broses o gwblhau'r Rhestr Wirio ac a gynigiwyd y cyfle iddo gael cynrychiolydd fel aelod o'r teulu neu eiriolwr arall yn bresennol pan gafodd y Rhestr Wirio ei chwblhau.
- 3.50 Cyn i'r Rhestr Wirio gael ei chwblhau, bydd angen sicrhau bod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn deall nad yw'r Rhestr Wirio yn nodi y bydd yr unigolyn yn gymwys i gael GIP – dim ond bod ganddo'r hawl i gael ei asesu i weld a yw'n gymwys.

Sut y dylid cwblhau'r Rhestr Wirio

- 3.51 Mae'r Rhestr Wirio yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gofnodi disgrifiad byr o'r angen a'r ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r datganiadau a ddewiswyd ym mhob maes. Gellid gwneud hyn, er enghraifft, drwy nodi bod dystiolaeth benodol ar gyfer maes penodol i'w chael yn y nodiadau nyrsio cleifion mewnol ar ddyddiad a nodwyd. Bydd hyn yn golygu bod dystiolaeth ar gael yn rhwydd at ddibenion y TA os bydd angen i'r unigolyn gael asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP.
- 3.52 Mae egwyddorion 'angen a reolir yn dda' (**gweler paragraffau 4.13 i 4.16**) yn gymwys i'r gwaith o gwblhau'r Rhestr Wirio ac i'r Adnodd Cymorth Penderfynu fel ei gilydd.

Beth sy'n digwydd ar ôl y Rhestr Wirio?

- 3.53 Rhaid i'r canlyniad gael ei gyfleu'n glir ac yn ysgrifenedig i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd, yn ei ddewis iaith/fformat, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a dylid nodi'r rhesymeg dros y penderfyniad a chopi o'r Rhestr Wirio wedi'i chwblhau.

Beth sy'n digwydd yn dilyn Rhestr Wirio negyddol?

- 3.54 Mae Rhestr Wirio negyddol yn nad oes angen i'r unigolyn gael asesiad llawn o gymhwysedd ac nad yw'n gymwys i gael GIP.
- 3.55 Os bydd unigolyn wedi'i sgrinio allan ar ôl i'r Rhestr Wirio gael ei chwblhau, efallai y bydd yn gofyn i'r BILI ailystyried canlyniad y Rhestr Wirio. Dylai'r BILI roi sylw dyledus i'r cais hwn, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, a/neu wybodaeth ychwanegol gan yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, er nad oes unrhyw rwymedigaeth ar y BILI i gwblhau Rhestr Wirio arall.
- 3.56 Rhaid i'r BILI ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd, mewn ymateb i'w gais i ailystyried canlyniad y Rhestr Wirio. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ei hawliau o dan Weithdrefn Cwynion y GIG os bydd yn anfodlon ar y sefyllfa o hyd.

Beth sy'n digwydd yn dilyn Rhestr Wirio gadarnhaol?

- 3.57 Mae Rhestr Wirio gadarnhaol yn golygu bod angen i'r unigolyn gael asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP. Nid yw o reidrwydd yn golygu bod yr unigolyn yn gymwys i gael GIP.
- 3.58 Ni ddylid gadael unigolyn heb gymorth priodol tra ei fod yn aros am ganlyniad yr asesiad a'r broses benderfynu. Dim ond pan fydd penderfyniad ynghylch cymhwysedd wedi'i wneud gan y BILI y bydd unigolyn yn gymwys i GIP. Os bydd yr unigolyn eisoes yn cael pecyn gofal parhaus (sut bynnag y'i hariennir), pan gaiff ei atgyfeirio i gael asesiad GIP, dylai'r trefniadau hynny barhau nes i'r BILI wneud ei benderfyniad ynghylch cymhwysedd yr unigolyn i gael GIP, yn amodol ar unrhyw addasiadau brys sydd angen eu gwneud er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn sydd wedi newid. Wrth ystyried addasiadau o'r fath, dylai ALLau a BILlau ystyried y cyfyngiadau ar eu pwerau statudol.
- 3.59 Os bydd y Rhestr Wirio wedi'i defnyddio fel rhan o'r broses o ryddhau claf o ysbyty aciwt a'i bod wedi nodi bod angen cynnal asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP, gellir gwneud penderfyniad ar yr adeg hon i ddarparu gwasanaethau eraill yn gyntaf ac wedyn cynnal asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP yn ddiweddarach. Dylid cofnodi hyn. Dylai'r BILI perthnasol sicrhau y cynhelir asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP pan fydd yn bosibl llunio barn resymol ynglŷn ag anghenion parhaus yr unigolyn. Dylid cwblhau'r asesiad hwn yn y lleoliad mwyaf priodol – a allai fod ar un o safleoedd eraill y GIG, yng nghartref yr unigolyn neu mewn rhyw leoliad gofal arall. Yn y cyfamser, mae'r BILI perthnasol yn dal i fod yn gyfrifol am ariannu gofal priodol.
- 3.60 Ar ôl i unigolyn gael ei atgyfeirio i gael asesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP wedyn, waeth beth fo lleoliad yr unigolyn, y BILI sy'n gyfrifol am bennu Cydgysylltydd Gofal. Gweler **Adran 2** i gael rhagor o wybodaeth am rôl y Cydgysylltydd Gofal.

ADRAN 4

YR ASESIAD O GYMHWYSEDD I GAEL GIP

NODI ANGHENION UNIGOLYN

- 4.1 Mae cadarnhau a oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol yn gofyn am benderfyniad clir a rhesymol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghenion o ystod gynhwysfawr o asesiadau sy'n ymwneud â'r unigolyn. Mae asesiad amlddisgyblaethol o ansawdd da sy'n ystyried holl anghenion yr unigolyn – gan gynnwys y ffyrdd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd – yn hanfodol i ddiwallu'r anghenion hynny a phenderfynu ar gymhwysedd yn unigolyn i gael GIP. Dylid galluogi'r unigolyn ac unrhyw gynrychiolydd i chwarae rhan ganolog yn y broses asesu.
- 4.2 Mae'n bwysig y rhoddir pwys priodol ar farn yr unigolyn ei hun am ei anghenion, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol, ochr yn ochr â barn broffesiynol. Bydd yn haws i lawer o bobl esbonio eu barn am eu hanghenion a'r canlyniadau yr hoffent eu gweld os caiff yr asesiad ei gynnal fel sgwrs, sy'n ymdrin â materion allweddol wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen yn naturiol, yn hytrach na gweithio drwy ddogfen asesu yn llinellol.
- 4.3 Mae'r asesiad amlddisgyblaethol o anghenion unigolyn yn llywio'r broses o benderfynu p'un a yw'n gymwys i gael GIP ai peidio. Fodd bynnag, p'un a benderfynir bod yr unigolyn yn gymwys i gael GIP ai peidio, rhaid i BILlau ac ALLau bob amser ystyried a yw'r asesiad amlddisgyblaethol wedi nodi materion gofal y mae angen gweithredu arnynt. Er enghraifft, os bydd asesiad amlddisgyblaethol o anghenion yn nodi bod gan yr unigolyn anawsterau cyfathrebu sylweddol, dylid ystyried ei atgyfeirio at wasanaeth lleferydd ac iaith.
- 4.4 Os bydd asesiad o anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant eisoes wedi'i gynnal gan yr ALI a'i fod yn dal i fod yn berthnasol i anghenion gofal a chymorth presennol unigolyn a'r canlyniadau y mae'n dymuno eu cael, gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r asesiad hwn fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer y BILI. Dylai'r ALI ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol arall am anghenion presennol yr unigolyn, lle y bo'n briodol.
- 4.5 Pan fydd unigolyn wedi cael ei ddwyn i sylw'r ALI, naill ai drwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorth neu atgyfeiriad, rhaid ystyried p'un a oes angen asesiad ar gyfer gofal a chymorth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ni ddylai'r ffaith nad oes asesiad o anghenion gofal a chymorth wedi'i gynnal beri oedi i'r broses o asesu a yw unigolyn yn gymwys i gael GIP.

- 4.6 Mae'r Fframwaith hwn yn annog mabwysiadu dull ar y cyd o asesu cymhwysedd i gael GIP ac mae'n bwysig bod pob asiantaeth yn ymateb yn amserol. Dylai protocolau lleol nodi sut y gwneir hyn, gan gynnwys pan nad oes asesiad o anghenion eisoes wedi'i gynnal gan yr ALI o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

PENDERFYNU A OES ANGEN IECHYD SYLFAENOL

- 4.7 Yr unig faen prawf ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd i gael GIP yw a yw angen sylfaenol unigolyn yn angen iechyd ai peidio. Mae penderfynu a oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol ai peidio yn golygu ystyried yr holl anghenion perthnasol. Y TA sy'n cynnal yr asesiad hwn (**gweler rôl y TA yn Adran 2**).
- 4.8 Rhaid ystyried pob achos unigol ar sail ei ffeithiau ei hun yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith hwn. Bydd y nodweddion canlynol a'u heffaith ar y gofal sydd ei angen i'w rheoli yn penderfynu a yw angen sylfaenol unigolyn yn angen iechyd:
- **Natur:** Mae hyn yn disgrifio nodweddion penodol anghenion unigolyn (a all gynnwys anghenion corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol) a'r math o anghenion sydd ganddo. Mae hefyd yn disgrifio effaith gyffredinol yr anghenion hynny ar yr unigolyn, gan gynnwys y math o ymyriadau sydd eu hangen i'w rheoli.
 - **Dwyster:** Mae hyn yn cyfeirio at faint a difrifoldeb yr anghenion a'r cymorth sydd ei angen i'w diwallu, gan gynnwys yr angen am ofal parhaol/parhaus ('parhad').
 - **Cymhlethdod:** Mae hyn yn cyfeirio at sut mae'r anghenion yn dod i'r amlwg ac yn rhyngweithio â'i gilydd er mwyn cynyddu'r sgiliau sydd eu hangen i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr (cyflyrau) a/neu reoli'r gofal. Gall hyn ddigwydd ag un cyflwr, neu gallai gynnwys sawl cyflwr neu'r ffordd y mae dau gyflwr neu fwy yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle mae ymateb unigolyn i'w gyflwr ei hun yn effeithio ar ei anghenion cyffredinol, er enghraifft pan fo angen iechyd corfforol yn peri i'r unigolyn ddatblygu angen iechyd meddwl.
 - **Anodd eu Rhagweld:** Mae hyn yn disgrifio i ba raddau mae anghenion yn amrywio ac felly'n creu heriau o ran eu rheoli. Mae hefyd yn ymwneud â'r risg i iechyd yr unigolyn os na chaiff gofal digonol ac amserol ei ddarparu. Mae'n debygol bod gan rywun ag angen gofal iechyd anodd ei ragweld gyflwr sy'n amrywio, yn ansefydlog neu'n dirywio yn gyflym.
- 4.9 Gall pob un o'r nodweddion hyn yn unigol neu ar y cyd, fod yn arwydd o angen iechyd sylfaenol, oherwydd maint a/neu ansawdd y gofal sydd ei angen i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Dylid ystyried yn ofalus yr anghenion cyffredinol yn eu cyfanrwydd a'r effaith a gaiff yr anghenion hyn gyda'i gilydd.

- 4.10 Nid yw diagnosis o glefyd neu gyflwr penodol ynddo'i hun yn pennu cymhwysedd. Wrth benderfynu ar angen iechyd sylfaenol dylid ystyried yr holl anghenion gofal iechyd perthnasol.
- 4.11 Wedi dweud hynny ni ddylai fod unrhyw fwch yn y ddarpariaeth ofal. Dylid defnyddio prawf angen iechyd sylfaenol fel bod penderfyniad nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP ond yn cael ei wneud os yw'r gwasanaethau nyrsio neu'r gwasanaethau iechyd eraill sydd eu hangen, o'u hystyried gyda'i gilydd:
- ond yn gysylltiedig â darparu llety y mae gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ddyletswydd i'w darparu (neu y byddai ganddynt ddyletswydd i'w darparu heblaw am fodd unigolyn) neu'n ategol at ddarparu llety o'r fath; neu
 - yn fath o wasanaethau na ellid disgwyl i awdurdod lleol sy'n bennaf cyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol wneud darpariaeth y tu hwnt iddynt.
- 4.12 Wrth ddefnyddio prawf angen iechyd sylfaenol, dylai BILlau ystyried bod darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n ei gwneud yn ofynnol i ALI ddefnyddio'r profion cysylltiedig ac ategol ym mhob sefyllfa. Felly, dylai byrddau iechyd ystyried y profion hyn wrth benderfynu ar gymhwysedd i gael GIP.

Anghenion a Reolir yn Dda

- 4.13 Ni ddylai'r rhesymeg dros wneud penderfyniad ymleiddio angen am y rheswm syml ei fod yn cael ei reoli'n llwyddiannus; mae anghenion a reolir yn dda yn dal i fod yn anghenion. Dim ond os bydd gwaith rheoli wedi llwyddo i leihau neu ddileu angen parhaus yn barhaol, fel bod llai o angen rheoli'r angen hwn neu fel nad oes angen ei reoli mwyach, y bydd hyn yn effeithio ar gymhwysedd unigolyn i gael GIP. Felly, dylai'r TA roi sylw dyledus i gyflyrau a reolir yn dda wrth ystyried pedair nodwedd angen a gwneud argymhelliad ynghylch cymhwysedd unigolyn i gael GIP ar sail angen iechyd sylfaenol.
- 4.14 Dylid cymhwyso'r egwyddor hon yn ofalus. Weithiau mae'n bosibl y bydd anghenion yn cael eu gwaethygu am fod yr unigolyn mewn amgylchedd amhriodol ar y pryd yn hytrach nag am fod angen math neu lefel benodol o gymorth arno. Os bydd yn symud i amgylchedd gwahanol a bod ei anghenion yn lleihau, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd fod yr angen bellach wedi'i reoli'n dda; mae'n bosibl bod yr angen wedi lleihau neu ddim yn bodoli mwyach.
- 4.15 Mae hefyd yn bwysig rhoi sylw i ddirywiad a datblygiad clefyd wrth ystyried a yw unigolyn yn gymwys i gael GIP. Dylai'r asesiad ragweld amgylchiadau lle y gallai dirywiad neu newid sylweddol yng nghyflwr yr unigolyn yn rhesymol gael ei ystyried yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos. O dan yr amgylchiadau hyn, er ei bod yn

bosibl nad oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ar adeg yr asesiad, dylid ystyried cynnal adolygiad cynharach.

- 4.16 Dylai'r TA hefyd ddweud wrth gomisiynwyr gwasanaethau, fel cartrefi gofal, os yw'n debygol, yn eu barn broffesiynol nhw, y bydd cyflwr sy'n gwaethygu yn sefydlogi yn y byrdymor ac y gallai arian GIP gael ei dynnu'n ôl. Mewn achosion o'r fath, dylai comisiynwyr gydbwyso'r cyfraniad y mae angen a reolir yn dda yn ei wneud at yr asesiad presennol â manteision parhau i ddarparu gofal i'r unigolyn, ochr yn ochr ag ystyriaethau ariannol.

DEFNYDDIO'R ADNODD CYMORTH PENDERFYNU (ACP)

- 4.17 Mae'r ACP sy'n ategu'r Fframwaith hwn wedi'i ddylunio i gefnogi'r broses benderfynu. Dim ond ar ôl cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion gofal unigolyn y dylid defnyddio'r adnodd. Nid yw'n asesiad ynddo'i hun ac nid yw'n disodli barn broffesiynol wrth benderfynu ynghylch cymhwysedd. Yn syml, dull ydyw o gofnodi'r rhesymeg a hwyluso proses resymegol a chyson o wneud penderfyniadau.
- 4.18 Dylai'r TA ddefnyddio'r adnodd hwn er mwyn ei helpu i ystyried, nid yn unig anghenion cyffredinol yr unigolyn, ond y modd y mae'r anghenion hyn yn rhyngweithio â'i gilydd a thystiolaeth o asesiadau risg perthnasol. Ar y llaw arall, ni ddylid cwblhau'r ACP heb asesiad amlddisgyblaethol o anghenion.
- 4.19 Os oes unrhyw asesiadau sy'n ymwneud ag iechyd a lles yr unigolyn wedi'u cwblhau'r ddiweddar gan ymarferwyr, gellir eu defnyddio i gwblhau'r ACP.. Dylai'r dystiolaeth o gymhwysedd a'r broses benderfynu gael eu cofnodi'n gywir ac yn fanwl. Dylai'r dogfennau fod yn drefnus e.e. eu coladu mewn un ffolder neu adran o nodiadau'r claf, er mwyn sicrhau y gellir nodi'r broses GIP a'r canlyniadau'n hawdd drwy ddefnyddio trywydd archwilio clir. Rhaid canolbwyntio ar gynnal asesiad cyflawn a chyfannol o'r unigolyn yn hytrach na sgorau'r ACP.
- 4.20 Bwriedir i'r ACP sicrhau y caiff yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd unigolyn i gael GIP eu hystyried wrth wneud y penderfyniad, waeth beth fo'r grŵp cleientiaid na'r diagnosis. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r adnodd i ddwyn yr amrywiol anghenion mewn 12 o 'feysydd gofal', neu feysydd angen cyffredinol, ynghyd a'u cofnodi. Mae pob maes wedi'i rannu'n nifer o lefelau. Mae'r lefelau yn cynrychioli hierarchaeth o'r lefel isaf i'r lefel uchaf bosibl o angen (a chymorth sydd ei angen) fel y dylai fod modd, waeth beth fo lefel yr angen o fewn maes penodol, ei leoli o fewn y disgrifyddion a ddarperir.
- 4.21 Y meysydd gofal yw:
- Anadlu
 - Maeth
 - Ymataliaeth
 - Iechyd croen

- Symudedd
- Cyfathrebu
- Anghenion Seicolegol ac Emosiynol
- Gwybyddiaeth
- Ymddygiad
- Therapiau Cyffuriau a Meddyginiaeth
- Cyflyrau Ymwybyddiaeth Newidiedig
- Anghenion Gofal Sylweddol Eraill.

4.22 Dylai cwblhau'r adnodd roi darlun cynhwysfawr o anghenion yr unigolyn sy'n nodi eu natur, pa mor gymhleth a dwys ydynt a/neu pa mor anodd ydynt i'w rhagweld - ac felly ansawdd a/neu lefel (gan gynnwys parhad) y gofal sydd ei angen i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Dengys Ffigur 1 yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu sut y gall meysydd ddangos (yn unigol a thrwy'r ffordd y maent yn rhyngweithio) gymhlethdod a dwyster anghenion a/neu pa mor anodd ydynt i'w rhagweld. Mae'r darlun cyffredinol, a'r disgrifyddion o fewn y meysydd eu hunain, hefyd yn ymwneud â natur anghenion.

PANDEMIG A SEFYLLFAOEDD ARGYFYNGUS ERAILL

4.23 Cydnabyddir y byddai cwblhau asesiad GIP llawn mewn ysbyty yn ystod argyfwng datganedig, fel pandemig fflw, yn broblematic. Asesiad o anghenion hirdymor yw GIP. Ni ddylai penderfyniadau am gymhwysedd i gael GIP gael blaenoriaeth yn y sefyllfaoedd hyn. Yn hytrach, dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y claf a sicrhau ei fod yn cael y gofal sydd ei angen arno.

4.24 Mewn pandemig neu sefyllfa argyfyngus arall, dylid cyfeirio at dudalen we Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth gyfredol am GIP.

GWNEUD YR ARGYMHELLIAD YNGHYLCH CYMHWYSEDD

4.25 Mae'n ofynnol i'r TA wneud argymhelliad i'r BILI ynghylch p'un a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ai peidio, gan gofio, os bydd y BILI yn penderfynu bod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol, ei fod yn gymwys i gael GIP.

4.26 Wrth lunio'r argymhelliad hwn dylai'r TA gydweithio gan ddefnyddio barn broffesiynol. Rhaid i bob aelod o'r TA fod yn bresennol pan fydd penderfyniad ynghylch cymhwysedd yn cael ei wneud.

4.27 Mae angen i'r argymhelliad ysgrifenedig fod yn glir ac yn gryno tra'n rhoi digon o fanylion i alluogi'r BILI a'r unigolyn i ddeall y rhesymeg sylfaenol dros yr argymhelliad. Wrth wneud hynny, dylai wneud y canlynol:

- rhoi crynodeb o anghenion yr unigolyn yng ngoleuni'r lefelau a nodwyd yn y meysydd gofal a'r wybodaeth sy'n eu hategu. Dylai hyn gynnwys barn yr unigolyn ei hun am ei anghenion.
- darparu datganiadau am natur, dwyster a chymhlethdod anghenion yr unigolyn a pha mor anodd ydynt i'w rhagweld, o ystyried yr esboniad o'r nodweddion hyn a nodir ym **mharagraff 4.8**.
- esbonio sut y gall yr anghenion mewn un maes gydberthyn i faes arall er mwyn creu cymhlethdod, dwyster neu natur anrhagweladwy ychwanegol.
- o ystyried yr uchod, rhoi argymhelliad ynghylch p'un a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ai peidio. Dylid cofio, er na ddylai'r argymhelliad gyfeirio at bob un o bedair nodwedd natur, dwyster, cymhlethdod ac anodd ei ragweld, y gallai unrhyw un o'r rhain ar ei phen ei hun neu mewn cyfuniad ag eraill fod yn ddigon i nodi bod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol.

4.28 Os bydd unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn mynegi pryder ynghylch unrhyw agwedd ar broses y TA neu'r ACP, dylai'r Cydgysylltydd Gofal drafod y mater hwn ag ef a cheisio datrys ei bryderon. Os na ellir datrys y pryderon, dylid nodi'r rhain yn yr ACP fel y gellir eu dwyn i sylw'r BILI sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

4.29 Os bydd TA yn argymhell nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP, mae angen rhesymeg glir sy'n ystyried ei amgylchiadau o dan bedair nodwedd allweddol y prawf angen iechyd sylfaenol. Bydd angen cynllunio gofal ar gyfer yr unigolion hynny ag anghenion parhaus, gan gynnwys unrhyw ystyriaeth am Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG, o hyd.

Diffyg argymhelliad clir

4.30 Os na all TA gytuno ar yr argymhelliad dylid cofnodi hyn yn glir.

4.31 Mae'r ACP yn cynghori ymarferwyr i symud i lefel uwch maes os na ellir dod i gytundeb ond dylid fod tystiolaeth resymegol glir i ategu hyn. Os bydd ymarferwyr yn y sefyllfa hon dylent adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r maes angen penodol hwnnw ac astudio geiriad lefelau perthnasol yr ACP yn ofalus er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cyd-fynd â'r lefelau a gweld a fydd hyn yn rhoi mwy o eglurder. Gellir ceisio tystiolaeth ychwanegol, er na ddylai beri gormod o oedi i'r broses. Os na fydd hyn yn datrys y sefyllfa, dylid cofnodi'r anghytundeb ynghylch y lefel ar yr ACP ynghyd â'r rhesymau dros ddewis pob lefel a pha ymarferydd a ddewisodd pa lefel. Dylid hefyd grynhoi'r wybodaeth a geir yn yr argymhelliad er mwyn i'r BILI allu nodi hyn wrth ddilysu argymhellion.

4.32 Ni ddylai'r arfer o symud i lefel uwch pan fo anghytundeb gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr er mwyn arwain unigolion yn artiffisial tuag at benderfyniad bod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol os nad oes unrhyw gyfiawnhad dros hyn. Mae'n

bwysig bod hyn yn cael ei fonitro yn ystod archwiliadau BILlau o argymhellion a phrosesau fel y gellir nodi ymarferwyr unigol y ceir eu bod yn defnyddio'r arfer 'lefel uwch' yn anghywir. Efallai y bydd angen trafod y mater â'r ymarferwyr hyn a chynnig hyfforddiant pellach.

SICRHAU ANSAWDD

4.33 Cyfrifoldeb y TA yw:

- cynnal asesiad trylwyr o anghenion;
- rhoi cyngor arbenigol cyson i'r BILl ar gymhwysedd i gael GIP;
- datblygu cynllun gofal i ddiwallu anghenion yr unigolyn;
- gwneud argymhellion yn ymwneud â'r lleoliad a'r set sgiliau sydd ei hangen i ddarparu'r cynllun gofal yn effeithiol.

4.34 Mae gan BILlau a'u partneriaid gyfrifoldeb i sicrhau bod gan aelodau'r TA y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwyseddau sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol. Rhaid i BILlau drwy eu system sicrhau ansawdd, nodi timau neu unigolion nad ydynt yn dilyn proses GIP i'r safon ddisgwyliedig a chymryd y camau ymatebol sydd eu hangen er mwyn helpu i wella gwasanaethau.

4.35 Rhaid i benderfyniadau ar gymhwysedd gael eu seilio ar yr angen a asesir a rhaid iddynt fod yn annibynnol ar gyfyngiadau cyllidebol. Felly, rhaid i BILlau sicrhau bod rhaniad clir rhwng swyddogaeth y TA a'r cadarnhad a roddir i'w gasgliadau, a'r broses o gomisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen i weithredu'r cynllun gofal.

4.36 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y BILl yn derbyn argymhellion y TA. O dan amgylchiadau eithriadol, ac am resymau a fynegir yn glir, gall y BILl ofyn am dystiolaeth ychwanegol i gefnogi argymhellion y TA.

4.37 Rhaid bod gan BILlau systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y broses benderfynu yn gyson. Dylai hyn fod ar ffurf panel a chynnwys adolygiad cymheiriaid gan AT arall os na lwyddwyd i ddod i gytundeb. Anogir BILlau hefyd i ymgorffori adolygiad gan gymheiriaid o benderfyniadau ar gymhwysedd i gael GIP yn eu rhaglenni archwilio a'u rhaglenni gwella gwasanaethau yn barhaus.

4.38 Fodd bynnag, ni ddylai prosesau sicrhau ansawdd beri oedi cyn i'r unigolyn gael y cymorth sydd ei angen arno a dylai BILlau ystyried defnyddio proses symlach ar gyfer achosion nad ydynt yn ddadleuol.

CYFLEU'R PENDERFYNIAD YNGHYLCH CYMHWYSEDD I'R UNIGOLYN

4.39 Unwaith i'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd gael ei wneud gan y BILl yn dilyn y Panel Sicrhau Ansawdd, dylid cyfleu'r penderfyniad yn newis iaith yr unigolyn neu ei gynrychiolydd, a dylai gynnwys:

- y penderfyniad ynghylch yr angen iechyd sylfaenol ac, felly, p'un a yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP ai peidio
- y rhesymau dros y penderfyniad
- copi o'r ACP a gwblhawyd
- manylion y sawl y dylid cysylltu ag ef os bydd rhagor o wybodaeth arno
- sut i wneud cais am apêl ynghylch y penderfyniad ynghylch cymhwysedd os nad yw'n fodlon ar y penderfyniad, fel y nodir yn **Adran 7**.

4.40 Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP, gall y llythyr penderfyniad hefyd gynnwys, lle y bo'n gymwys ac yn briodol, wybodaeth am ofal nyrsio a ariennir gan y GIG neu becyn gofal ar y cyd.

4.41 Os yw unigolyn yn gymwys i gael GIP, gellid cynnwys disgrifiad cryno o'r pecyn gofal arfaethedig, os yw'n hysbys, gyda'r ohebiaeth hon, neu os nad yw'n hysbys ar yr adeg honno, wybodaeth am y camau nesaf. Nid yw cymhwysedd i gael GIP yn ddiderfyn, gan fod anghenion yn gallu newid. Dylid egluro hyn i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd.

AMSERLENNI A DECHRAU ARIAN GIP

4.42 Rhaid i becynnau gofal fod ar waith heb fod yn hwyrach nag **8 wythnos** o'r adeg yr ystyrid y gall fod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol ac y gall fod ganddo hawl i gael GIP. [Dim ond pan fydd angen adsefydlu pellach y bydd yn dderbyniol ymestyn yr amserlen.](#) Nid yw'n dderbyniol ymestyn y cyfnod hwn o ganlyniad i'r broses cymhwysedd i gael GIP.

4.43 Mewn rhai achosion dylid gwneud penderfyniadau llawer cyflymach er budd yr unigolyn: er enghraifft yn achos salwch terfynol, neu os bydd digwyddiad trychinebus wedi bod a'i bod yn amlwg, o'r adeg honno, fod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol. Mae rhagor o wybodaeth am Asesiadau Llwybr Carlam ar gael yn **Adran 3**.

4.44 Mae'r broses cynllunio gofal yn allweddol i gomisiynu a darparu gofal er mwyn diwallu anghenion unigolyn. Y BILI sy'n gyfrifol am hyn.

4.45 Efallai y bydd angen i unigolyn gael gwasanaethau gan y BILI a/neu'r ALI. Felly, mae cyfrifoldebau ar y naill a'r llall felly i sicrhau ei fod yn asesu cymhwysedd i gael GIP mewn ffordd amserol a chyson. Rhaid ystyried GIP yn gyntaf bob amser.

4.46 Mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol i'r BILI ariannu GIP yn dechrau pan fydd yn cadarnhau bod cyngor y TA yn gyson ac yn deg. Fodd bynnag, mae egwyddorion gweinyddiaeth gyhoeddus dda yn nodi, os bydd unigolyn wedi talu am ei ofal yn y cyfamser, y dylid ei ad-dalu.

4.47 Fel arfer, byddai'r broses ad-dalu o leiaf yn dechrau o'r dyddiad y cyfarfu'r TA ac y gwnaeth ei benderfyniad ynghylch cymhwysedd yr unigolyn i gael GIP. Fodd bynnag,

dylai'r TA hysbysu'r BILI os gall, yn ei farn broffesiynol resymegol, nodi dyddiad y daeth yn amlwg bod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ac, felly, y dylid ad-dalu'r unigolyn.

Cynllunio

- 4.48 O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd yr amserlenni yn hwy, ond fel egwyddor sylfaenol, rhaid i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw sicrhau bod yr unigolyn yn yr amgylchedd mwyaf priodol a'i fod, lle bo hynny'n bosibl, yn cael ei ailalluogi yn ystod y cyfnod hwn. Dylai'r Cydgysylltydd Gofal sicrhau bod amserlenni, penderfyniadau a rhesymeg o ran cymhwysedd yn dryloyw o'r dechrau i unigolion, gofawyr, teulu a staff.

Dylai unrhyw eithriadau i'r amserlen 8 wythnos gael eu monitro'n lleol fel rhan o'r fframwaith perfformiad a dylid eu rhoi ar waith fel y bo'n briodol.

- 4.49 Os bydd unigolyn yn gymwys i gael GIP, y pecyn a ddarperir fydd y pecyn sy'n briodol i ddiwallu holl anghenion iechyd asesedig a holl anghenion gofal a chymorth cysylltiedig yr unigolyn yn ôl asesiad y BILI. Y BILI sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd a phenderfynu beth y dylai'r pecyn priodol fod. Wrth wneud hyn, dylai'r BILI roi sylw dyledus i ddymuniadau'r unigolyn a'r canlyniadau yr hoffai eu gweld. Er nad yw'r BILI yn rhwym wrth farn yr ALI ynglŷn â pha wasanaethau sydd eu hangen ar yr unigolyn, bydd unrhyw asesiad gan ALI leol yn bwysig i nodi anghenion yr unigolyn ac, mewn rhai achosion, yr opsiynau ar gyfer eu diwallu. Pa system bynnag a ddefnyddir i ddiwallu anghenion asesedig unigolyn, dylai dull gweithredu a fabwysiedir gyd-fynd ag egwyddorion personoli.
- 4.50 Ni ddylid cynllunio gofal er mwyn i anghenion gael eu diwallu o dan GIP ar wahân i anghenion eraill, a, lle y bo'n bosibl, dylid datblygu un cynllun gofal integredig a phersonoledig.

ADRAN 5

DARPARU AC ADOLYGU GWASANAETHAU

DARPARU A MONITRO GOFAL

- 5.1 Mae Cod Ymarfer Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal Asesiad Anghenion Poblogaeth ar y cyd o'r gwasanaethau gofal a chymorth yn eu rhanbarth. Mae hyn yn golygu nodi a defnyddio gwybodaeth am les pobl, y gofalwyr sy'n eu cefnogi, a'r rhwystrau y maent yn eu profi.
- 5.2 Mae'r wybodaeth yn yr asesiadau hyn, ynghyd ag Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad cyfatebol ynghylch darpariaeth a sefydlogrwydd y gwasanaethau, yn cyfrannu at Gynlluniau Ardal strategol a fydd yn llywio'r gwaith o gomisiynu gofal a chymorth ar lefel ranbarthol a lleol.
- 5.3 Ni ellir comisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigolion ag anghenion gofal parhaus ar wahân i gomisiynu gwasanaethau tebyg eraill. Dylai BILlau ac ALLau gael dull integredig o gomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys cartrefi gofal preswyl a nyrsio a gofal cartref i ddylanwadu i'r eithaf ar ddatblygu darpariaeth. Bydd angen iddynt hefyd weithio'n agos gyda darparwyr i sicrhau bod ystod briodol o wasanaethau i ymateb i anghenion eu poblogaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a [Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth \(Cymru\) 2015](#) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cyllidebau ar y cyd o fis Ebrill 2018 mewn perthynas â darparu llety mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Dylai hyn gynnwys Gofal Iechyd Parhaus, Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG a phhecynnau gofal ar y cyd. Bydd y cyllidebau cyfun hyn yn cefnogi comisiynu integredig gan alluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ganolbwyntio ar ansawdd gwell yn ogystal â sicrhau gwell gwerth am arian. Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hyrwyddo'r defnydd o gyllidebau ar y cyd a'u hystyried pryd bynnag y byddant yn gweithredu ar y cyd. Gall cyllideb ar y cyd gynnwys arian i dalu am ymrwymadau Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG a GIP a phhecynnau gofal ar y cyd.
- 5.4 Mae Cod Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â Rhan 4 Diwallu Anghenion, y Broses Asesu Unedig ar gyfer grwpiau defnyddwyr eraill a'r Fframwaith Asesu Integredig yn rhoi canllawiau ar y trefniadau i fonitro a rheoli gofal i oedolion yn barhaus. Yn benodol, mae'r Cod Ymarfer:

- yn pwysleisio pwysigrwydd monitro ac adolygu anghenion gofal a chymorth a chanlyniadau personol y mae'r unigolyn yn dymuno eu cyflawni, effeithiolrwydd y ddarpariaeth sydd ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny neu ddarparu'r gwasanaethau hynny, er mwyn cadarnhau, newid neu gau cynlluniau gofal personol;
- yn dangos bod angen adolygu a yw'r unigolyn yn dal i fod yn gymwys i gael GIP wrth i'w anghenion newid.

Pan fo unigolyn yn gymwys i gael GIP

- 5.5 Y BILI sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer gofal yr unigolyn ni waeth ym mha leoliad gofal y maent. Byddant yn gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn sefydlu pecyn priodol o ofal, llety (lle y bo'n briodol) a chymorth. Er mai'r BILI sy'n bennaf cyfrifol am ddarparu gofal, bydd modd i asiantaethau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol (ymhlith eraill), gymryd rhan, er enghraifft drwy:
- wasanaethau gwaith cymdeithasol parhaus
 - cyfrifoldeb dirprwyedig y cytunwyd arno, o dan drefniadau partneriaeth ffurfio, am brynu neu ddarparu gofal
 - cyfrifoldeb a rennir neu gyfrifoldeb dirprwyedig y cytunwyd arno am gynnal asesiadau parhaus a/neu reoli gofal
 - trefniant darparu gwasanaethau ar y cyd a ddatblygwyd yn lleol
 - eu cyfrifoldebau o ran tai, addysg a gwasanaethau hamdden, mae gan awdurdodau lleol rôl gorfforaethol i'w chwarae o ran galluogi pobl i fyw bywydau bodlon a chymryd rhan a chyfrannu at y gymuned ehangach
 - darparu cyfarpar drwy'r gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig
- 5.6 Y pecyn GIP a ddarperir fydd y pecyn sy'n briodol i anghenion iechyd a gofal personol yr unigolyn yn ôl asesiad y BILI. Caiff BILlau eu hannog i ystyried asesiad yr ALI neu ei gyfraniad i asesiad ar y cyd gan y byddant yn bwysig er mwyn nodi anghenion yr unigolyn ac, mewn rhai achosion, yr opsiynau sydd ar gael i'w diwallu.
- 5.7 Cyfrifoldeb y BILI yw cynllunio, dynodi canlyniadau, caffael gwasanaethau a rheoli galw a pherfformiad darparwyr o ran pob gwasanaeth sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion iechyd a gofal personol unigolion sy'n gymwys i gael GIP. Disgwylir i bartneriaid rhanbarthol ddatblygu dull integredig o gomisiynu gwasanaethau cartrefi gofal, gan gynnwys mewn perthynas â negodi contractau, pennu manylebau gwasanaethau, negodi ffioedd a sicrhau ansawdd. Rhaid i bartneriaid sefydlu cyllideb gyfun mewn perthynas â swyddogaethau llety mewn cartrefi gofal er mwyn helpu i roi'r trefniadau integredig hyn ar waith.
- 5.8 Oni chaiff y swyddogaeth ei dirprwyo'n ffurfiol, bydd BILlau yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni'r rôl cydgysylltu gofal/rheoli achos ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael GIP yn ogystal â chydran y GIG o becyn gofal ar y cyd, gan gynnwys asesu ac adolygu anghenion cleifion unigol.

- 5.9 Bydd trefniadau ar waith gan y BILI i froceru a chomisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen i weithredu'r cynllun gofal manwl. Mae angen cydbwysu argymhellion y TA a dewisiadau'r unigolyn yn unol â'r Polisi Cynllunio Gofal Cynaliadwy.
- 5.10 Rhaid i'r BILI ddangos rhesymeg glir dros ei benderfyniad ynghylch y pecyn GIP a gomisiynir, a dylai adlewyrchu'r egwyddorion a nodir uchod. Rhaid i'r rhesymeg hon a threfniadau'r pecyn gofal gael eu hesbonio'n glir i'r unigolyn a/neu'i gynrychiolwyr a dylid eu cadarnhau'n ysgrifenedig.
- 5.11 Rhaid sefydlu trefniadau contract clir â'r darparwr gwasanaeth. Rhaid i'r contract ganolbwyntio ar ganlyniadau a chynnwys trefniadau adolygu rheolaidd.
- 5.12 Fel gyda phob contract gwasanaeth, BILlau sy'n gyfrifol am fonitro diogelwch, mynediad a phrofiadau cleifion yng nghyd-destun perfformiad y darparwr. Y BILI sy'n bennaf cyfrifol am drefnu a monitro'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n gymwys i gael GIP. Dylai BILlau sicrhau bod cyfrifoldebau perthnasol y BILI a darparwyr o ran GIP yn glir.
- 5.13 Bydd gan BILlau fanylebau gwasanaeth a chontractau ar gyfer lleoliadau cofrestredig sy'n ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ystyried rheoliadau perthnasol, Safona ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a chanllawiau ac arfer gorau arall sy'n berthnasol.
- 5.14 Pan fydd unigolion sy'n gymwys i gael GIP yn cael gofal mewn cartref gofal, caiff pryderon a gaiff eu huwchgyfeirio eu rheoli yn unol â Chanllawiau '*Escalating Concerns With, and Closures of, Care Homes Providing Services for Adults*' (Mai 2009) Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r canllawiau hyn, dylai fod gan BILlau ac asiantaethau gofal cymdeithasol systemau a phrosesau ar waith sy'n galluogi darparwyr cofrestredig, rheolwyr contractau, rheolwyr gofal a gweithwyr proffesiynol eraill i ddeall beth sy'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol i bob lleoliad ei wneud a sut y caiff gofynion o'r fath eu cyflawni a'u monitro. Bydd y systemau hyn yn pennu sut y bydd asiantaethau'n contractio ac yn gweithio gyda darparwyr er mwyn llunio gwasanaethau o ansawdd.
- 5.15 Dylai BILlau ddatblygu gweithdrefnau gweithredol i sicrhau bod eu cyfrifoldeb am wasanaethau a gomisiynir yn cael ei gyflawni a'i fonitro'n effeithiol os caiff gofal ei ddarparu gan asiantaethau allanol.
- 5.16 Mae gan BILlau ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i sicrhau y caiff iechyd a diogelwch cleifion y GIG eu cynnal pan fo darparwr yn darparu gwasanaethau ar ran y GIG. Mae'n ofynnol i'r darparwr a chorff comisiynu'r GIG gyflawni'r ddyletswydd hon i breswylwyr.
- 5.17 Dylid hysbysu'r unigolyn y gallai ei gymhwysedd i gael GIP effeithio ar fudd-daliadau lles sydd ar gael i ategu ei gostau byw, a dylid ei gyfeirio at gyngor priodol.

Penderfynir ble y caiff pecyn gofal GIP ei ddarparu mewn ymateb i'r cynllun gofal ac yn unol â'r [Polisi Cynllunio Gofal Cynaliadwy](#).

- 5.18 Bydd y lleoliad a ddewisir ar gyfer yr unigolion sy'n gymwys i gael GIP yn dylanwadu ar yr asiantaethau eraill a gaiff eu cynnwys. Pan fydd unigolyn yn cael ei becyn gofal GIP mewn ysbyty neu gartref gofal, bydd y GIG yn trefnu ac yn ariannu'r gofal yn llawn, gan gynnwys y llety, costau bwyd a gofal personol. Pan fydd unigolyn yn dychwelyd i'w gartref ei hun (neu gartref gofalwr), bydd y BILI yn talu cost ei anghenion iechyd a gofal personol yn llawn ond ni fydd yn talu am y llety, y bwyd na'r cymorth cyffredinol yn y cartref.
- 5.19 Rhaid i BILlau ac ALLau gydweithio er mwyn dod o hyd i fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir nawr ac yn y dyfodol. Disgwylir i sefydliadau partner rannu gwybodaeth er mwyn helpu i gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol a datblygu datganiadau ar sefyllfa'r farchnad, gan weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau annibynnol ac nid-er-elw i ddatblygu'r ddarpariaeth sydd ei hangen.

Cyfraniadau personol ychwanegol gan unigolyn sy'n gymwys i gael GIP

- 5.20 Mae'r GIG yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr sydd ar gael i bawb. Darperir gwasanaethau'r GIG ar sail angen clinigol ac nid gallu unigolyn i dalu. Caiff cronfeydd cyhoeddus ar gyfer gofal iechyd eu neilltuo'n gyfan gwbl er budd y bobl y mae'r GIG yn eu gwasanaethu. Yn unol â'r prif egwyddorion, mae'n hanfodol: na ddylai'r GIG byth ddefnyddio arian cyhoeddus i sybsideiddio gofal preifat (a fyddai'n groes i egwyddorion craidd y GIG) a ni ddylid codi tâl byth ar gleifion am ofal y GIG, na chaniatáu iddynt gyfrannu tuag at ofal y GIG (ac eithrio pan fo deddfwriaeth benodol yn caniatáu hynny) am y byddai hynny'n groes i egwyddorion sefydlol a deddfwriaeth y GIG. Er mwyn osgoi'r risgiau hyn, dylai'r rhaniad rhwng gofal preifat a gofal y GIG fod mor glir â phosibl. Dylai BILlau geisio sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o'r egwyddorion uchod.
- 5.21 Dylai'r cynllun gofal nodi'r gwasanaethau a gaiff eu hariannu a/neu'u darparu gan y GIG. Gall hefyd nodi gwasanaethau a gaiff eu darparu gan sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol a darparwyr trydydd sector. Pan gaiff gofal na chaiff ei ariannu gan y GIG ei ddarparu fel rhan o becyn cyflawn, dylai'r awdurdod lleol gyfeirio'r unigolyn a'i ofalwyr at wybodaeth glir am drefniadau codi tâl a dylai'r sector gwirfoddol eu cyfeirio at ffynonellau ariannu amgen posibl e.e. budd-daliadau a sefydliadau elusennol.
- 5.22 Yn ogystal â threfniadau o'r fath, gall amgylchiadau godi, fel y disgrifir isod, lle bydd unigolion a/neu'u cynrychiolydd yn dewis defnyddio gwasanaethau ychwanegol neu lety premiwm drwy wneud trefniadau ar wahân eu hunain a thalu amdanynt.
- 5.23 Fel arfer, mae ymholiadau ynglŷn â chyfraniadau personol ychwanegol i becynnau GIP yn perthyn i dri chategori, sef:
- Gwasanaethau ychwanegol;

- Llety 'premiwm' cost uwch;
- Cadw darparwr presennol (drutach).

Gwasanaethau Ychwanegol

- 5.24 Os bydd darparwr yn cael cais am wasanaethau ychwanegol a ariennir yn breifat gan unigolyn sy'n cael ei ariannu gan GIP, dylai gyfeirio'r mater at y BILI i'w ystyried.
- 5.25 Mae 'gwasanaethau ychwanegol' yn cyfeirio at wasanaethau eraill ar ben y rhai a nodir yn y cynllun gofal a ddatblygwyd er mwyn diwallu'r angen a aseswyd. Ni ddylid byth ddefnyddio trefniadau a ariennir gan gyfraniadau personol fel ffordd o sybsideiddio'r gwasanaethau y mae'r BILI yn gyfrifol amdanynt.
- 5.26 Rhaid i unrhyw benderfyniad i brynu gwasanaethau preifat ychwanegol gael ei wneud ar sail dewis personol yn unig ac nid am nad oes darpariaeth briodol ar gael drwy'r GIG neu'r ALI i ddiwallu'r angen a aseswyd. Mae cyfrifoldeb ar y BILI i ymgysylltu â'r unigolyn a/neu'i gynrychiolydd er mwyn rhoi sicrwydd iddo na fydd hynny'n digwydd ac nad yw unigolion agored i niwed yn wynebu risg o gam-fanteisio ariannol. Os bydd yr unigolyn yn dweud ei fod yn pryderu nad yw'r pecyn gofal presennol yn ddigonol nac yn briodol i ddiwallu ei anghenion, dylai'r BILI gynnig adolygu'r pecyn gofal er mwyn gweld a fyddai pecyn gwahanol yn diwallu'r anghenion yr aseswyd sydd gan yr unigolyn yn well.
- 5.27 Gall fod o gymorth nodi'r enghreifftiau canlynol, lle bydd unigolion o bosibl yn dewis prynu gwasanaethau preifat:

Enghraifft 1:

Unigolyn y mae asesiad yn dangos bod angen un sesiwn ffisiotherapi'r GIG yr wythnos arno, a'i fod yn cael y sesiwn honno, ond ei fod am brynu sesiwn ychwanegol yn breifat. O dan y fath amgylchiadau, mater i'r unigolyn a'r darparwr perthnasol fyddai'r trefniadau ariannol ar gyfer y gwasanaeth a ariennir yn breifat ac ni ddylai gael ei gynnwys mewn unrhyw gytundeb gwasanaeth rhwng y BILI a'r darparwr.

Enghraifft 2:

Bydd unigolyn, o bosibl, am brynu ymweliad ychwanegol gan y darparwr gofal. Yn gyntaf rhaid i'r BILI ystyried a ddylai dalu costau llawn y pecyn gofal. Ar ôl cynnal adolygiad, os bydd y BILI yn fodlon bod y gwasanaethau y mae wedi'u comisiynu yn briodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn a nodwyd, gall yr unigolyn ddewis gwneud trefniadau preifat gyda'r darparwr gofal. Mewn achosion o'r fath bydd angen i'r BILI gydgyssylltu â'r unigolyn a'r darparwr gofal er mwyn sicrhau bod pob parti yn glir ynghylch y cymorth ychwanegol a ddarperir yn ystod yr ymweliadau a ariennir yn breifat.

5.28 Er na ddylid byth leihau nac israddio gwasanaethau a ariennir gan y GIG er mwyn cyd-fynd â gofal a ariennir yn breifat, pan fo hynny'n glinigol briodol, dylai'r BILI a'r sefydliadau sy'n darparu gofal a ariennir gan y GIG gydweithio â'r rhai sy'n darparu gofal preifat er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cydgysylltu'n ddiogel ac yn effeithiol. Dylai'r cynllun gofal nodi mesurau rheoli risg effeithiol, trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth, parhad gofal a gweithgarwch cydgysylltu rhwng gofal ar ariennir gan y GIG a gofal a ariennir yn breifat.

Llety 'Premiwm' Cost Uwch

5.29 Fel y nodwyd uchod, dylai'r arian a ddarperir gan y BILlau fel rhan o becynnau GIP y GIG fod yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd gan y TA yn y cynllun gofal. Oni bai y gellir nodi a darparu'r elfennau hynny o'r gwasanaeth a ariennir gan y GIG ar wahân, ni fydd hawl gan unigolion fel arfer i dalu am lety cost uwch.

5.30 Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol, y dylid eu hystyried fesul achos, pan ddylai BILI ystyried yr achos dros gostau sy'n uwch na'r arfer, er enghraifft, pan fo unigolyn a/neu'i gynrychiolydd yn gofyn am ystafell fwy neu leoliad newydd mewn cartref gofal sy'n codi cyfraddau sylweddol uwch na'r hyn y byddai'r BILI yn ei dalu fel arfer.

5.31 Rhaid i'r BILI gysylltu â'r unigolyn a/neu'i gynrychiolydd (cynrychiolwyr) i ganfod y rhesymau dros y dewis. Pan fo'r angen yn ymwneud â rhesymau clinigol a nodwyd (er enghraifft, unigolyn sy'n ymddwyn yn heriol sydd angen ystafell fwy oherwydd y nodwyd bod ei ymddygiad yn gysylltiedig â theimlo ei fod wedi'i gaethiwo, neu unigolyn sy'n ystyried y byddai'n fuddiol iddo gael darparwr gofal â sgiliau arbenigol yn hytrach na darparwr gofal generig), dylid ystyried a fyddai'n briodol i'r BILI ddiwallu'r angen hwn.

5.32 Os na chaiff angen clinigol ei gadarnhau bydd angen i'r BILI wneud penderfyniad sy'n cydbwysu anghenion a dewisiadau'r unigolyn â'r angen am uniondeb wrth ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus. Gweler Polisi Cymru Gyfan ar Gynllunio Gofal Cynaliadwy.

5.33 O dan rai amgylchiadau gall darparwyr gynnig pethau ychwanegol fel blodau, papurau newydd dyddiol ac ati, fel rhan o'u pecyn. Er mwyn sicrhau uniondeb cyhoeddus, mae'n rhesymol disgwyl i unigolion a/neu'u cynrychiolwyr wneud trefniadau ar wahân i brynu'r fath eitemau'n uniongyrchol oddi wrth y darparwr fel y nodir uchod.

Cadw darparwr presennol (cost uwch).

5.34 O dan rai amgylchiadau, daw rhai unigolion yn gymwys i gael GIP pan fyddant eisoes yn preswyllo mewn cartref gofal sy'n codi ffioedd uwch nag y byddai'r BILI perthnasol yn eu talu fel arfer ar ran rhywun sydd â'r un anghenion â hwy. Gall hyn ddigwydd os

oedd yr unigolyn yn talu am ei ofal ei hun yn flaenorol neu os oedd awdurdod lleol yn ariannu'r gofal a bod trydydd parti yn cyfrannu symiau atodol i dalu'r ffioedd dyledus.

- 5.35 Caniateir talu symiau atodol o dan ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ond ni chaniateir hynny o dan ddeddfwriaeth y GIG. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai BILlau ystyried a oes rhesymau pam y dylent dalu cost lawn y pecyn gofal, er bod y gyfradd yn uwch. Gallai rhesymau o'r fath gynnwys eiddilwch, anghenion iechyd meddwl neu anghenion perthnasol eraill sydd gan yr unigolyn sy'n golygu y gallai ei symud i lety arall beri risg sylweddol i'w iechyd a'i lesiant.
- 5.36 Efallai y bydd amgylchiadau yn codi hefyd pan ddaw unigolyn sydd mewn lleoliad y tu allan i'r ardal yn gymwys i gael GIP ac, er bod y pecyn gofal yn costio mwy nag y byddai'r BILl cyfrifol yn ei dalu fel arfer am anghenion yr unigolyn, bod y gost yn rhesymol o gofio cyfraddau'r farchnad yn ardal y lleoliad. Dylai BILlau gadarnhau hyn drwy gysylltu â'r BILl yn ardal y lleoliad.
- 5.37 Dylai Byrddau Iechyd ystyried hefyd a oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu ei bod yn rhesymol iddynt dalu'r gyfradd uwch. Gallai hyn ddigwydd am fod y lleoliad yn agos i aelodau o'r teulu sy'n chwarae rhan amlwg ym mywyd yr unigolyn neu am fod yr unigolyn wedi byw yn y lleoliad am sawl blwyddyn a bod ganddo felly gysylltiadau cymdeithasol cryf â'r ardal ac y byddai ei symud yn anfanteisiol iawn iddo.
- 5.38 Dylai BILlau ddelio â'r sefyllfaoedd uchod yn sensitif gan gydweithio'n agos â'r unigolion dan sylw a, lle y bo'n briodol, eu teuluoedd, y darparwr gwasanaeth presennol a'r awdurdod lleol os yw wedi ariannu'r pecyn gofal hyd yma. Os bydd bwrdd iechyd lleol yn penderfynu, yn dilyn argymhellion y TA, nad yw'r amgylchiadau yn cyfiawnhau talu am leoliad cost uwch presennol neu wasanaethau y mae wedi etifeddu cyfrifoldeb amdanynt, mae gan y BILl awdurdod i symud unigolyn i lety arall neu newid darparwr. Dylai unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud gan ymgynghori'n llawn â'r unigolyn dan sylw a'u cadarnhau'n ysgrifenedig gan roi rhesymau drostynt. Dylid darparu cymorth eiriol os bydd hynny'n briodol.
- 5.39 Pan ddaw unigolyn yn gymwys i gael GIP a bod ganddo eisoes becyn gofal cost uwch, dylai BILlau ystyried ariannu cost lawn y pecyn cost uwch presennol hyd nes y penderfynir a ddylid talu'r pecyn cost uwch yn barhaus neu drefnu lleoliad amgen.
- 5.40 Os bydd unigolyn am herio penderfyniad i beidio â thalu am lety cost uwch, dylai wneud hynny drwy ddilyn Gweithdrefn Gwynion y GIG. Dylai'r llythyr a gaiff gan y BILl yn ei hysbysu o'r penderfyniad gynnwys manylion y broses gwyno hefyd a'r person cyswllt os hoffai'r unigolyn wneud cwyn.
- 5.41 Pan gaiff unigolion eu trosglwyddo, dylai'r comisiynwyr presennol lunio cynllun gofal ar y cyd â'r darparwyr newydd sy'n nodi anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn trafod sut y dylid ymdrin ag unrhyw risgiau ac anghenion clinigol penodol. Y BILl sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r lleoliad. Dylai gysylltu'n rheolaidd â'r darparwr newydd

a'r unigolyn yn ystod wythnosau cyntaf y gwasanaethau newydd er mwyn sicrhau bod y broses bontio wedi bod yn llwyddiannus a sicrhau bod unrhyw broblemau sydd wedi codi yn cael eu datrys yn briodol.

Cynorthwyo unigolion sy'n gymwys i gael GIP yn eu cartref eu hunain

- 5.42 Os bydd unigolyn yn gymwys i gael GIP a'i fod yn dewis byw yn ei gartref ei hun, bydd y BILL yn gyfrifol am dalu am yr holl anghenion iechyd a gofal cysylltiedig a aseswyd. Nid yw hyn yn cynnwys cost llety, bwyd na chymorth cyffredinol i'r cartref. Mae amrywiaeth o gostau cartref beunyddiol y disgwylir iddynt gael eu talu gan incwm personol neu drwy fudd-daliadau lles gan gynnwys bwyd, rhent/llog morgais, tanwydd a dŵr, dillad neu eitemau cyffredin eraill i'r cartref.
- 5.43 Er y gall BILLau ystyried costau cymharol a gwerth am arian, ni ddylent osod terfynau mympwyol ar becynnau gofal yn y cartref yn seiliedig ar gostau tybiannol gofalu am unigolyn mewn cartref yn unig.
- 5.44 Gall fod gan unigolion sy'n gymwys i gael GIP ac sy'n dewis byw yn eu cartref eu hunain anghenion cymorth ychwanegol y gall fod yn briodol i'r awdurdod lleol eu diwallu yn ddarostyngedig i amodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2104 a chanllawiau ar gymhwysedd, e.e. cymorth a chynghor o ran addasu eiddo, cymorth gyda gweithgareddau rhianta hanfodol, gwasanaethau dirprwyieiaeth neu benodeiaeth, pryderon o ran diogelu, cymorth neu wasanaethau gofalmwr sydd eu hangen er mwyn galluogi'r gofalmwr i gyflawni ei gyfrifoldebau gofalu.

CANLLAWIAU AR GYRFF CYFRIFOL – AR GYFER Y GIG YNG NGHYMRU

- 5.45 Mae'r [Canllawiau ar Gyrff Cyfrifol](#) yn darparu fframwaith ar gyfer sefydlu'r corff sy'n gyfrifol am sicrhau gofal iechyd eilaidd a thrydyddol i unigolyn o fewn y GIG yng Nghymru. Mae'n disodli'r canllawiau Sefydlu Ardal Breswyl a nodir yn DGM (94) 15 a DGM (93) 133. Er bod y polisi wedi newid ers hynny, nid oedd y canllawiau wedi'u diwygio'n ffurfiol.
- 5.46 Nodir y sail gyfreithiol ar gyfer swyddogaethau dan gyfarwyddyd BILLau yn [Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol \(Swyddogaethau a Gyfarwyddir\) \(Cymru\) 2009](#). Bwriad y Canllawiau ar Gyrff Cyfrifol yw rhoi arweiniad ar gymhwyso'r fframwaith cyfreithiol hwnnw i sefyllfaoedd penodol.
- 5.47 Yn gyffredinol, y corff cyfrifol fydd y BILL lle mae'r person yn ystyried ei fod yn preswyl fel arfer. Esbonnir hyn yn fanwl yn Adran 2 o'r canllawiau. Mae'r adrannau dilynol yn rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r corff cyfrifol mewn achosion a sefyllfaoedd penodol.

- 5.48 Mewn achosion lle yr asesir bod pobl yn gymwys i gael GIP, a'u bod yn cael eu lleoli, neu eisoes wedi'u lleoli mewn cartref gofal y tu allan i'w hardal leol, bydd y BILI lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am ariannu'r lleoliad cartref gofal. Dylai'r BILlau dan sylw drafod i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith cyn i'r claf symud.
- 5.49 Wrth nodi cyfrifoldeb, disgwylir i bob rhan o'r GIG weithredu er budd pennaf y claf bob amser, gan gydweithio mewn partneriaeth, a chadw at yr egwyddor sylfaenol.

Yr Egwyddor Sylfaenol

Mae diogelwch a lles cleifion yn hollbwysig. Y brif egwyddor yw na ddylid gwrthod nac oedi triniaeth oherwydd ansicrwydd neu amwysedd ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am ariannu darpariaeth gofal iechyd unigolyn.

LLAIS A RHEOLAETH, TALIADAU UNIONGYRCHOL A GIP

- 5.50 Ar hyn o bryd, mae'n anghyfreithlon defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal iechyd y mae'r GIG yn gyfrifol am ei ddarparu. Fodd bynnag, nid yw'n anghyfreithlon i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i roi llais a rheolaeth i unigolion mewn perthynas â'u hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- 5.51 Rhaid i BILlau fod â mecanweithiau cadarn ar gyfer comisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion yr unigolyn, fel y nodir yn y cynllun asesu a gofal. Rhaid iddynt ystyried a chydbwyso dewisiadau'r unigolyn, barn ei deulu/cynrychiolydd/cynrychiolwyr a Cynllunio Gofal Cynaliadwy o fewn Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Polisi Gweithredol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru.
- 5.52 Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r BILI gydweithio ag ef. Er na fydd Taliadau Uniongyrchol yn gymwys mwyach os oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol, ni ddylai hyn olygu bod yr unigolyn yn colli ei lais, ei ddewis na'i reolaeth dros ei fywyd bob dydd.
- 5.53 Dylai BILlau ystyried amrywiaeth o opsiynau i sicrhau llais a rheolaeth i'r unigolyn, gan gynnwys y canlynol:

➤ Cynnal personél

Pan fydd unigolyn yn datblygu angen gofal iechyd sylfaenol, rhaid i'r bwrdd iechyd weithio i gynnal parhad personél sy'n darparu gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno i hyn ddigwydd ac y gall hyn gyfrannu at ddiwallu ei anghenion. Gallai'r bwrdd iechyd gyflogi staff (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), e.e. cynorthwyyr personol, a gyflogwyd yn flaenorol gan yr unigolyn o dan daliadau uniongyrchol.

➤ Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol

Gallai byrddau iechyd hefyd ystyried darparu cyllid i Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol, i reoli gofal unigolyn. Dyma sefyllfa lle mae perthynas i glaf neu rywun arall â diddordeb yn sefydlu ymddiriedolaeth sy'n dod yn ddarparwr gofal i'r unigolyn. Yna, mae'r BILI yn contractio â'r ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd penodedig i'r unigolyn.

- 5.54 Efallai y bydd amgylchiadau lle mae'n bosibl i unigolyn gadw rhywfaint o Daliad Uniongyrchol am yr elfennau o'i ofal y mae'r awdurdod lleol yn dal i fod yn gyfrifol amdanynt, e.e. cyfleoedd i gynhwysiant cymdeithasol. Rhaid i sefydliadau partner weithio gyda'i gilydd i archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i wneud y mwyaf o annibyniaeth unigolyn.
- 5.55 Cyhoeddir canllawiau pellach ar y mesurau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 5.56 Mae unigolyn sy'n cael Taliadau Uniongyrchol (neu unrhyw unigolyn) yn cadw'r hawl i wrthod cydsynio i asesiad GIP a/neu becyn gofal, fel y nodir yn **Adran 3**. Mewn achosion o'r fath, rhaid i asiantaethau partner gydweithio â'r unigolyn a'i deulu/gofalwyr i sicrhau bod y risgiau'n cael eu deall a'u lliniaru'n llawn cyn belled ag y bo modd. Os asesir bod person yn gymwys i gael GIP ond ei fod yn gwrthod pecyn gofal, gall fod effaith ar y ffordd y caiff ei ofal ei ddarparu. Ni ellir tybio'n awtomatig y bydd ALLau yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, gan y gallai hyn olygu eu bod yn gweithredu y tu allan i'w hawdurdod cyfreithiol.

Pan nad yw person yn gymwys i gael GIP

- 5.57 Os penderfynwyd nad yw person yn gymwys i gael GIP a bod angen pecyn gofal amgen arno (e.e. Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG mewn cartref gofal, neu becyn gofal ar y cyd yn y gymuned), yr awdurdod lleol fydd yn arwain y trefniadau rheoli gofal lleol fel arfer neu fel y cytunwyd rhwng asiantaethau. Bydd y GIG yn gweithio ochr yn ochr â'r awdurdod lleol i ddatblygu a gweithredu cynllun gofal priodol.
- 5.58 Ni ddylai'r cynllun gofal ei gwneud yn ofynnol i ALI ddarparu gwasanaethau y mae tu hwnt i'w bwerau i'w darparu. Fodd bynnag, ni all y BILI na'r awdurdod lleol orchymyn beth y gall y sefydliad arall ei ddarparu.
- 5.59 Ni ddylid bod unrhyw fwch yn y ddarpariaeth ofal. Ni ddylai pobl fod mewn sefyllfa lle na fydd y GIG na'r awdurdod lleol perthnasol (ar yr amod bod y person yn bodloni'r prawf modd perthnasol a bod ganddo anghenion sy'n berthnasol i feini prawf cymhwysedd priodol Mynediad Teg at Ofal) yn ariannu gofal, naill ai ar wahân neu gyda'i gilydd.
- 5.60 Dylid llunio cytundeb ysgrifenedig hefyd â'r unigolyn a/neu'i gynrychiolydd, sy'n nodi'n glir beth a gaiff ei gwmpasu gan arian y GIG, beth y gellir ei gael drwy'r awdurdod lleol yn amodol ar ei feini prawf cymhwysedd a beth fydd yr unigolyn yn gyfrifol amdano.

- 5.61 Dylai cyfrifoldebau clir am ariannu a gweithredu lywio, yn hytrach na rhwystro, unrhyw drefniadau a sefydlir ar y cyd o bosibl e.e. comisiynu arweiniol, cyllidebau cyfun.

PECYNNAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL AR Y CYD

- 5.62 Mae mwy a mwy o bobl ag anghenion gofal cymhleth yn cael cymorth yn y gymuned. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau wir yn seiliedig ar ganlyniadau, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cefnogi annibyniaeth ac nid yn cael ei arwain gan ddiagnosis, mae'n rhesymegol, lle y bo'n gynaliadwy, y caiff unigolion gymorth am gyfnod hwy yn y cartref gan ddefnyddio pecynnau gofal ar y cyd.
- 5.63 Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP ond bod ganddo rai anghenion o ran gofal iechyd a gofal cymdeithasol, dylai gael pecyn iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i deilwra i'w anghenion unigol. Er nad ydynt yn gymwys i gael GIP, bydd gan rai unigolion anghenion a aseswyd drwy'r ACP na all yr awdurdod lleol ei ddiwallu ar ei ben ei hun neu nad oes ganddo'r pwerau i'w diwallu ar ei ben ei hun. Felly dylai BILlau weithio mewn partneriaeth â'r ALI i gytuno ar eu priod gyfrifoldebau o fewn pecynnau gofal ar y cyd a sicrhau darpariaeth ddi-dor o ofal.
- 5.64 Fel mater o egwyddor, os oes gan unigolyn drefniadau Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd, dylai'r rhain barhau lle bynnag y bo modd ac am gyn belled ag y bo modd o fewn pecyn gofal ar y cyd wedi'i deilwra.

Cydariannu lleoliadau mewn cartrefi gofal

- 5.65 Os na fydd unigolyn yn gymwys i gael GIP ond bod ganddo anghenion iechyd sy'n wahanol i'r rhai a gefnogir gan Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG neu'n ychwanegol atynt, mae'n bosibl y bydd cyfrifoldeb ar y GIG o hyd i ddiwallu'r anghenion hynny fel rhan o becyn ar y cyd i'r graddau bod yr anghenion iechyd hyn y tu hwnt i bwerau'r awdurdod lleol i'w diwallu.
- 5.66 Efallai y bydd rhai unigolion mewn cartrefi gofal nad oes ganddynt angen iechyd sylfaenol sy'n awgrymu eu bod yn gymwys i gael GIP, ond cydnabyddir bod ganddynt fwy o anghenion nyrsio nag y byddai disgwyl i'r gyfradd Gofal Nyrsio a Ariennir dalu amdanynt fel arfer a mwy nag y gellir disgwyl yn rhesymol i ALI gomisiynu gofal ar eu cyfer. Ynghyd â'r Fframwaith hwn, mae [Cylchlythyr Iechyd Cymru \(2004\) 024 \(NHS Funded Nursing Care in Care Homes\)](#) yn datgan na ddylai fod unrhyw fwch rhwng darpariaeth awdurdodau lleol a darpariaeth y GIG.
- 5.67 Mae'r opsiynau sydd ar gael i BILlau i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldeb am ddarparu'r lefel ychwanegol hon o ofal iechyd yn cynnwys mewngymorth o wasanaethau craidd y GIG, neu gyfraniad ariannol ychwanegol at y pecyn ariannu cyflawn. Bydd angen i BILlau ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y ddau sefydliad yn gweithredu'n unol â'u dyletswydd statudol. Rhaid i'r trefniadau ariannu a'r cyfraniad gan yr awdurdod lleol y gellir codi tâl ar yr unigolyn amdano gael

eu cadarnhau'n ysgrifenedig gan yr asiantaeth arweiniol a'u rhannu â'r comisiynwyr, y darparwyr a'r defnyddiwr gwasanaeth a/neu'i gynrychiolydd.

5.68 Mae'r enghreifftiau o wasanaethau ychwanegol at ofal nyrsio a ariennir, a allai gael eu darparu gan y GIG os cytunir arnynt fel rhan o asesiad a chynllun gofal unigol, yn cynnwys (ymhlith eraill):

- gofal iechyd sylfaenol
- asesiadau sy'n cynnwys meddygon a nyrsys cofrestredig.
- adsefydlu ac ymadfer (pan fo hynny'n rhan o becyn gofal cyffredinol gan y GIG ar wahân i ofal canolraddol)
- gwasanaethau iechyd yn y gymuned
- gwasanaethau iechyd meddwl oedolion
- cymorth arbenigol o ran anghenion gofal iechyd
- cymorth ychwanegol ar gyfer anghenion uwch ysbeidiol mewn pecynnau gofal ar y cyd e.e. mewnbwn ychwanegol gan nyrs gofrestredig wrth gynnal asesiad rheoli ymddygiad/cynllunio gofal
- gofal lliniarol a gofal diwedd oes
- cludiant arbenigol (e.e. ambiwlansys)

Cydariannu pecynnau gofal a ddarperir yng nghartref unigolyn

5.69 Mae mwy o becynnau gofal cynyddol gymhleth yn cael eu darparu yng nghartrefi unigolion. Pan nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP y GIG, rhaid datblygu pecyn iechyd a gofal cymdeithasol cynhwysfawr ar y cyd sy'n diwallu'r anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a aseswyd ac yn cyflawni canlyniadau personol. Rhaid i'r pecyn hwn gael ei nodi'n glir mewn cynllun gofal rhyngasiantaethol, gyda chydgyssylltydd/gweithiwr proffesiynol enwebedig, a gaiff ei berchenogi ar y cyd gan gomisiynwyr, darparwyr a'r unigolyn a/neu'i gynrychiolydd.

5.70 Mae gan ALLau gyfrifoldeb i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

5.71 Penderfynir ar y trefniadau cydariannu yn lleol, yn unol ag anghenion a chanlyniadau'r unigolyn. Ymhlith yr opsiynau mae defnyddio matrices cydariannu neu drefniadau cyllidebu cyfun ffurfiol. Ni ddylai'r unigolyn orfod aros cyn iddo gael ei becyn gofal tra bod trefniadau ariannu yn cael eu negodi.

5.72 Dylid llunio cytundeb ysgrifenedig hefyd â'r unigolyn a/neu'i gynrychiolydd, sy'n nodi'n glir beth a gaiff ei ariannu gan y BILL, beth y gellir ei gael drwy'r awdurdod lleol yn amodol ar ei feini prawf cymhwysedd a'i ffioedd, a beth fydd yr unigolyn yn gyfrifol amdano.

ADOLYGIADAU (3 a 12 MIS)

Diben ac amllder adolygiadau

- 5.73 Dylai unrhyw becyn gofal, waeth sut y caiff ei ariannu, gael ei adolygu'n rheolaidd ar y cyd â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.
- 5.74 Dylid cynnal adolygiad cychwynnol o'r cynllun gofal cyn pen o leiaf 3 mis i'r gwasanaethau gael eu darparu am y tro cyntaf, oni chaiff ei sbarduno'n gynharach gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd neu'r darparwr. Ar ôl hynny, dylid cynnal adolygiadau o leiaf unwaith y flwyddyn. Os disgwylir i gyflwr unigolyn ddirywio, efallai y bydd angen cynnal adolygiadau mwy rheolaidd.
- 5.75 Dylai adolygiadau ddilyn yr un fformat ag asesiad ac ystyried yr holl wasanaethau a dderbynnir a dylid eu teilwra'n benodol i'r unigolyn.
- 5.76 Dylai'r adolygiadau hyn ganolbwyntio'n bennaf ar b'un a yw'r cynllun gofal neu'r trefniadau yn dal i fod yn briodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Y disgwyl yw na fydd angen ailasesu unigolyn i weld a yw'n gymwys i gael GIP yn y mwyafrif o achosion.
- 5.77 Os disgwylir i gyflwr unigolyn ddirywio, efallai y bydd angen cynnal adolygiadau mwy rheolaidd. Caiff amllder yr adolygiadau hyn ei bennu gan farn broffesiynol yn seiliedig ar anghenion asesedig yr unigolyn neu unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau. Dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa dan sylw er mwyn sicrhau y caiff amser ac adnoddau eu defnyddio'n effeithiol. Os oes dirywiad amlwg yn ei amgylchiadau, dylid cynnal adolygiadau o fewn pythefnos a dylid gweithredu arnynt ar unwaith.
- 5.78 Rhaid i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd a'r darparwr gwasanaeth gael manylion cyswllt cydgysylltydd enwebedig, fel y gellir ymdrin ar unwaith ag unrhyw newidiadau yng nghyflwr neu amgylchiadau'r unigolyn.
- 5.79 Dylid penderfynu ar amserlenni adolygu a rhoi gwybod i'r unigolyn a'i berthnasau amdanynt ar lafar ac yn ysgrifenedig. I'r rhai sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael adolygiad o ofal bob 12 mis o leiaf yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- 5.80 Dylai'r unigolyn fod yn ganolog i'r broses adolygu. Cyn yr adolygiad, dylid rhoi cyfle iddo ailasesu ei anghenion ei hun a dylid cynnig cymorth priodol iddo wneud hynny. Hefyd, bydd angen ystyried a ddylid cynnal asesiad gofalwr arall ar yr un pryd.
- 5.81 Dylai'r ACP mwyaf diweddar a gwblhawyd fod ar gael yn ystod yr adolygiad a dylid ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio i nodi unrhyw newid posibl o ran anghenion. Os bydd tystiolaeth glir bod anghenion wedi newid i'r fath raddau fel y gall effeithio ar

gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP, dylai'r BILI drefnu i ailasesiad llawn o gymhwysedd i gael GIP gael ei gynnal.

- 5.82 Os bydd angen ailasesu cymhwysedd i gael GIP, bydd yn rhaid i ACP newydd gael ei gwblhau gan dîm TA a ffurfiwyd yn briodol, fel y nodir yn y Fframwaith hwn. Rhaid i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd gael ei wahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod y TA fel y nodir yn **Egwyddor 7: Dim penderfyniadau amdanaf heb yn wybod i mi**. Lle y bo'n briodol, dylai hyn gynnwys cymhariaeth â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ACP blaenorol. Atgoffir Billau bod yn rhaid iddynt ymgynghori â'r ALI cyn gwneud penderfyniad ynghylch cymhwysedd, gan gynnwys unrhyw ailasesiad o gymhwysedd. Fel arfer, cyflawnir y ddyletswydd hon drwy gynnwys yr ALI ym mhroses y TA, fel y nodir yn yr adran o'r Fframwaith sy'n ymdrin ag Asesu Cymhwysedd (**Adran 4**). Dylai Billau sicrhau bod anghenion unigolyn yn parhau i gael eu diwallu yn ystod y broses o ailasesu cymhwysedd.
- 5.83 Os yw'r ALI hefyd yn gyfrifol am unrhyw ran o'r gofal, bydd yn ofynnol i'r BILI a'r ALI adolygu anghenion gofal a chymorth a sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni gan y darpariaethau sydd ar waith. O dan y fath amgylchiadau, byddai'n fuddiol cynnal adolygiad ar y cyd. Hyd yn oed os mai'r GIG sy'n gyfrifol am bob gwasanaeth, byddai'n fuddiol pe bai'r adolygiad yn cael ei gynnal ar y cyd gan y GIG a'r awdurdod lleol, yn enwedig os bydd angen mewnbwn gan y ddau sector i wneud penderfyniad sy'n effeithio ar GIP. Mewn rhai achosion, bydd rhaid cynnal adolygiadau amlach, yn unol â barn glinigol a newidiadau o ran anghenion.
- 5.84 Rhaid i unigolion sy'n cael Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG mewn cartref gofal gael adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhaid i'r BILI sicrhau bod gan yr unigolyn, ei deulu/cynrychiolydd a darparwr y cartref gofal y wybodaeth a'r manylion cyswllt sydd eu hangen i'w galluogi i sylwi ar unrhyw newidiadau o ran angen sy'n awgrymu ei bod yn bryd cynnal adolygiad.
- 5.85 Wrth adolygu'r angen am Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG, rhaid ystyried cymhwysedd posibl i gael GIP bob amser a dylid cynnal asesiad llawn, os oes angen.
- 5.86 Dylai darparwyr gofal sy'n monitro effeithiolrwydd eu gwasanaethau eu hunain gyfrannu'r wybodaeth hon at yr adolygiad o'r cynllun gofal cyflawn.
- 5.87 Dylai'r adolygiad gael ei gofnodi a dylai amlinellu:
- pwy fu'n rhan ohono
 - yr unigolion hynny nad oeddent yn rhan ohono a'r rhesymau dros hyn
 - y lleoliad
 - y dull adolygu
 - materion a godwyd gan yr unigolyn (neu'r gofalwr/eiriolwr).
- 5.88 Nid yw cyfrifoldeb y BILI i ddarparu neu gomisiynu gofal (gan gynnwys GIP) yn ddiderfyn oherwydd gall anghenion newid. Dylid egluro hyn i'r unigolyn a'i deulu neu

ofalwr yn ystod yr asesiad cychwynnol a phob adolygiad dilynol a dylid cadarnhau hynny'n ysgrifenedig hefyd. Dylai'r unigolyn a'r gofalwr neu'r cynrychiolydd gael y llyfryn 'Llyfryn Gwybodaeth Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr' ar ddechrau ei becyn gofal GIP.

Canlyniadau adolygiad

5.89 Bydd yr adolygiad yn penderfynu:

- a yw anghenion unigolyn yn cael eu diwallu'n briodol
- a ddylid ailystyried cymhwysedd drwy gynnal ailasesiad gan y TA ar gyfer GIP
- a yw anghenion yr unigolyn wedi newid, sydd wedyn yn penderfynu
- a oes angen diwygio'r pecyn gofal neu newid y cyfrifoldebau ariannu.

5.90 Nid oes rhaid i ganlyniad adolygiad fod yr un fath â chanlyniad adolygiad blaenorol, ar yr amod y cafodd yr asesiad blaenorol ei gynnal yn briodol a bod y penderfyniad wedi'i wneud ar sail rhesymau cadarn.

5.91 Dylid defnyddio gwybodaeth yr adolygiad i lywio cynllun gofal yr unigolyn. Dylid drafftio copi o'r adolygiad a chynllun gofal, cytuno arno a'i roi i'r defnyddiwr gwasanaeth. Yn amodol ar gyfyngiadau o ran cyfrinachedd, dylid hefyd rannu canfyddiadau'r adolygiad a newidiadau i'r cynllun gofal â'r rhai sy'n gysylltiedig â gofal yr unigolyn.

5.92 Os nad yw'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, perthynas neu ofalwr yn fodlon ar y cynllun gofal a ddatblygwyd, bydd angen iddynt godi'r mater â'r sawl sy'n gyfrifol amdano yn gyntaf. Gall ofyn am ailasesiad o'i anghenion ac adolygiad o'r cynllun gofal. Os bydd yn dal i fod yn anfodlon, bydd angen iddo ystyried defnyddio'r broses gwyno.

5.93 Nid yw Panel Adolygu Annibynnol GIP (gweler **Adran 7**) yn adolygu cynnwys cynlluniau gofal, dim ond y broses benderfynu a ddilynir wrth gymhwyso'r dull angen iechyd sylfaenol.

5.94 Ni ellir rhoi terfyn ar wasanaethau heb fod ailasesiad llawn yn cael ei gynnal mewn cyfarfod ffurfiol y TA.

5.95 Rhaid hysbysu darparwyr, yn nogfennau'r contract, am eu cyfrifoldebau i roi gwybod i'r corff ariannu am unrhyw ddirywiad amlwg neu unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar ofal.

5.96 Ni ddylai'r BILL na'r ALL dynnu'n ôl o drefniant ariannu sydd ar waith heb gynnal ailasesiad ar y cyd o'r unigolyn a heb ymgynghori â'i gilydd a'r unigolyn yn gyntaf ar y newid arfaethedig i'r trefniant. Felly, er mwyn sicrhau parhad gofal, os bydd newid o ran cymhwysedd yr unigolyn i gael GIP, mae'n hanfodol y cytunir ar drefniadau ariannu amgen ac y cânt eu rhoi ar waith **cyn** i drefniadau ariannu presennol gael eu diddymu. Dylai'r sefydliad sy'n cynnig gwneud newid o'r fath hysbysu'r unigolyn am y

newid arfaethedig yn ysgrifenedig. Os na all pawb gytuno ar y newid arfaethedig, dylid defnyddio'r gweithdrefnau anghydfod lleol (**gweler Adran 7**) a dylai'r trefniadau ariannu cyfredol barhau ar waith hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys.

- 5.97 Dylid ystyried y risgiau a'r manteision i'r unigolyn sy'n gysylltiedig â newid lleoliad neu gymorth (gan gynnwys arian) yn ofalus cyn cadarnhau unrhyw newid. Ni ddylai'r BILI na'r awdurdod lleol dynnu'n ôl o drefniant i ariannu pecyn sydd eisoes ar waith nes i ailasesiad priodol gael ei gynnal a chyfrifoldebau ariannu yn y dyfodol gael eu cytuno a nes i unrhyw drefniadau ariannu amgen gael eu rhoi ar waith. Rhoddir manylion pellach am gyfrifoldeb yn ystod newidiadau (gan gynnwys dulliau o ymdrin anghydfodau) yn **Adran 7**.

ADRAN 6

CYSYLLTIADAU Â PHOLISIÂU ERAILL A MEYSYDD YMARFER ARBENIGOL

Cysylltiadau â Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Gwasanaethau Ôl-ofal

- 6.1 O dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Deddf 1983) mae dyletswydd ar awdurdodau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu neu drefnu gwasanaethau ôl-ofal i unigolion sydd wedi cael eu cadw o dan rai o ddarpariaethau penodol Deddf 1983, hyd nes eu bod yn fodlon nad oes angen y cyfryw wasanaethau ar y person mwyach. Fodd bynnag, dylid cofio y gall rhai pobl fod yn gymwys i gael gofal a chymorth o dan GIP ac Adran 117.
- 6.2 Mae Adran 117 yn ddyletswydd ar y cyd annibynnol. Dylai byrddau iechyd lleol (BILI) ac awdurdodau lleol (ALLau) ddatblygu protocolau er mwyn helpu i nodi eu priod gyfrifoldebau ar gyfer darparu ôl-ofal o dan Adran 117 (gweler, er enghraifft, God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983, pennod 31). Felly, nid yw'r Fframwaith hwn yn ceisio darparu canllawiau ychwanegol ar y mater hwn, ond mae'n canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng Adran 117 a chymhwysedd i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG.
- 6.3 Rhennir y cyfrifoldeb am ddarparu ôl-ofal o dan Adran 117 rhwng ALLau a'r BILlau, er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r cyfrifoldeb fod wedi'i rannu'n gyfartal rhyngddynt ym mhob achos. Pan fo claf yn gymwys i gael gwasanaethau o dan Adran 117 dylid darparu'r rhain o dan Adran 117 ac nid o dan GIP.
- 6.4 Ystyrir bod pawb sy'n ddarostyngedig i Adran 117 yn cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd fel y'u diffinnir o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (y Mesur) ac felly bydd ganddynt Gydgyssylltydd Gofal a Chynllun Gofal a Thriniaeth (CGTh) rhagnodedig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o'r Mesur yn cynnwys canllawiau manwl ar gynllunio Gofal a Thriniaeth.
- 6.5 Ni ellir codi tâl am wasanaethau a ddarperir o dan Adran 117 o Ddeddf 1983, boed y rheini'n cael eu darparu gan BILlau neu gan ALLau. Fel y cyfryw, nid oes angen ystyried a ddylai gwasanaethau fod yn wasanaethau 'am ddim' a ddarperir o dan y GIG yn hytrach na gwasanaethau y gellid codi tâl amdanynt. Nid yw'n briodol asesu cymhwysedd i gael GIP os caiff yr holl wasanaethau dan sylw eu darparu fel ôl-ofal o dan Adran 117.

- 6.6 Fodd bynnag, efallai bod gan unigolyn sy'n cael gwasanaethau ôl-ofal o dan Adran 117, anghenion ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig â'i anhwylder meddyliol. Er enghraifft, gall unigolyn fod yn cael gwasanaethau o dan Adran 117 a datblygu anghenion corfforol ar wahân, er enghraifft ar ôl cael strôc, a all olygu wedyn ei fod yn gymwys i gael GIP neu Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG.
- 6.7 Mewn achosion o'r fath, mae'r dull cyffredinol a nodir yn y Fframwaith hwn o ystyried holl anghenion unigolyn wrth asesu a yw'n gymwys i gael GIP yn gymwys o hyd. O ganlyniad, efallai y caiff y gwasanaethau sydd eu hangen ar yr unigolyn i ddiwallu ei holl anghenion gofal eu hariannu gan y GIG, ond nid yw hyn o reidrwydd yn dileu'r ddyletswydd ar y cyd o dan Adran 117. Bydd y ddyletswydd ar y cyd o dan Adran 117 yn dal i fod yn gymwys oni fydd asesiad ar y cyd a chytundeb gan yr ALI a'r BILI yn nodi nad oes angen y trefniadau hynny mwyach.
- 6.8 Os bydd unigolyn sy'n cael gwasanaethau o dan Adran 117 yn datblygu anghenion gofal corfforol o ganlyniad i gyflwr sy'n dirywio'n gyflym nes y gall fod yn derfynol (neu ddigwyddiad iechyd trychinebus lle mae'n amlwg bod angen GIP), dylid ystyried defnyddio'r Adnodd Llwybr Carlam.
- 6.9 Os bydd unigolyn yn cael ei ryddhau o drefniadau Adran 117, bydd angen ystyried cymhwysedd i gael GIP neu ofal nyrsio a ariennir os bydd yr asesiad a'r cynllun pontio yn awgrymu y gallai fod angen gwasanaethau newydd neu wasanaethau eraill.
- 6.10 Dylid darparu gwybodaeth i'r unigolyn a'i gynrychiolydd am yr effaith y gallai penderfyniad i'w ryddhau o drefniadau Adran 117 ei chael ar ei amgylchiadau ariannol.

TREFNIADAU DIOGELU WRTH AMDDIFADU O RYDDID

- 6.11 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i unigolyn nad oes ganddo alluedd a lle bo trefniadau gofal yn ei amddifadu o'i ryddid. Nid yw'r ffaith y ceisir awdurdodiad cyfreithiol neu bod awdurdodiad o'r fath mewn grym mewn perthynas ag amddifadu o ryddid neu alluedd yn effeithio ar y broses o ystyried p'un a yw'r unigolyn hwnnw'n gymwys i gael GIP. Cyflwynwyd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (Liberty Protection Safeguards) yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a byddant yn disodli'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ym mis Ebrill 2022. Rhaid i BILLau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd hon pan fydd mewn grym.
- 6.12 Os yw unigolyn yn cael GIP ac nad oes ganddo alluedd meddyliol i gydsynio i'w lety, na'i drefniadau gofal a chymorth, rhaid i'r BILI sicrhau bod y trefniadau a gomisiynir ganddo yn gyfreithlon a'u bod yn cydymffurfio â darpariaethau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

TROSGLWYDDO O DDARPARIAETH I BLANT A PHOBL IFANC I DDARPARIAETH I OEDOLION

- 6.13 Dylid defnyddio'r Fframwaith hwn i benderfynu ar gymhwysedd i gael GIP a pha wasanaethau y dylai pobl 18 oed neu drosodd eu cael gan y GIG. Dylai'r Fframwaith gael ei ddefnyddio ar y cyd â [Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc \(2020\)](#) a'r polisi gweithredol ar Gynllunio Gofal Cynaliadwy o fewn Gofal Iechyd Parhaus y GIG i fyrddau iechyd lleol (2012) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Mae'r egwyddorion allweddol ar gyfer pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion i bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ([canllawiau NICE, 2016](#)) ac maent yn cefnogi arferion gorau sy'n gymwys hefyd i bobl ifanc ag anghenion gofal parhaus.
- 6.14 Mae'r ddeddfwriaeth a phriod gyfrifoldebau'r GIG, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn wahanol o ran gwasanaethau Plant a Phobl ifanc, a gwasanaethau Oedolion. Mae'r term 'gofal parhaus' yn golygu pethau gwahanol yn achos gwasanaethau Plant a Phobl ifanc a gwasanaethau Oedolion hefyd. Cyhoeddwyd y Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc ym mis Ionawr 2020. Mae'r canllawiau hynny'n gymwys i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion iechyd yn golygu bod angen pecyn gofal parhaus amlasiantaethol penodol arnynt na all gwasanaethau cyffredinol na gwasanaethau arbenigol sy'n bodoli eisoes ei ddarparu. Er y bydd y prif reswm dros becyn o'r fath yn deillio o anghenion iechyd y plentyn neu'r person ifanc, mae'n debygol y bydd angen darpariaeth gwasanaethau amlasiantaethol arno sy'n cynnwys mewnbwn gan y sector addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac weithiau eraill. Mae GIP i oedolion yn cyfeirio at becyn gofal a drefnir ac ariennir gan y GIG yn unig ar gyfer yr unigolion hynny yr aseswyd bod ganddynt angen iechyd sylfaenol. Y BILI fydd yn gyfrifol am ddiwallu unrhyw anghenion addysgol parhaus o hyd.
- 6.15 Mae'n bwysig bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael help i ddeall hyn a'r goblygiadau wrth ddechrau cynllunio'r broses bontio.
- 6.16 Er bod y gwasanaethau a ddarperir ac ystyr y term 'gofal iechyd parhaus' yn wahanol cyn ac ar ôl 18 oed, ni fydd anghenion yr unigolyn yn newid yn awtomatig am ei fod wedi cyrraedd 18 oed. Waeth beth fo'u hoedran, rhaid i unigolion ag anghenion cymhleth gael eu hadolygu a'u hasesu'n barhaus er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dylai'r broses asesu ac adolygu barhau drwy gydol y cyfnod pontio.
- 6.17 Mae pontio yn gallu peri pryder i blant, eu rhieni a'u gofalwyr. Pan fydd rhai pobl ifanc yn symud o wasanaethau CYP i wasanaethau oedolion, byddant yn ansicr ynghylch y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt yn y dyfodol a hefyd yn colli incwm oherwydd

newidiadau i fudd-daliadau. Rhaid i bob BILI lunio polisi pontio lleol cadarn gyda'i asiantaethau partner.

- 6.18 Rhaid nodi trefniadau pontio â cherrig milltir allweddol mewn cynlluniau gofal a rhaid i BILlau weithio gyda'u partneriaid a'r person ifanc a'i deulu/gofalwr i gytuno ar broses er mwyn pontio o wasanaethau CYP i wasanaethau oedolion.
- 6.19 Rhaid i'r holl asiantaethau partner sicrhau bod ymarferwyr â sgiliau a gwybodaeth briodol ar gael i gyfrannu at y broses asesu a chynllunio gofal. Bydd pa ymarferwyr sy'n briodol yn dibynnu ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc.
- 6.20 Rhaid i'r gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion GIP ddechrau pan fydd yr unigolyn ifanc yn 14 oed lle bo'r angen eisoes wedi'i nodi neu gyn gynted â phosibl, os bydd problemau'n codi y bydd angen gofal parhaus ar eu cyfer, ar ôl hynny. Rhaid penodi gweithiwr proffesiynol arweiniol a gaiff ei gynorthwyo gan bob asiantaeth gysylltiedig. Y person hwn fydd y Cydgysylltydd Pontio a'r prif gyswllt ar gyfer yr unigolyn a'i deulu. Disgwylir i bartneriaid gydweithio er mwyn diffinio rôl a chyfrifoldebau'r Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol/Cydgysylltydd Pontio a chytuno arnynt.
- 6.21 Dylid darparu cymorth i unigolion yn ystod y broses bontio fel mater o drefn hyd at 19 oed, ond mewn rhai achosion efallai y bydd angen darparu cymorth hyd nes y byddant yn 25 oed, er enghraifft, gall awdurdodau lleol ddarparu cymorth i berson ifanc sy'n gadael gofal, y gall fod angen cymorth byw/emosiynol parhaus arno.
- 6.22 Pan fydd y person ifanc yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed, dylid cynnal atgyfeiriad ffurfiol ar gyfer sgrinio at y tîm GIP oedolion priodol. Pan fydd unigolion yn 17 oed, mewn egwyddor, y BI perthnasol a ddylai benderfynu ar gymhwysedd i gael GIP, gan gofio, mewn achosion cymhleth, y gall anghenion newid yn ystod blwyddyn. Bydd angen i dimau amlddisgyblaethol lleol ddefnyddio eu barn broffesiynol ynglŷn ag amseriad yr asesiad a'r adolygiad, er mwyn sicrhau y gellir cynllunio a chomisiynu pecynnau gofal effeithiol erbyn pen-blwydd yr unigolyn yn 18 oed. Os bydd anghenion yn debygol o newid, gall fod yn briodol gwneud penderfyniad dros dro ac yna ei gadarnhau cyn ailadrodd y broses wrth i'r person ifanc droi'n oedolyn.
- 6.23 Hyd yn oed os nad yw person ifanc yn gymwys i gael gwasanaethau GIP oedolion, y GIG fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar gyfer anghenion iechyd. O dan y fath amgylchiadau, dylai BILlau barhau i chwarae rhan lawn wrth gynllunio proses bontio'r person ifanc, a dylent sicrhau y darperir gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion hyn. Dylai pawb gytuno ar y ffocws a dylid ystyried dewisiadau'r unigolyn.
- 6.24 Nod allweddol yw sicrhau bod pecyn cymorth cyson, a gynlluniwyd ar y cyd ac y cytunwyd arno gan yr unigolyn ifanc a'i ofalwyr, yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar angen a aseswyd. Gall natur y pecyn newid am fod anghenion neu amgylchiadau'r person ifanc yn newid. Fodd bynnag, ni ddylai o reidrwydd newid dim ond am fod y person ifanc wedi symud o wasanaethau CYP i wasanaethau oedolion neu am fod y

sefydliad sy'n gyfrifol am gomisiynu neu ariannu wedi newid. Pan fo angen newid, dylid gwneud hynny'n raddol gan ymgynghori'n llawn â'r person ifanc a'i deulu. Ni ddylid tynnu unrhyw wasanaethau nac arian yn ôl oni bai bod asesiad llawn wedi'i gynnal o'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

- 6.25 Dylai'r gwasanaethau a ddarperir gael eu teilwra i'r unigolyn a gellir cael gafael arnynt o gyfuniad o ffynonellau, gan gynnwys gwasanaethau craidd (e.e. gofal sylfaenol, nyrsys ardal, gwasanaethau cymdeithasol), gwasanaethau arbenigol (e.e. iechyd meddwl, anabledd dysgu, lleoliadau addysgol preswyl) yn ogystal ag elfennau o'r pecyn a ariennir gan yr unigolyn. Mae cymhlethdod posibl y pecyn yn golygu ei bod yn hanfodol i'r gweithiwr proffesiynol arweiniol dynodedig gydgysylltu'r gofal yn effeithiol. Rhaid i'r unigolyn a'i deulu gael cynllun gofal amlasiantaethol manwl a gynlluniwyd ar y cyd, sy'n nodi pa wasanaethau a gaiff eu darparu gan bwy, gan gynnwys trefniadau ariannu.
- 6.26 Rhaid i'r goblygiadau ariannol i'r person ifanc a'i deulu, gan gynnwys unrhyw newidiadau i fudd-daliadau neu ffynonellau ariannu eraill fel Taliadau Uniongyrchol, gael eu hesbonio'n glir cyn gynted â phosibl. Dylai dewisiadau o ran llety a byw'n annibynnol eu hystyried yn llawn, a dylid esbonio hawliau ac opsiynau'n glir. Rhaid i'r cynllun gofal gynnwys cymorth i ofalwyr, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 6.27 Ni ddylai'r person ifanc na'i deulu/gofalwyr orfod aros cyn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt tra bod ffynonellau ariannu'n cael eu negodi. Dylai asiantaethau partner ystyried adnoddau ar y cyd/cyfun, gan gynnwys trefniadau cyllidebu, er mwyn sicrhau y caiff y gofal cywir ei ddarparu ar yr adeg gywir.
- 6.28 Mae perygl y gall teilwra pecynnau gofal cynhwysfawr (boed yn becynnau GIP neu'n becynnau a ariennir ar y cyd) i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth beri i deuluoedd deimlo eu bod yn cael eu gorlwytho gan nifer y bobl gysylltiedig. Gellir lleihau'r perygl hwn gryn dipyn drwy gydgysylltu gofal, penodi gweithiwr proffesiynol arweiniol gweithgar, a chyfathrebu'n effeithiol.
- 6.29 Er mwyn parhau i ddarparu cymorth effeithiol i'r nifer gynyddol o bobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n symud i wasanaethau oedolion, disgwylir i asiantaethau partner a darparwyr rannu gwybodaeth a chydweithio i lenwi unrhyw fylchau a ddaw i'r amlwg o ran sgiliau a gwasanaethau. Gall enghreifftiau gynnwys datblygu gweithlu (cofrestredig ac anghofrestredig) sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau er mwyn cefnogi pobl ifanc ac oedolion sydd â chyfuniad o anghenion corfforol, iechyd meddwl a dysgu, a datblygu datganiadau ar sefyllfa'r farchnad er mwyn dod â darpariaeth breswyl yn nes at adref.
- 6.30 Caiff cydymffurfiaeth â'r canllawiau ar bontio ei hasesu drwy Fframwaith Rheoli Perfformiad GIP.

CYMHWYSO FFRAMWAITH GIP I OEDOLION AG ANABLEDDAU DYSGU

- 6.31 Mae'r '[Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu](#)', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007, yn nodi'r egwyddorion, nodau, ymatebion a chanlyniadau sy'n ddymunol ym marn Llywodraeth Cymru. Dyma canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac maent yn dal i fod yn berthnasol heddiw.
- 6.32 Yn 2017, cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau anableddau dysgu i nodi meysydd lle gellid gweithredu i adeiladu ar arferion da yng Nghymru, gan fabwysiadu dull hyd oes ac ystyried pob un o'r prif feysydd gwasanaeth. Arweiniodd yr adolygiad hwn at Raglen Waith Gwella Bywydau Anabledd Dysgu sy'n cynnwys 24 o argymhellion sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau mewn pum maes allweddol: Blynyddoedd Cynnar; Tai; Gofal Cymdeithasol; Iechyd; ac Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth (Mehefin 2018)'.
- 6.33 Disgwylir i bartneriaethau gydweithio er mwyn sicrhau bod anghenion y ceir tystiolaeth ohonynt yn cael eu diwallu'n briodol. Dylai pecynnau gofal gael eu datblygu yn unol â Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 pan fydd mewn grym, a'r egwyddorion hirsefydlog, [The Origins of Person-Centered Planning](#):
- a. Presenoldeb Cymunedol
 - b. Cydberthnasau a Phartneriaethau
 - c. Dewis
 - d. Cymhwysedd
 - e. Parch a Statws
 - f. Unigoliaeth a Pharhad
- 6.34 Mae llawer o unigolion ag anabledd dysgu eisoes yn byw mewn cyfleusterau byw â chymorth. Er mwyn sicrhau parhad a sefydlogrwydd i'r unigolyn, rhaid dewis pecynnau gofal ar y cyd sy'n defnyddio staff y mae'n gyfarwydd â hwy, a ategir gan ymatebion iechyd a gofal cymdeithasol hyblyg, pan fo'r pecynnau hynny'n ddiogel o safbwynt clinigol a chymdeithasol. Bydd y trefniadau ariannu yn newid unwaith yr asesir bod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol (**gweler Adran 4**) ond dylid sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar yr unigolyn.
- 6.35 Ym mhob achos dylai penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael GIP fod yn seiliedig ar asesiad amlddisgyblaethol o ansawdd da. Bydd yn bwysig cynnwys pob gweithiwr proffesiynol sy'n adnabod yr unigolyn ac sy'n ymwneud ag ef. Y cwestiwn yw nid p'un a yw anabledd dysgu yn angen iechyd ond, yn hytrach, p'un a oes gan yr unigolyn dan sylw, waeth pa grŵp cleientiaid y mae'n perthyn iddo, 'angen iechyd sylfaenol'.
- 6.36 Mae dyletswydd ar ddarparwyr cyffredinol y GIG a darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i sicrhau bod eu staff yn meddu ar y sgiliau cynhwysol sydd eu hangen i asesu a chynorthwyo pobl ag anableddau dysgu. Ni ddylai mynediad at ofal fod yn gyfyngedig i wasanaethau anabledd dysgu arbenigol.

- 6.37 Pan fo unigolyn yn arddangos ymddygiadau sy'n herio, disgwylir y bydd y TA wedi cynnal yr asesiad priodol er mwyn ceisio canfod yr achos

HAWL I GAEL GOFAL ARALL A ARIENNIR GAN Y GIG

- 6.38 Mae hawl gan y rhai sy'n cael GIP i ddefnyddio'r ystod lawn o wasanaethau iechyd sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau eilaidd a gwasanaethau iechyd eraill o hyd waeth beth fo'r lleoliad gofal.
- 6.39 Dylai BILlau sicrhau bod eu trefniadau contractio â chartrefi gofal sy'n darparu gofal nyrsio yn cadarnhau priod gyfrifoldebau nyrsys y cartref gofal a gwasanaethau nyrsio yn y gymuned. Ni ddylai fod unrhyw fwlch mewn gwasanaethau rhwng y ddau sector hyn (**gweler Adran 5**).

CYFARPAR CYMUNEDOL

- 6.40 Pan fo unigolion yn cael GIP a bod angen cyfarpar arnynt i ddiwallu eu hanghenion gofal, gellir trefnu hyn mewn sawl ffordd.
- 6.41 Os yw, neu os bydd, yr unigolyn yn cael cymorth mewn cartref gofal, gellir disgwyl i'r cartref gofal ddarparu cyfarpar penodol fel rhan o'r safonau rheoliadol neu fel rhan o'r contract â'r BILl. Fel arfer, dylai'r cartref gofal ddarparu cyfarpar a all gael ei ddefnyddio neu sy'n cael ei ddefnyddio gan nifer o breswylwyr h.y. cyfarpar nad yw wedi'i ragnodi ar gyfer unigolyn. Dylai'r BILl ddarparu cyfarpar sydd wedi'i ragnodi'n benodol ar gyfer unigolyn ac na ddylai gael ei ddefnyddio gan breswylwyr eraill.
- 6.42 Gall BILlau ddewis cyfrannu at y trefniadau ariannu cyfun a'r bartneriaeth ffurfiol sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwasanaethau cyfarpar cymunedol er mwyn prynu a rheoli cyfarpar GIP, fel eu bod yn cael budd o drefniadau caffael sydd eisoes ar waith. Fel arall, os bydd BILlau yn prynu cyfarpar GIP ar wahân, dylent ystyried llunio cytundeb â'r storfa ar y cyd i reoli'r cyfarpar hwn er mwyn sicrhau bod trefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw priodol ar waith. Os bydd y BILl yn dilyn trefniadau cwbl ar wahân o ran cyfarpar GIP, rhaid iddo roi systemau ar waith i olrhain cyfarpar, ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu, a'i adalw a'i adnewyddu pan na fydd ei angen mwyach.
- 6.43 Dylai BILlau sicrhau eu bod yn dangos yn glir pa rai o'r trefniadau uchod sy'n gymwys ym mhob achos unigol.

ADRAN 7

ANGHYDFODAU AC APELIADAU

ANGHYDFODAU RHWNG SEFYDLIADAU

Egwyddorion

- 7.1 Dylid cofio mai'r BILI sy'n gyfrifol am benderfynu a yw unigolion yn gymwys i gael GIP ai peidio, a gall y BILI wneud ei benderfyniad cyn i anghytundeb rhyngasiantaethol gael ei ddatrys. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau proses datrys anghydfodau ffurfiol ar ôl i'r BILI roi ei benderfyniad i'r unigolyn.
- 7.2 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i BILlau a'u partneriaid gydweithio er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion Cymru.
- 7.3 Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai BILlau ac ALLau leihau'r angen i ddefnyddio gweithdrefnau datrys anghydfodau rhyngasiantaethol ffurfiol drwy waith partneriaeth effeithiol, integreiddio a rhoi'r Fframwaith hwn ar waith.
- 7.4 Yn y lle cyntaf, os na all y TA gytuno ar gymhwysedd i gael GIP, dylai uwchgyfeirio'r anghydfod at y rheolwyr priodol a threfnu adolygiad gan gymheiriaid o'r tu mewn i'w BILI neu'r tu allan iddo. Dylai hyn ddigwydd o fewn 2 ddiwrnod gwaith fel arfer.
- 7.5 Os bydd trafodaeth aeddfed mewn partneriaeth, gan gynnwys arbenigedd rheolwyr/arbenigedd clinigol ac adolygiad gan gymheiriaid, wedi methu â sicrhau consensws, bydd angen dechrau'r broses datrys anghydfodau ffurfiol.
- 7.6 Pan fo anghydfodau yn ymwneud ag ALLau a BILlau mewn ardaloedd daearyddol gwahanol, fel arfer dylid defnyddio proses datrys anghydfodau'r BILI cyfrifol er mwyn sicrhau y cânt eu datrys yn llwyr ac yn amserol.

Protocolau

- 7.7 Dylai fod gan BILlau ac ALLau weithdrefnau/protocolau lleol y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer ymdrin ag unrhyw anghydfodau ffurfiol ynghylch
 - cymhwysedd i gael GIP a/neu ddyrannu arian mewn pecynnau gofal a ariennir ar y cyd.
 - pan nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP:
 - cyfraniad y naill barti a'r llall at becyn gofal ar y cyd

- y ffordd y rhoddir canllawiau ar ad-daliadau ar waith
- 7.8 Dylai'r protocolau hyn nodi'n glir sut mae'r BILL yn cyflawni ei ddyletswydd i ymgynghori â'r ALI a sut mae'r ALI yn cyflawni ei ddyletswydd i gydweithio â'r BILL. **(Gweler Adran 1).**
- 7.9 Dylai BILLau ac ALLau gynnal diwylliant o waith partneriaeth go iawn ym mhob agwedd ar GIP. Dylent sicrhau bod penderfyniadau ar gymhwysedd yn seiliedig ar asesiadau trylwyr a manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghenion yr unigolyn. Ni ddylid byth gadael unigolion heb gymorth priodol tra bod anghydfodau rhwng cyrff statudol ynghylch cyfrifoldebau ariannu yn cael eu datrys. Dylid sicrhau eu bod wrth wraidd y broses bob amser a dylid mabwysiadu dull o wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 7.10 Os oes cyfle i ddatrys anghydfodau rhyngasiantaethol dylid ei ystyried a manteisio arno cyn gynted â phosibl ac, os oes modd, ar gam anffurfiol. Dylid datrys unrhyw anghydfodau go iawn mewn modd proffesiynol heb dynnu'r unigolyn dan sylw i mewn i'r drafodaeth neu geisio ennill cefnogaeth yr unigolyn i safbwynt y naill weithiwr proffesiynol neu'r llall.
- 7.11 Mae ymarferwyr ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn cael hyfforddiant ar y cyd o ansawdd uchel (h.y. iechyd a gofal cymdeithasol) sy'n cyfleu negeseuon cyson am y ffordd gywir o gymhwyso'r Fframwaith.
- 7.12 Ni ddylai anghydfodau beri oedi cyn darparu gofal a dylai'r protocol ddangos yn glir sut y caiff arian ei ddarparu tra bod yr anghydfod yn cael ei ddatrys. Os bydd anghydfodau'n ymwneud â'r GIG ac ALLau mewn ardaloedd daearyddol gwahanol, dylai'r corff GIG a'r ALI perthnasol gytuno ar broses datrys anghydfod er mwyn sicrhau y caiff y mater ei ddatrys yn amserol. Dylai hyn gynnwys cytundeb ar sut y caiff arian ei ddarparu yn ystod yr anghydfod, a threfniadau i ad-dalu'r sefydliadau perthnasol ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys.
- 7.13 Caiff holl gamau'r weithdrefn anghydfod eu cwblhau o fewn pedair wythnos fel arfer. Caiff pob cam ei ddogfennu'n briodol.

Beth y dylai protocol ei gynnwys?

- 7.14 Wrth ddatblygu protocolau rhyngasiantaethol lleol ar gyfer datrys anghytundebau ac anghydfodau a chytuno arnynt, dylai BILLau ac ALLau gwmpasu'r elfennau canlynol:
 - Crynodeb byr o egwyddorion sy'n cynnwys ymrwymiad i weithi mewn partneriaeth ac mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
 - Gwahanol ddyletswyddau'r BILLau a'r ALLau i ymgynghori â'i gilydd. Dylai hyn gynnwys trefniadau ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw'r awdurdod lleol wedi chwarae rhan yn y TA ac yn y broses o lunio'r argymhelliad.

- Cam 'anffurfiol' ar lefel weithredol lle y gellir datrys anghydfodau ynghylch yr argymhelliad cywir ynglŷn â chymhwysedd i gael GIP - gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ymgynghori â rheolwyr perthnasol yn union ar ôl cyfarfod y TA er mwyn gweld a ellir dod i gytundeb. Gallai'r cam hwn gynnwys ceisio rhagor o wybodaeth/eglurhad pellach o ran ffeithiau'r achos neu'r dehongliad cywir o'r Fframwaith hwn.
- Cam ffurfiol o ddatrys anghydfodau ynghylch argymhellion ynglŷn â chymhwysedd i gael GIP sy'n cynnwys rheolwyr a/neu ymarferwyr sydd ag awdurdod dirprwyedig i geisio datrys yr anghydfod ac a all wneud penderfyniadau ar gymhwysedd. Gallai'r cam hwn gynnwys atgyfeirio'r anghydfod at banel GIP rhyngasiantaethol.
- Os bydd yr anghydfod yn dal heb ei ddatrys, gall y cytundeb datrys anghydfodau gynnig camau pellach o uwchgyfeirio anghydfodau at uwch reolwyr o fewn y sefydliadau perthnasol.
- Cam terfynol sy'n cynnwys gwasanaeth cyflafareddu annibynnol. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r cam hwn ac anaml y bydd angen gwneud hynny, os o gwbl. Dim ond uwch reolwyr o fewn y sefydliadau perthnasol a all ddechrau'r broses hon a rhaid iddynt gytuno sut y caiff y gwasanaeth cyflafareddu ei gaffael, ei drefnu a'i ariannu.
- Amserlenni clir ar gyfer pob cam.
- Cytuno at sut y caiff y lleoliad a/neu'r pecyn ar gyfer yr unigolyn ei ariannu tra'n aros am ganlyniad y broses datrys anghydfodau a'r trefniadau ar gyfer ad-dalu'r asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r achos ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys. Ni ddylid byth gadael unigolion heb gymorth priodol tra bod anghydfodau rhwng cyrff statudol ynghylch y cyfrifoldeb ariannu yn cael eu datrys.
- Trefniadau ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd drwy gydol y broses datrys anghydfodau.
- Trefniadau os bydd unigolyn sy'n gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad ar gymhwysedd i gael GIP a wnaed gan y BILI.

APELIADAU GAN UNIGOLION YN ERBYN PENDERFYNIADAU AM GYMHWYSEDD

- 7.15 Y BILI sydd â chyfrifoldeb ffurfiol am hysbysu unigolion am y penderfyniad ar eu cymhwysedd i gael GIP a'u hawl i ofyn am apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw. P'un a ystyrir bod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol ai peidio, rhaid i'r BILI roi rhesymau clir dros ei benderfyniad, gan nodi'r sail dros wneud y penderfyniad, ac esbonio'r trefniadau a'r amserlenni ar gyfer ymdrin ag adolygiad o benderfyniad ynghylch cymhwysedd os bydd yr unigolyn neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran yn anghytuno ag ef.
- 7.16 Os bydd unigolyn neu ei gynrychiolydd yn anghytuno â'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael GIP neu ofal nyrsio a ariennir gan y GIG, a'i fod yn bwriadu apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, rhaid iddo roi gwybod i'r BILI perthnasol o'i fwriad i apelio o fewn 28 diwrnod i dderbyn y llythyr penderfyniad.

- 7.17 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i apelio yn erbyn penderfyniad y tu allan i'r cyfnod o 28 diwrnod.
- 7.18 Rhaid i'r unigolyn gyflwyno ei apêl ysgrifenedig i'r BILI perthnasol o fewn 6 mis i'r adeg y cafodd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd ei hysbysu am y penderfyniad hwnnw. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yr ystyrir ceisiadau a wneir ar ôl y cyfnod hwn.
- 7.19 Caiff unigolyn neu ei gynrychiolydd apelio i'r BILI perthnasol os bydd yn anfodlon ar:
- y weithdrefn a ddilynwyd gan y BILI i wneud ei benderfyniad ynghylch cymhwysedd yr unigolyn i gael GIP, neu ofal nyrsio a ariennir gan y GIG, neu
 - y ffordd yr ystyriwyd yr angen iechyd sylfaenol.
- 7.20 Rhaid i BILlau roi sylw dyledus i'r cais hwn, gan asesu'r holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd.
- 7.21 Mae'n bwysig nodi bod y broses apelio yn wahanol i'r broses **Ôl-hawliadau am Ad-daliad**. Mae'r broses apelio yn ymwneud ag apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael GIP neu ofal nyrsio a ariennir gan y GIG. Mae'r broses Ôl-hawliadau am Ad-daliad, a nodir yn **Adran 8**, yn ymwneud â hawliadau gan unigolion neu eu cynrychiolwyr, lle gwnaethant gyfrannu tuag at gost eu gofal, ond bod ganddynt reswm dros gredu eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael GIP oherwydd natur, dwyster a chymhlethdod anghenion gofal iechyd a/neu'r ffaith eu bod yn anodd eu rhagweld.

Datrysiaid Lleol

- 7.22 Os bydd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn anghytuno ag asesiad clinigol y TA, dylid cynnig adolygiad gan gymheiriaid allanol (gan gyfarwyddiaeth neu BILI arall) fel mater o drefn, cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.
- 7.23 Dylai BILlau ddelio'n syth ag unrhyw apêl i adolygu penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael GIP. Dylid rhoi ymateb ysgrifenedig, clir sy'n cynnwys hawliau'r unigolyn i wneud cwyn o dan Weithdrefn Gwyno'r GIG.
- 7.24 Dylai fod gan bob BILI brosesau adolygu lleol, gan gynnwys amserlenni. Dylent fod ar gael i'r cyhoedd a dylent nodi camau ac amserlenni'r broses apelio.
- 7.25 Ar ôl i weithdrefnau lleol gael eu rhoi ar waith yn llawn, dylid cyfeirio'r achos i'r Panel Adolygu Annibynnol (Gweler isod).
- 7.26 Os caiff y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau gan y Panel Adolygu Annibynnol a bod yr unigolyn yn dal i fod yn awyddus i herio'r penderfyniad, gall yr unigolyn fynd at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- 7.27 Ni fydd trefniadau'r panel yn newid hawliau'r unigolyn o dan Weithdrefn Gwyno bresennol y GIG na'i hawl bresennol i gyfeirio'r achos at yr Ombwdsmon. Yn benodol, pan fydd unigolyn yn anfodlon ar faterion eraill ar wahân i'r pwyntiau a nodir yn uchod, dylid ystyried y mater gan ddefnyddio'r weithdrefn gwyno briodol.
- 7.28 Mae BILlau yn gyfrifol am sicrhau bod y prosesau ar waith a bod gan eu staff y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau cywir ar gymhwysedd i gael GIP y tro cyntaf.
- 7.29 Dylai BILlau ddelio'n syth ag unrhyw gais i ailystyried penderfyniadau am gymhwysedd i gael GIP. Yn y lle cyntaf, dylent weithio'n agos gyda'r unigolyn i ddatrys y sefyllfa yn anffurfiol, fel y nodir uchod. Dylent sicrhau bod yr asesiadau priodol wedi cael eu cynnal, eu cymhwyso, eu cofnodi a'u hadolygu gan gymheiriaid. Os bydd y claf yn dal i fod yn awyddus i herio'r penderfyniad, bydd y BILl yn ystyried a yw'n briodol cynnull y panel adolygu.

HYBU CYSONDEB Y MODD Y MAE PANELI ADOLYGU ANNIBYNNOL YN GWEITHREDU

Panel Adolygu Annibynnol

- 7.30 Bwriedir i broses y Panel Adolygu Annibynnol (**gweler Atodiad 4**) fod yn fesur diogelu ychwanegol i unigolion y mae angen cymorth parhaus arnynt gan wasanaethau iechyd a/neu wasanaethau cymdeithasol ac sydd o'r farn na chafodd y meini prawf cymhwysedd i gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG neu GIP eu cymhwyso'n gywir yn eu hachos hwy, neu na chafodd y gweithdrefnau priodol eu dilyn.
- 7.31 Os bydd y broses adolygu leol, gan gynnwys yr adolygiad gan gymheiriaid, yn nodi bod rhywfaint o amheuaeth dylid rhoi caniatâd i ddefnyddio proses y Panel Adolygu Annibynnol.
- 7.32 Dylid gallu troi at broses y Panel Adolygu Annibynnol os bydd gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd wybodaeth ychwanegol sylweddol i'w chyflwyno neu os bydd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.
- 7.33 Cyn gwneud penderfyniad, bydd y BILl yn gofyn am gyngor cadeirydd y panel adolygu. Ymhob achos lle gwneir penderfyniad i beidio â chynnull panel, dylid rhoi esboniad ysgrifenedig llawn o'r rheswm dros ei benderfyniad i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, ynghyd â nodyn i'w atgoffa o'i hawliau o dan weithdrefn gwynion y GIG.
- 7.34 Nid yw'r Panel Adolygu Annibynnol yn adolygu cynnwys cynlluniau gofal, dim ond y broses benderfynu a ddilynwyd i benderfynu a yw person yn gymwys i gael GIP.

- 7.35 Bydd y BILL yn gweinyddu'r weithdrefn ar ran pawb sy'n preswyllo yn yr ardal y mae'n gyfrifol amdani. Gellir hefyd ddefnyddio'r weithdrefn i adolygu penderfyniadau ar Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG.
- 7.36 Wrth adolygu'r angen am Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG, dylid ystyried cymhwysedd posibl i gael gofal iechyd parhaus y GIG bob amser a dylid cynnal asesiad llawn, os oes angen.
- 7.37 Rhaid i BILLau sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud y canlynol:
- sefydlu a gweithredu paneli annibynnol (**gweler Atodiad 4**)
 - darparu unrhyw wasanaethau cyfieithu neu gyfathrebu ychwanegol fel y gall yr unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr ymgysylltu'n llawn â'r broses.
 - cael cyngor clinigol annibynnol lle y bo angen, gan ystyried yr anghenion meddygol, nyrsio a therapi amrywiol ym mhob achos. Bydd cynghorwyr yn rhoi barn ar ba un a ddilynwyd y dull angen iechyd sylfaenol a'r Fframwaith hwn, ac ni fyddant yn rhoi ail farn ar ddiagnosis yr unigolyn, ei brognosis na'r ffordd y caiff ei reoli. Dylai'r trefniadau sydd ar waith osgoi achosion o wrthdaro buddiannau rhwng clinigwyr sy'n rhoi cyngor a sefydliadau sydd wedi bod yn darparu gofal i'r claf.
 - rhoi cyfrifoldeb am baneli adolygu i swyddog dynodedig, a fydd yn sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithlon, yn cadarnhau bod y camau priodol wedi'u cymryd i ddatrys yr achos yn anffurfiol ac yn casglu'r dystiolaeth ffeithiol ar gyfer y panel adolygu.
- 7.38 Er mwyn osgoi oedi a sicrhau eu bod yn cael cymaint o arbenigedd â phosibl, dylai BILLau roi proses Panel Adolygu Annibynnol ar waith fel y disgrifir yn **Atodiad 4**. Fodd bynnag, bydd pob BILL yn sicrhau ei fod wedi rhoi cyfrifoldeb am oruchwylio bod y broses yn cael ei gweithredu'n gywir ac yn effeithlon yn ei ardal i swyddog dynodedig.
- 7.39 Mae BILLau yn gyfrifol am sicrhau bod y Paneli Adolygu Annibynnol yn gweithredu i safon gyson a rhaid iddynt wneud trefniadau fel bod holl aelodau'r paneli yn cael eu hyfforddi a'u mentora'n briodol.
- 7.40 Disgwylir i'r asiantaethau partner neilltuo digon o amser o fewn oriau gwaith arferol er mwyn galluogi aelodau'r panel i baratoi'n ddigonol ar gyfer gwaith y Panel. Dylai pwysigrwydd rôl aelodau'r Panel Adolygu Annibynnol gael ei adlewyrchu gan y sefydliadau sy'n eu cyflogi drwy eu swydd-ddisgrifiadau a'u hamcanion personol.
- 7.41 Rhaid i benderfyniadau'r Panel fod yn rhai unfrydol a chael eu cofnodi a'u cyfathrebu'n gywir, a dylid rhoi rhesymau clir dros y penderfyniad. Rhaid i hyn fod yn unol â'r darpariaethau o dan **Egwyddor 7**.

CWYNION

- 7.42 Os bydd unigolyn yn anfodlon ar y penderfyniad ar y cam hwn (neu unrhyw gam o'r broses benderfynu) caiff ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r GIG, 'Gweithio i Wella', sef y system briodol ar gyfer gwneud cwyn o'r fath.
- 7.43 Os bydd unigolyn yn dymuno gwneud cwyn am wasanaethau a ariennir gan y GIG, dylai siarad â'r darparwr gwasanaeth yn gyntaf, os yn bosibl, neu'r BILL. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, caiff cwynion gan unigolion am y gofal a ddarperir eu hystyried gan sefydliadau a reoleiddir gan ddefnyddio eu gweithdrefnau eu hunain; bydd awdurdodau lleol yn ystyried cwynion am y broses gomisiynu (fel priodoldeb y math o leoliad); ac mae gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) bwerau disgrisiwn i ymchwilio i gwynion os gallai'r gŵyn honno fod yn berthnasol i'w rôl fel rheoleiddiwr cartrefi gofal. Mae angen i unrhyw asiantaeth sy'n cael cwyn ystyried a ddylid ei hatgyfeirio yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg.
- 7.44 IMae'n arfer da i BILLau ac ALLau hysbysu ei gilydd am gwynion sy'n dod i law fel y gallant eu datrys yn gyflymach, a dod o hyd i wraidd y broblem er mwyn gwella gwasanaethau.
- 7.45 Dylai gwybodaeth am yr holl weithdrefnau cwyno perthnasol fod ar gael ym mhob lleoliad darparu gofal. Dylid ystyried yr angen am eiriolaeth lle bo hynny'n briodol.
- 7.46 Gall unigolion sy'n anfodlon ar y ffordd y mae'r GIG, BILL neu'r AGC yn ymchwilio i'w cwyn, wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, bydd yr Ombwdsmon fel arfer yn disgwyl bod achwynwyr wedi ceisio datrys eu pryderon drwy'r weithdrefn berthnasol cyn iddo ystyried derbyn achos. Nid oes rhaid i'r Ombwdsmon ymchwilio i bob cwyn a gyflwynir, ond bydd yn gwneud hynny fel arfer os ceir tystiolaeth o galedi neu anghyfiawnder ac os gallai ymchwiliad fod yn fuddiol.
- 7.47 Mae rhagor o wybodaeth am weithdrefn gwyno'r GIG ar gael yn: [Gweithio i Wella: lleisio pryder am y GIG \(Llywodraeth Cymru, 2020\)](#).

ADRAN 8

ÔL-HAWLIADAU AM AD-DALIAD

- 8.1 Gall unigolyn a/neu ei gynrychiolydd wneud cais am ôl-adolygiad os gwnaethant gyfrannu tuag at gost eu gofal, ond bod ganddynt reswm dros gredu eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael GIP oherwydd natur, dwyster a chymhlethdod anghenion gofal iechyd a/neu'r ffaith eu bod yn anodd eu rhagweld. Mae gofyn am ôl-adolygiad yn wahanol i apelio yn erbyn asesiad GIP cyfredol a phenderfyniad ynghylch cymhwysedd. Amlinellir y broses apelio yn **Adran 7**.
- 8.2 Os dangosir cymhwysedd drwy gydol y cyfnod hawlio neu ran ohono, mae egwyddorion gweinyddiaeth gyhoeddus dda yn golygu bod yn rhaid talu iawndal amserol.
- 8.3 Yn yr un modd â'r broses o benderfynu ar gymhwysedd i gael GIP, nid yw'r broses ôl-hawliadau yn broses gyfreithiol. Mae'r broses o ystyried cymhwysedd unigolyn am ôl-hawliad yn cynnwys defnyddio prosesau ar wahân fel Ôl-adolygiad GIP Cymru Gyfan i ddadansoddi cronoleg yr angen dros y cyfnod hawlio cyfan, o gymharu â'r Adnodd Cymorth Penderfynu, sy'n darparu arwyddion o angen dros gyfnod o amser. Caiff ei gweinyddu gan y BILI ac felly ni chodir tâl ar yr unigolyn.
- 8.4 Nodir y broses hawlio yn **Ffigur 3** isod. Os bydd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd am gael cymorth i ddilyn y broses, gallant ofyn am gyngor gan y BILI ei hun neu wasanaeth eirioli yn y sector gwirfoddol neu gallant ddewis gyflogi cyfreithiwr i weithredu ar eu rhan. Os canfyddir eu bod yn gymwys, ni fydd yr ad-daliad yn talu costau unrhyw ffioedd cyfreithiol.
- 8.5 Dylai pob BILI benodi cyswllt y gellir cyflwyno ôl-hawliadau iddo.
- 8.6 Gall yr hawliad gael ei gyflwyno gan:
- yr unigolyn sy'n destun yr hawliad.
 - person sydd wedi'i awdurdodi gan yr unigolyn i gael ad-daliad ar ei ran.
 - person sy'n dal Atwrneiaeth Barhaus neu Arhosol neu sy'n ddirprwy a benodwyd gan Lys ar gyfer unigolyn nad oes ganddo alluedd meddyliol.
 - Yn achos unigolyn a fu farw, ysgutor a enwyd yn y Grant Profiant ar gyfer ystad y person a fu farw neu weinyddwr a enwyd yn Grant Llythrau Gweinyddu'r ystad.
- 8.7 Os canfyddir cymhwysedd, dim ond i'r uchod y gwneir ad-daliadau.

8.8 Mae'r broses o ystyried cyfnod hawlio ar gyfer ôl-adolygiad fel a ganlyn.

- ni fydd diwedd y cyfnod hawlio i'w ystyried **yn fwy na 12 mis** o ddyddiad y cais.
- Os yw'r cyfnod hawlio yn cwmpo ar ôl penderfyniad gan TA/Panel Adolygu Annibynnol (PAA) nad yw'r unigolyn yn gymwys, gall y cyfnod i'w adolygu fynd yn ôl i ddyddiad y penderfyniad ar yr amod nad yw'n fwy na 12 mis.
- Os yw'r cyfnod hawlio yn cwmpo cyn penderfyniad TA/PAA, ni chaiff cyfnod o fwy na 12 mis ei adolygu.
- **o fewn pum mis** i gofrestru'r hawliad, bydd yn rhaid i hawlwyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:
 - prawf o'r ffioedd a dalwyd i gartref gofal neu asiantaeth gofal cartref (gweler **Atodiad 5**)
 - os nad yr hawlydd yw'r claf, eu hawl i wneud yr hawliad ar ran yr unigolyn (h.y. drwy Atwrneiaeth Barhaus/Arhosol neu Grant Profiant).

8.9 Mae angen i BILlau gydbwyso'r angen i ddarparu iawndal amserol â'r angen i ddangos uniondeb o ran y pwrs cyhoeddus. Nid yw gwneud cais yn golygu y caiff ad-daliad ei warantu; rhaid i BILlau fodloni eu hunain bod y cais yn ddilys a chadarnhau bod y person yn gymwys i gael GIP yn ystod y cyfnod dan sylw.

8.10 Gall ceisiadau a wneir y tu allan i'r cyfnod hawlio a nodwyd gael eu hystyried o dan amgylchiadau eithriadol pan fo cyfiawnhad dros hynny. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys, er enghraifft, yr hawlydd yn cael salwch difrifol, yn gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog neu'n byw dramor. Nid rhestr gynhwysfawr mo hon ac efallai y bydd amgylchiadau eraill yn gymwys.

Mae'r broses ar gyfer ystyried ôl-hawliadau fel a ganlyn:

- i. Bydd yr hawlydd yn darparu tystiolaeth o awdurdod cyfreithiol i wneud y cais a phrawf ei fod wedi talu ffioedd gofal.
- ii. Caiff ffurflen hawlio (sy'n gofyn am farn yr hawlydd), ffurflen gydsynio a Llyfryn Gwybodaeth eu hanfon at yr hawlydd.
- iii. Ar ôl derbyn y ffurflen gydsynio, cael y prawf o daliad a'r awdurdod cyfreithiol i wneud yr hawliad, gofynnir i'r darparwyr gofal priodol am gofnodion. Yn unol â phrotocol Cymru gyfan ar gyfer cael cofnodion, rhoddir hyd at dri mis i bob asiantaeth ddarparu'r cofnodion neu hysbysu BILlau eu bod wedi cael eu dinistrio neu eu colli neu nad ydynt ar gael am unrhyw reswm arall.

- iv. Llunnir cronoleg angen cynhwysfawr ar sail ystod o gofnodion sydd ar gael gan gynnwys datganiad yr hawlydd, cofnodion cartref gofal (gan gynnwys cynlluniau gofal, asesiadau risg a dyddiaduron dyddiol ayb; cofnodion meddyg teulu, nyrs ardal ac unrhyw gofnod clinigol perthnasol ac arall sydd ar gael. Os nad oes unrhyw rai o'r cofnodion hyn ar gael, yna bydd y cofnodion sydd ar gael yn cael eu defnyddio.
- v. Rhaid cymhwyso'r canllawiau yn y Fframwaith hwn at yr hawliad.
- vi. Adolygiad Cam 1 – Defnyddir dogfen Ôl-adolygiad GIP Cymru Gyfan i greu cronoleg angen Cam 1. Yna caiff y Rhestr Wirio ei chymhwyso i'r wybodaeth yng Ngham 1 yr Ôl-adolygiad GIP Cymru Gyfan. Os nad oes unrhyw ffactorau sbarduno ar gyfer ystyried cymhwysedd i gael GIP, caiff yr achos ei gau ar yr adeg hon. Rhaid i Gadeirydd Panel Adolygu Annibynnol gadarnhau argymhelliad o Dim Cymhwysedd neu Cymhwysedd Rhannol. Os yw'r Cadeirydd yn anghytuno gyda'r argymhelliad o Gymhwysedd Rhannol neu Dim Cymhwysedd, yna dylid symud ymlaen i Gam 2 ar sail y lefel uchaf o gymhwysedd a awgrymir e.e. cydweddu'n llawn yn hytrach na rhannol; rhannol yn hytrach na dim cymhwysedd. Os yw'r hawlydd/eu cynrychiolydd eisoes yn gymwys ar gyfer Gofal Nyrsio a Ariennir neu GIP; dylid symud ymlaen i Gam 2, heb yr angen am Adolygiad Cam 1.
- vii. Er mwyn cydymffurfio ag ethos y Fframwaith hwn, ni ddylai'r rhestr wirio gael ei defnyddio yn lle barn broffesiynol. Dylid anfon esboniad ysgrifenedig o ganlyniad cymhwyso'r rhestr wirio at eu hawliad at hawlwr.
- viii. Adolygiad Cam 2 – Pe canfyddir ffactorau sbarduno ar gyfer yr holl gyfnod neu ran o'r cyfnod, trosglwyddir cronoleg angen Cam 1 i Gam 2 Ôl-adolygiad GIP Cymru Gyfan, ychwanegir pob cofnod arall a dyma'r ddogfen a ddefnyddir gan yr adolygydd clinigol i ddadansoddi'r dystiolaeth a gwneud argymhelliad ar gymhwysedd. Gwneir hyn drwy ddadansoddi'r wybodaeth yn y gronoleg gan ddefnyddio'r pedwar dangosydd allweddol, sef Natur, Dwyster, Cymhlethdod ac Anodd ei Ragweld, gan gymhwyso'r dull angen iechyd sylfaenol at y cyfnod hawlio.
- ix. Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad, bydd clinigydd gwahanol yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r ddogfen er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad yn gadarn, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael a bod y meini prawf wedi'u cymhwyso'n gyson. Os na fydd y clinigwyr yn cytuno, caiff yr achos ei atgyfeirio at y Panel Adolygu Annibynnol (PAA)
- x. Mewn achosion lle na chanfyddir cymhwysedd, bydd o leiaf un clinigydd gwahanol pellach yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r ddogfen er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth yn cefnogi'r argymhellion a wnaed.

xi. Caiff yr argymhelliad ar gymhwysedd ei wneud ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Gall fod yn un o blith pedwar dewis posibl:

- **cydweddu** - mae'r cyfnod cymhwysedd a ganfuwyd yn cydweddu â'r cyfnod hawlio yn ei gyfanrwydd o'r dyddiad sbarduno
- **rhannol** – canfuwyd cymhwysedd am ran o'r cyfnod hawlio o'r dyddiad sbarduno
- **ni chanfuwyd cymhwysedd** am unrhyw ran o'r cyfnod hawlio o'r dyddiad sbarduno
- **Panel** – nid yw'r adolygwr wedi gallu gwneud penderfyniad gan fod y wybodaeth sydd ar gael yn gymhleth ac ni all y clinigwyr gytuno ar y cyfnod cymhwysedd ychwaith.

xii. Yn dibynnu ar yr argymhelliad a wneir, bydd yr achos yn dilyn un o dri llwybr:

- caiff achosion sy'n **cydweddu** eu hanfon i'w cadarnhau ar unwaith.
- caiff achosion lle y canfuwyd **cymhwysedd rhannol** neu lle **na chanfuwyd cymhwysedd** eu hanfon ymlaen at hawlwr gan roi cyfle iddynt drafod y canfyddiadau
- Achosion **panel** – caiff Panel Adolygu Annibynnol ei gynnull.

8.11 Caiff yr hawlydd a/neu ei gynrychiolydd ei wahodd i drafod achosion lle y canfuwyd cymhwysedd rhannol neu lle na chanfuwyd cymhwysedd:

- Cymhwysedd rhannol – bydd y drafodaeth yn ceisio pennu cyfnod cymhwysedd sy'n dderbyniol i bawb ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a/neu dystiolaeth newydd nad oedd ar gael yn flaenorol. Os llwyddir i gytuno ar y cam hwn, caiff yr achos ei anfon ymlaen i fod yn destun broses graffu a chael ei gadarnhau. Os na chytunir ar y cam hwn, caiff yr achos ei anfon at PAA i'w ystyried.
- Dim cymhwysedd – bydd y drafodaeth yn rhoi cyfle i egluro'r meini prawf GIP ymhellach a sicrhau bod yr hawlydd/cynrychiolydd wedi deall nad oes digon o dystiolaeth o gymhwysedd. Bydd yr achos wedyn yn cael ei anfon ymlaen at Gadeirydd PAA i'w gadarnhau.

Os yw'r hawlydd yn ceisio PAA dylai'r bwrdd iechyd ofyn am gyngor gan gadeirydd PAA ar a ddylid cynnal PAA. Byddai'n ofynnol i'r Cadeirydd roi cyngor i'r bwrdd iechyd gan ateb y canlynol:

- A oedd y bwrdd iechyd wedi dilyn y gweithdrefnau priodol (y broses briodol)
- A wnaeth y bwrdd iechyd gymhwyso'r holl dystiolaeth a oedd ar gael i'r Meysydd a'r 4 Dangosydd Allweddol i bennu cymhwysedd neu fel arall, ac
- A oedd yna sail resymegol gadarn dros y penderfyniad?


Panel Adolygu Annibynnol

- 8.12 Os bydd yr adolygiad gan gymheiriaid yn nodi bod rhywfaint o amheuaeth dylid rhoi caniatâd i ddefnyddio proses y Panel Adolygu Annibynnol.
- 8.13 Dylid gallu troi at broses y Panel Adolygu Annibynnol os bydd gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd wybodaeth ychwanegol sylweddol i'w chyflwyno neu os bydd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.
- 8.14 Cyn gwneud penderfyniad, bydd y BILL yn gofyn am gyngor Cadeirydd y panel adolygu. Y Cadeirydd sy'n rhoi'r safbwynt llewg yn y broses adolygu. Ym mhob achos lle y penderfynir peidio â chynnull panel, dylid rhoi esboniad ysgrifenedig llawn o'i benderfyniad i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, ynghyd â nodyn i'w hatgoffa o'u hawliau o dan Weithdrefn Gwyno'r GIG a'u hawl i fynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 8.15 Dylid dilyn yr egwyddorion a'r prosesau canlynol ar gyfer pob achos sy'n mynd gerbron y Panel Adolygu Annibynnol:
- rhaid i bob penderfyniad a wneir gan y Panel Adolygu Annibynnol fod yn un unfrydol. Mae'r panel yn ceisio dod i benderfyniad unfrydol ond os nad yw'n bosibl derbynir penderfyniad mwyafrifol.
 - bydd y person sy'n craffu ar yr argymhelliad a wnaed ac yn ei gadarnhau/Cadeirydd y Panel Adolygu Annibynnol yn cwblhau Dogfen Penderfyniad Cymru Gyfan.
 - caiff copi o'r Ddogfen Penderfyniad gyflawn ei roi i'r hawlydd/cynrychiolydd ac Adran Gyllid y BILL.
 - mewn achosion lle na chanfuwyd cymhwysedd, os na fydd hawlydd am fynd i gyfarfod, dylid trafod yr argymhelliad dros y ffôn neu'n ysgrifenedig hyd y gellir.
 - Mewn achosion lle y canfuwyd cymhwysedd rhannol, os na fydd hawlydd am fynd i'r cyfarfod negodi, dylai allu trafod yr argymhelliad dros y ffôn. Wedyn, dylid cynnull Panel Adolygu Annibynnol.

Cyfrifoldeb am reoli hawliadau

- 8.16 Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ychwanegol ar brawf talu ar gyfer ad-dalu ôl-hawliadau ([Cylchlythyr Iechyd Cymru \(2015\)039](#)).
- 8.17 O 1 Ebrill 2019 ymlaen, Byrddau Iechyd Lleol ddaeth yn gyfrifol am reoli pob ôl-hawliad.
- 8.18 Gall hawlwyrr sy'n anfonlon ar y broses adolygu ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r GIG a throï at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodir yn **Adran 7**.

Ffigur 3: Y broses ar gyfer cynnal Ôl-adolygiad



Rhestr Termau

Adnodd Cymorth Penderfynu

Mae'r Adnodd Cymorth Penderfynu (ACP) wedi'i ddylunio i gefnogi'r broses o wneud penderfyniad. Dim ond ar ôl cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion gofal unigolyn y dylid defnyddio'r adnodd. Nid yw'n asesiad ynddo'i hun ac nid yw'n disodli barn broffesiynol wrth benderfynu ynghylch cymhwysedd. Yn syml, dull ydyw o gofnodi'r rhesymeg a hwyluso proses resymegol a chyson o wneud penderfyniadau.

Adsefydlu

Rhaglen therapi ac ailalluogi er mwyn helpu'r unigolyn i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl a lleihau effeithiau unrhyw anabledd i'r eithaf.

Ailalluogi

Mae'r term 'ailalluogi' yn cyfeirio at y broses o adennill sgiliau, hyder ac annibyniaeth. Efallai y bydd angen y cymorth hwn yn dilyn achos meddygol aciwt neu er mwyn gwrthdroi neu atal dirywiad graddol yng ngallu unigolyn yn y gymuned. Cymorth dwys, byrdymor yw hwn.

ALI

Awdurdod lleol

Angen Iechyd Sylfaenol

Tybir bod unigolyn yn gymwys i gael GIP pan fo ei angen sylfaenol yn angen iechyd: "dull angen iechyd sylfaenol". Penderfynir ar hyn drwy ystyried pedair nodwedd allweddol angen, sef: natur, dwyster, cymhlethdod ac anodd ei ragweld – gweler **Adran 3**.

Anhwylder Meddyliol

Mae adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) yn diffinio anhwylder meddyliol fel unrhyw anhwylder neu anabledd sy'n effeithio ar y meddwl.

Amlldisgyblaethol neu Amlasiantaethol

Mae'r termau hyn yn cyfeirio at weithwyr proffesiynol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector sy'n cydweithio i ddiwallu anghenion cyfannol eu cleifion/cleientiaid er mwyn darparu gofal gwell, sy'n llai tameidiog.

Asesu

Mae asesu yn golygu cynnal dadansoddiad cytbwys o anghenion, adnoddau a galluedd yr unigolyn a'r canlyniadau y mae am eu cyflawni, er mwyn canfod y ffordd orau o'i helpu i'w cyflawni.

Atwrneiaeth

Caiff ymgeisydd ag Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol a gofrestrwyd â'r Llys Gwarchod, yn gyffredinol, arfer hawliau'r claf i weld cofnodion ar ran y claf hwnnw, ond dim ond i'r graddau bod angen y wybodaeth er mwyn iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau fel atwrnai neu ddirprwy. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng:

a) Rhywun sy'n gweithredu fel Atwrneiaeth Arhosol (iechyd a lles) a fydd, yn gyffredinol, yn gallu arfer hawliau'r claf i weld cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch ei iechyd a'i les. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gydsynio (neu wrthod cydsynio) i broses GIP y GIG ac i wybodaeth gael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n cymryd rhan yn y broses. Rhaid cofrestru Atwrneiaeth a dim ond os bydd yr unigolyn wedi colli'r galluedd i wneud y penderfyniad perthnasol ynghylch ei iechyd a'i les y gellir defnyddio'r math hwn o Atwrneiaeth.

b) Rhywun sydd ag Atwrneiaeth Barhaus neu rywun sy'n gweithredu fel Atwrneiaeth Arhosol (eiddo a chyllid). Unwaith eto, rhaid cofrestru Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol ond gellir ei defnyddio gyda chaniatâd y rhoddwr er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau ynghylch eiddo a chyllid hyd yn oed os bydd ganddo'r galluedd i wneud penderfyniadau o'r fath ei hun o hyd. Fel arfer, defnyddir Atwrneiaeth (eiddo a chyllid) neu Atwrneiaeth Arhosol ar ôl i'r unigolyn colli galluedd. Am fod GIP yn gallu cael effaith sylweddol ar gyllid unigolyn mae'n ddigon posibl y bydd gan rywun â'r math hwn o Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus reswm dilys dros allu gweld cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol ond **dim ond** i'r graddau bod angen iddo eu gweld er mwyn gwneud penderfyniad penodol ar adeg benodol ynghylch eiddo a chyllid. Er enghraifft, byddai'n briodol iddo gael digon o wybodaeth er mwyn penderfynu p'un a yw'n cytuno â'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd a wnaed ai peidio a ph'un a ddylai geisio adolygiad o'r penderfyniad hwnnw ai peidio. Ni ddylid rhannu unrhyw gofnodion iechyd neu les nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol am ei bod yn bosibl eu bod cynnwys gwybodaeth sensitif na fyddai'r unigolion wedi dymuno iddi gael ei rhannu â'r sawl y mae wedi rhoi'r hawl i reoli ei faterion ariannol iddo. Yn gyffredinol, dylai'r wybodaeth y mae'n debygol y bydd ei hangen arnynt fod wedi'i chynnwys yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu a'r asesiadau sy'n sail iddo.

BILI

Bwrdd Iechyd Lleol.

Cartref Gofal

Sefydliad sydd wedi'i gofrestru o dan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 i ddarparu llety, ynghyd â gofal nyrsio neu ofal personol.

Comisiynu

Mae comisiynu yn cyfeirio at gyfres o weithgareddau a gyflawnir gan Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cynllunio a'u trefnu i

gyflawni'r canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol gorau posibl i bobl yng Nghymru. Rhaid iddynt ddeall anghenion eu poblogaethau, arfer gorau ac adnoddau lleol a defnyddio'r rhain er mwyn cynllunio newidiadau i wasanaethau, eu gweithredu a'u hadolygu. Mae'n cynnwys cynllunio a chaffael.

Rhaid comisiynu ar sail systemau cyfan ac mae'n berthnasol i wasanaethau ym mhob sector. Ni ddylid comisiynu gwasanaethau er mwyn ymateb i anghenion pobl sy'n cael gofal iechyd parhaus ar wahân i wasanaethau cysylltiedig eraill.

Gall byrddau iechyd lleol ddirprwyo'r swyddogaeth gomisiynu i awdurdodau lleol a gall awdurdodau lleol ddirprwyo'r swyddogaeth gomisiynu i fyrdau iechyd lleol heb ildio eu cyfrifoldebau statudol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu dull cydlynol o gomisiynu gwasanaethau fel, er enghraifft, gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio neu wasanaethau ailalluogi a gofal canolraddol, gan ddefnyddio un dull o ddatblygu contractau a manylebau gwasanaethau, pennu ffioedd a sicrhau ansawdd.

Cyflyrau Hirdymor

Y cyflyrau hynny na ellir, ar hyn o bryd, eu gwella ond y gellir eu rheoli gan ddefnyddio meddyginiaeth a therapïau eraill.

Cymorth Cyffredinol yn y Cartref

Gwasanaethau fel glanhau, golchi dillad, paratoi prydau bwyd, siopa, coginio, casglu budd-daliadau, eistedd gyda'r unigolyn neu fynd gydag ef i ddigwyddiadau cymdeithasol.

Cynllun Gofal a Chymorth

Rhaid i Gynllun Gofal gynnwys y canlynol:

- cynlluniau a chamau gweithredu i'w cymryd er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir;
- Rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalcwyr a pherthnasau ac ymarferwyr (gan gynnwys y meddyg teulu, nyrs, er enghraifft) a pha mor aml y bydd yn gweld y rhain;
- yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) sydd eu hangen gan bob parti;
- y trefniadau adolygu a'r trefniadau wrth gefn a sut y caiff cynnydd ei fesur.

Cynllunio ac Adolygu Gofal

Mae Cynllunio ac Adolygu Gofal yn broses ddynamig, sy'n dwyn ynghyd yr unigolyn, ei ofalcwyr a gweithwyr proffesiynol er mwyn cytuno ar y ffordd orau o ddiwallu ei anghenion, y camau y mae angen eu cymryd a phwy fydd yn gwneud hynny.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalcwyr y mae angen cymorth arnynt, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau

cymdeithasol eu darparu, gan hyrwyddo annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt.

Dyma egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Llais a rheolaeth – sicrhau bod yr unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal, a rhoi llais iddo, a rheolaeth dros gyflawni'r canlyniadau sy'n ei helpu i sicrhau llesiant.
- Atal ac ymyrryd yn gynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o unigolion yn datblygu anghenion critigol.
- Llesiant – helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- Cydgynhyrchu – annog unigolion i gymryd mwy o ran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

Dogfen Ôl-adolygiad GIP Cymru Gyfan

Mae trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer gweinyddu achosion GIP cyfredol neu barhaus ac achosion ôl-weithredol neu wedi'u hôl-ddyddio. Defnyddir ACP mewn asesiadau cyfredol ac mae'n rhoi darlun o'r anghenion ar adeg benodol. Mae achos ôl-weithredol yn cwmpasu cyfnod hir o amser ac mae angen ei ddefnyddio er mwyn nodi newidiadau mewn angen dros y cyfnod hwnnw, a allai ddangos bod cymhwysedd / nad oes cymhwysedd ar adegau gwahanol yn seiliedig ar angen a nodir. Mae Dogfen Ôl-adolygiad GIP Cymru Gyfan (dogfen Asesu Anghenion Cymru Gyfan gynt) yn seiliedig ar yr ACP ond mae'n hwyluso'r gwaith o nodi anghenion dros gyfnod estynedig o amser a all gael ei rannu yn nifer o gyfnodau gan ddibynnu ar hyd y cyfnod hawlio.

Fframwaith Asesu Integredig Cenedlaethol

Fframwaith gan Lywodraeth Cymru yw hwn sy'n ymwneud â hybu lles, asesu, cynllunio gofal ac adolygu trefniadau ar gyfer gwasanaethau i bobl 65+ oed waeth beth fo'u hanghenion, anabled neu gyflwr, ac sy'n eu helpu i gael gofal a chymorth yn y gymuned. (**Gweler Atodiad 1**)

Galluedd Meddyliol

Y gallu i wneud penderfyniad ar fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Caiff y diffiniad cyfreithiol o berson nad oes ganddo alluedd ei egluro yn Adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005: 'a person lacks capacity in relation to a matter if at the material time he is unable to make a decision for himself in relation to the matter because of an impairment of, or disturbance in the functioning of, the mind or brain'.

Gofal Canolraddol

Amrywiaeth o wasanaethau integredig sy'n helpu pobl i wella'n gyflymach ar ôl salwch, atal derbyniadau aciwt diangen i'r ysbyty, helpu i ryddhau cleifion yn gyflymach o'r ysbyty

a'u helpu i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl. Fel arfer, darperir y math hwn o wasanaeth am gyfnod byrdymor yn y cartref neu mewn lleoliad preswyl (tua chwe wythnos fel arfer) i bobl y mae angen rhywfaint o gymorth adsefydlu ac adfer arnynt. Y nod yw atal cleifion rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen, helpu i ryddhau cleifion yn gyflymach o'r ysbyty ac atal pobl rhag cael eu derbyn i ofal preswyl cyn pryd.

GIG

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Gofal Cymdeithasol

Darperir Gofal Cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol unigolyn. Mae'n cyfeirio at yr amrywiaeth eang o wasanaethau a luniwyd er mwyn helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth, eu galluogi i chwarae rhan lawnach mewn cymdeithas, eu diogelu mewn sefyllfaoedd bregus a rheoli cydberthnasau cymhleth. Darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl sydd angen help/cymorth i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned (naill ai gartref neu mewn lleoliad gofal), pobl sy'n agored i niwed a phobl y gall fod angen eu diogelu. Gall awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol ddarparu gofal cymdeithasol. Dylid ystyried y diffiniad hwn yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru i geisio gweithio mewn ffordd fwy integredig. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pwysleisio'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gydweithio er mwyn datblygu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol a lles integredig sy'n canolbwyntio ar anghenion cyfannol pobl.

Gofal Diwedd Oes

Gofal sy'n helpu pob un sydd â salwch datblygedig, sy'n gwaethygu ac nad oes modd ei wella i fyw cystal â phosibl hyd nes y byddant yn marw. Mae'n golygu bod anghenion gofal cefnogol a lliniarol y claf a'r teulu yn cael eu nodi a'u diwallu drwy gydol y cyfnod diwedd oes ac yn ystod eu galar. Mae'n cynnwys rheoli poen a symptomau eraill, a darparu cymorth seicolegol, cymdeithasol, ysbrydol ac ymarferol.

Gofal Hirdymor

Term cyffredinol yw hwn sy'n disgrifio'r gofal sydd ei angen ar bobl dros gyfnod estynedig, o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch, er mwyn diwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol. Efallai y bydd angen gwasanaethau gan y GIG a/neu ofal cymdeithasol, a gellir ei ddarparu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysbyty'r GIG, gofal iechyd (sy'n darparu gofal preswyl neu ofal nyrsio), hosbis, ac yng nghartrefi pobl. Mae gofal hirdymor yn wahanol i ofal canolraddol/trosiannol/dros dro, sydd â chanlyniadau penodol sydd ynghlwm wrth amserlenni penodol ar gyfer adsefydlu, ailalluogi neu adfer.

Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP)

Pecyn cyflawn o ofal parhaus a gaiff ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG, pan asesir bod angen sylfaenol yr unigolyn yn ymwneud â'i iechyd. Gall gofal iechyd parhaus y GIG gael ei ddarparu mewn unrhyw leoliad. Pan gaiff ei ddarparu yng

nghartref yr unigolyn, mae'n golygu bod y GIG yn ariannu'r holl ofal sydd ei angen arno i ddiwallu'r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr aseswyd sydd ganddo i'r graddau y credir bod hynny'n briodol o dan y gwasanaeth iechyd. Nid yw hyn yn cynnwys costau llety, bwyd na chymorth cyffredinol yn y cartref. Mewn cartrefi gofal, mae'n golygu bod y GIG hefyd yn llunio contract â'r cartref gofal ac yn talu'r ffioedd llawn am lety'r unigolyn yn ogystal â'i ofal.

Bwriedir i'r ACP sicrhau y caiff yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd unigolyn i gael GIP eu hystyried wrth wneud y penderfyniad, waeth beth fo'r grŵp cleientiaid na'r diagnosis. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r adnodd i ddwyn yr amrywiol anghenion mewn 12 o 'feysydd gofal', (gweler isod) neu feysydd angen cyffredinol, ynghyd a'u cofnodi. Mae pob maes wedi'i rannu'n nifer o lefelau yn ôl difrifoldeb.

Gofal Lliniarol

Gofal cyfannol gweithredol i gleifion â salwch datblygedig, sy'n gwaethygu. Mae hyn yn cynnwys rheoli poen a symptomau eraill a darparu cymorth seicolegol, cymdeithasol, ysbrydol ac ymarferol. Nod gofal lliniarol yw sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i gleifion a'u teuluoedd.

Gofal Nyrsio a Ariennir - gweler Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG

Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG

Caiff Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG ei ddarparu yn sgil Adran 49 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (a ddisodlwyd bellach, mewn perthynas â Chymru, gan adran 47(4) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), nad yw'n cynnwys gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig fel rhan o'r gwasanaethau a all gael eu darparu gan awdurdodau lleol. Mae Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yn gymwys i'r holl bobl hynny yr asesir ar hyn o bryd bod angen iddynt gael gofal gan nyrs gofrestredig mewn cartrefi gofal Dim ond pan ystyrir nad yw'r unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael GIP y dylai'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG gael ei wneud.

Gofalwr

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel unigolyn sy'n darparu, neu sy'n bwriadu darparu, gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Nid yw'r diffiniad yn cynnwys y rhai sy'n darparu, neu sy'n bwriadu darparu, gofal o dan, neu yn rhinwedd, contract neu fel gwaith gwirfoddol.

Gwaith Cymdeithasol

Mae gwaith cymdeithasol yn weithgarwch/gwasanaeth proffesiynol a ddarperir gan Weithiwr Cymdeithasol Cofrestredig. Gall alluogi unigolion, teuluoedd a grwpiau i nodi anawsterau personol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cael effaith andwyol arnynt. Mae'n cyfeirio at amrywiaeth o weithgareddau cefnogi, adsefydlu, diogelu neu gywiro. Gall hyn gynnwys rheoli gofal, asesu a chynllunio gofal cymdeithasol a chwmsela.

Gweithiwr Gofal

Mae gweithwyr gofal yn darparu cymorth y telir amdano er mwyn helpu pobl i reoli gweithgareddau bywyd bob dydd. Gall y cymorth hwn fod yn ofal cymdeithasol, ymarferol neu gall ddiwallu anghenion gofal iechyd person.

Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol/Cydgysylltydd Gofal

Dyma'r person sy'n:

- cydgysylltu'r broses asesu, ac yn cysylltu ag arbenigwyr ychwanegol yn ôl yr angen;
- gweithredu fel y prif unigolyn cyswllt ar gyfer gwahanol weithwyr proffesiynol a'r unigolyn er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chofnodi'n gywir;
- sicrhau bod unrhyw broblemau neu anawsterau wrth gydgysylltu neu gwblhau asesiad yn cael eu datrys.

Yn achos pobl ag anghenion iechyd meddwl, mae'r Mesur Iechyd Meddwl yn cynnwys gofynion penodol ynghylch pwy yn union y dylid ei benodi yn Gydgysylltydd Gofal.

Gwybodaeth Bersonol

Dylid ystyried bod y term "gwybodaeth bersonol" yn cynnwys "gwybodaeth categori arbennig" (e.e. gwybodaeth iechyd) lle bo hynny'n briodol. Mae'r termau hynny yn golygu'r un peth â "data personol" a "data categori arbennig" o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Gwybyddiaeth

Prosesau meddyliol uwch yr ymennydd a'r meddwl, gan gynnwys cofio, meddwl, barnu, cyfrifo, sgiliau gofodol gweledol ac ati.

Maes

Un o blith 12 maes allweddol i'w ystyried yn yr asesiad integredig a'r ACP, sef anadlu, maeth, ymataliaeth, cyfanrwydd y croen, symudedd, cyfathrebu, anghenion emosiynol a seicolegol, gwybyddiaeth, ymddygiad, therapïau cyffuriau a meddyginiaeth, cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig ac anghenion gofal sylweddol eraill.

Nam gwybyddol

Mae nam gwybyddol yn cyfeirio at unrhyw namau sy'n amharu ar unrhyw rai o'r prosesau meddyliol uwch, a gellir mesur llawer o'r rhain gan ddefnyddio profion seicolegol addas. Nam gwybyddol, yn enwedig nam ar y cof, yw'r prif arwydd ac, yn aml, yr arwydd cynharaf o ddementia.

Nyrs Gofrestredig

Nyrs sydd wedi'i chofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn y DU, rhaid i bob nyrs, bydwraig a nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gofrestru â'r Cyngor

Nyrsio a Bydwreigiaeth ac adnewyddu eu cofrestriad bob tair blynedd er mwyn gallu gweithio.

PAA

Panel Adolygu Annibynnol

Pecyn Gofal a Chymorth

Cyfuniad o gymorth a gwasanaethau a gynlluniwyd i ddiwallu'r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr aseswyd sydd gan unigolyn, a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth.

Polisi Cynllunio Gofal Cynaliadwy

Polisi yw hwn sydd wedi'i ddatblygu a'i fabwysiadu gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i'w ddefnyddio er mwyn ystyried pa opsiynau cynllunio gofal sy'n briodol i ddiwallu'r anghenion yr aseswyd sydd gan bobl sy'n gymwys i gael GIP. Mae'n disgrifio sut i gynllunio gofal mewn ffordd deg a chynaliadwy o fewn GIP a dyrannu adnoddau yn deg o fewn cyd-destun cynllunio gofal ehangach.

Ymddygiadau sy'n herio

Diffinnir ymddygiadau sy'n herio fel "ymddygiad(au) diwylliannol annormal sydd mor ddifrifol, mor fynych neu sy'n para mor hir nes achosi perygl difrifoli'r unigolyn ei hun neu bobl eraill, neu ymddygiad sy'n debygol o gyfyngu'n ddifrifol ar y defnydd o gyfleusterau cymunedol cyffredin neu atal y defnydd ohonynt yn gyfan gwbl.

ATODIADAU

Atodiad 1: Dyfarniadau Cyfreithiol

Dyfarniad Coughlan

(R v. North and East Devon Health Authority ex parte Pamela Coughlan)

- A 1.1 Gwnaed dyfarniadau llys pwysig wrth benderfynu ar gydbwysedd cyfrifoldebau awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd dros ofal hirdymor.
- A 1.2 Ystyriodd penderfyniad y Llys Apêl yn R v North and East Devon Health Authority ex parte Coughlan [1999] gyfrifoldebau Awdurdodau Iechyd a darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- A 1.3 Edrychodd y Llys ar iaith yr adrannau perthnasol o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf Gofal") a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ("y Ddeddf Iechyd") a chydnabu mai'r Ddeddf Iechyd yw'r ddeddf drechaf. Nododd y Llys fod dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 o'r Ddeddf Iechyd wedi'i chyfyngu i ddarparu'r gwasanaethau a nodwyd i'r graddau sydd eu hangen, yn ei farn ef neu hi, er mwyn bodloni'r holl ofynion rhesymol: wrth wneud ei benderfyniad, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo ef neu hi a'r pwysau ar yr adnoddau hynny.
- A 1.4 Aeth y Llys ymlaen i ystyried y cyfyngiadau ar y gofal nyrsio a ddarperir gan awdurdodau lleol (yn gyffredinol, h.y. nid dim ond gofal nyrsio cofrestredig). Cyfeiriodd y llys at arwydd cyffredinol iawn o derfynau darpariaeth awdurdodau lleol yn achos person sy'n byw mewn llety preswyl, gan ddweud os yw'r gwasanaethau nyrsio: -
- yn wasanaethau sydd ond yn ddamweiniol neu'n ategol i'r llety y mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i'w ddarparu o dan adran 21;
 - yn fath o wasanaethau y gellir disgwyl i awdurdod sy'n bennaf cyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, yna y gellir darparu gwasanaethau nyrsio o'r fath o dan Adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.
- A 1.5 Penderfynwyd ar yr achos hwn cyn deddfu adran 49 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. Fodd bynnag, ers i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 gael ei deddfu, ni all yr awdurdod lleol ddarparu gofal gan nyrs gofrestredig fel rhan o wasanaethau gofal yn y gymuned. Caiff gofal o'r fath bellach ei ddarparu o dan Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG. Yn achos pobl yr aseswyd nad oes ganddynt angen iechyd sylfaenol ac nad ydynt felly yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG, gall asesiad ddangos bod angen gofal arnynt a all gael ei ddarparu bellach o dan Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG.

- A 1.6 Rhaid ystyried cymhwysedd i gael GIP bob amser cyn ystyried cymhwysedd i gael Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG. Ystyriwyd y cysylltiad rhwng GIP a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG ymhellach yn yr Uchel Lys yn achos R v. Bexley NHS Trust, ex parte Grogan [2006]12. Cydnabu'r Llys hefyd fod cwmphas dyletswyddau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu gwasanaethau iechyd yn cael ei bennu gan y ddeddfwriaeth iechyd ac nid gan y cyfyngiadau sydd ar ddyletswyddau awdurdodau lleol.
- A1.7 Cafodd Pamela Coughlan ei hanafu'n ddifrifol mewn damwain ffordd yn 1971. Cafodd ofal gan y GIG yn Ysbyty Newcourt tan 1993. Pan ddywedodd Awdurdod Iechyd Caerwysg ei fod am gau'r ysbyty hwnnw a symud Miss Coughlan ac unigolion eraill i gyfleuster GIG newydd yn Mardon House, addawyd i'r unigolion mai Mardon House fyddai eu cartref am oes. Ym mis Hydref 1998, penderfynodd yr Awdurdod Iechyd olynol (Awdurdod Iechyd Gogledd a Dwyrain Dyfnaint) dynnu gwasanaethau o Mardon House, cau'r cyfleuster hwnnw, a throsglwyddo gofal Miss Coughlan ac unigolion anabl eraill i'r gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd Miss Coughlan na'r preswylwyr eraill am symud o Mardon House a gwnaethant ddadlau bod y penderfyniad i'w gau yn torri'r addewid y byddai'n gartref iddynt am oes a'i fod felly'n anghyfreithlon.
- A1.8 Cododd y dadleuon ynglŷn â chau Mardon House bwyntiau cyfreithiol eraill am briod gyfrifoldebau'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol am ofal nyrsio. Mae dyfarniad y Llys Apêl ar yr agwedd hon wedi dylanwadu'n fawr ar y broses o ddatblygu polisiau gofal parhaus a'r Fframwaith Cenedlaethol. Y prif bwyntiau yw:-
1. Nid y GIG yn unig sy'n gyfrifol am bob math o ofal nyrsio. Gall awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau nyrsio o dan adran 21 o'r Ddeddf Cymorth Gwladol os gellir ystyried yn briodol bod y gwasanaethau gofal nyrsio hynny yn rhan o gyfrifoldebau'r gwasanaethau cymdeithasol
 2. Ni ellir tynnu llinell gyfreithiol glir rhwng y gwasanaethau nyrsio hynny y gall awdurdod lleol eu darparu a'r rhai na all eu darparu: er mwyn gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau hynny y gall awdurdod lleol eu darparu a'r rhai na all eu darparu, rhaid arfarnu ffeithiau achos unigol yn ofalus.
 3. Fel arwydd cyffredinol iawn o derfynau darpariaeth awdurdodau lleol, os yw'r gwasanaethau nyrsio:
 - i. yn wasanaethau sydd ond yn ddamweiniol neu'n ategol i'r llety y mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i'w ddarparu o dan adran 21;
 - ii. yn fath o wasanaethau y gellir disgwyl i awdurdod sy'n bennaf cyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, yna gall y cyfryw wasanaethau nyrsio gael eu darparu o dan adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

1. Drwy adran 21(8) o'r Ddeddf Cymorth Gwladol nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau pan fo'r GIG wedi penderfynu darparu'r gwasanaethau hynny.
2. Gall y gwasanaethau y gellir eu trin yn briodol fel cyfrifoldebau awdurdod lleol o dan adran 21 esblygu wrth i safonau cymdeithas newid.
3. Pan fo angen sylfaenol unigolyn yn angen iechyd, y GIG sy'n gyfrifol, hyd yn oed os yw'r unigolyn wedi'i osod mewn cartref gan awdurdod lleol
4. Dylai asesiad i ganfod a oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol nid yn unig ystyried natur ac ansawdd y gwasanaethau sydd eu hangen, ond hefyd swm neu barhad y gwasanaethau hynny
5. Caiff dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (fel y'i gelwir bellach) ei chyfyngu i ddarparu'r gwasanaethau a nodwyd i'r graddau sydd eu hangen, yn ei farn ef neu hi, er mwyn bodloni'r holl ofynion rhesymol: wrth wneud ei benderfyniad, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo ef neu hi a'r pwysau ar yr adnoddau hynny. (D.S. mae gan Weinidogion Cymru ddyletswyddau tebyg o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006)
6. O ran Ms Coughlan, roedd yn amlwg bod ganddi fwy o anghenion nag y gallai gwasanaethau'r awdurdod lleol eu diwallu.

Dyfarniad Grogan

(R v. Bexley NHS Care Trust ex parte Grogan)

- A1.9 Roedd gan Maureen Grogan sglerosis ymledol ac edema dibynnol â'r risg o wlserau, yn ogystal â phroblemau ymatal deuol. Roedd yn defnyddio cadair olwyn ac roedd angen dau berson i'w symud, ac roedd ganddi rywffaint o nam gwybyddol. Ar ôl i'w gŵr farw, dirywiodd ei hiechyd a chafodd sawl codwm a phan gafodd ei derbyn i'r ysbyty ar ôl datgysylltu ei hysgwydd, penderfynwyd na allai fyw'n annibynnol a chafodd ei throsglwyddo'n syth i gartref gofal a oedd yn darparu gofal nyrsio. Dangosodd asesiadau dilynol nad oedd cyflwr Mrs Grogan yn golygu ei bod yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG wedi'i ariannu'n llawn.
- A1.10 Yn wreiddiol, penderfynwyd ei bod yn gymwys i gael y band canolig o ofal nyrsio a ariennir gan y GIG, ac arhosodd yn y band hwnnw heblaw pan gafodd un penderfyniad ei wneud i'w gosod yn y band uwch o fis Ebrill i fis Hydref 2004. Dadleuodd Mrs Grogan fod y penderfyniad i'w hatal rhag cael cyllid llawn gan y GIG yn anghyfreithlon, gan fod y meini prawf a roddwyd ar waith gan Awdurdod Iechyd Strategol De-ddwyrain

Llundain yn groes i'r dyfarniad a wnaed yn achos *Coughlan*. Dywedodd hefyd fod lefel yr anghenion nyrsio a nodir ym mandiau canolig ac uwch y Cyfraniad Gofal Nyrsio Cofrestredig (RNCC) (y cafodd eu gosod ynddynt) yn adlewyrchu angen sylfaenol am ofal iechyd y dylai'r GIG ei ddiwallu.

A1.11 Wrth asesu a oedd hawl gan Mrs Grogan i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG, daeth y Llys i'r casgliad nad oedd gan yr Ymddiriedolaeth feini prawf a oedd yn nodi'r prawf neu'r dull y dylid ei ddefnyddio i benderfynu a oedd ei hangen sylfaenol yn angen iechyd ac na ddefnyddiwyd y fath feini prawf chwaith. Cafodd penderfyniad yr Ymddiriedolaeth nad oedd Mrs Grogan yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG ei ddiddymu ac ailgyflwynwyd y cwestiwn ynghylch ei hawl i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG i'r Ymddiriedolaeth ei ystyried ymhellach Ni chanfuwyd, ac nid oedd unrhyw arwydd, fod Mrs Grogan yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG mewn gwirionedd.

Atodiad 2: Trosolwg o'r Broses safonol o asesu a phenderfynu ar gymhwysedd i gael GIP

AMSERLEN					
PROSES	Hyd at 8 wythnos (mae'n dderbyniol ymestyn yr amserlen os bydd angen adsefydlu'r unigolyn ymhellach, ond ni ddylai fod o ganlyniad i'r broses o benderfynu ar gymhwysedd i gael GIP)			Hyd at wythnos	2 wythnos
	Caiff asesiad cynhwysfawr ar gyfer anghenion gofal tymor hwy ei sbarduno. Nodi'r Cydgysylltydd Gofal/Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol Cael cydsyniad dilys i gynnal asesiad cynhwysfawr. Trosglwyddo'r unigolyn (os bydd angen) i'r amgylchedd mwyaf priodol ar gyfer asesiad.	Cyflwyno'r rhaglen adsefydlu/ailalluogi (oni nodir fel arall am resymau clinigol)		Cwblhau'r broses sicrhau ansawdd	
			Coladu'r asesiad cynhwysfawr a gydgyhyrchwyd		
		Trefnu cyfarfod y TA lle yr ystyrir cymhwysedd i gael GIP.	Yn y cyfarfod, adolygu'r asesiad cynhwysfawr a phenderfynu a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol.	Trefnu'r pecyn gofal	
		Sicrhau bod gan yr unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyfranogi'n llawn.	Sicrhau y caiff rhesymeg glir y cytunwyd arni ei dogfennu a'i rhannu â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr.		
		Cysylltu â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr o fewn 48 awr er mwyn ateb ymholiadau ac ati.			

ATODIAD 3:

**Gofal Iechyd Parhaus y GIG
Rhestr Wirio**

**ar gyfer achosion cyfredol ac ôl-
weithredol**

Rhestr Wirio Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Cyflwyniad 107

Adran 1: Achosion Cyfredol

Cyflwyniad 108

Sut i ddefnyddio'r Rhestr Wirio

Cwblhau'r Rhestr Wirio

Ffurflen gofnodi'r Rhestr Wirio - achosion Cyfredol

Adran 2: Adolygiadau Ôl-weithredol

Cyflwyniad 113

Esboniad o'r camau adolygu

Proses

Adolygiad Cam 1

Adolygiad Cam 2

Cwynion

Cwblhau'r Rhestr Wirio

Ffurflen gofnodi'r Rhestr Wirio - achosion Ôl-weithredol

Adran 3: Rhestr Wirio Gofal Iechyd Parhaus y GIG 118

Ffurflen monitro cydraddoldeb (*achosion cyfredol yn unig*) 130

RHESTR WIRIO GOFAL IECHYD PARHAUS Y GIG

Cyflwyniad

1. Mae'r Rhestr Wirio, er ddim yn orfodol, yn adnodd sy'n helpu ymarferwyr i nodi pobl sydd angen asesiad llawn ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP), naill ai ar gyfer achosion cyfredol neu ôl-weithredol. Noder nad yw atgyfeiriad i gael asesiad am GIP yn arwydd o ganlyniad y penderfyniad ynghylch cymhwysedd. Dylid cyfleu'r ffaith hon i'r unigolyn a, lle y bo'n briodol, ei gynrychiolydd.
2. Mae'r Rhestr Wirio yn seiliedig ar yr Adnodd Cymorth Penderfynu (ACP) ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP). Bydd y nodiadau ar yr ACP a *Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru 2021* (Fframwaith 2021) o gymorth er mwyn deall yr adnodd hwn. Dylai'r ymarferwyr sy'n defnyddio'r adnodd hwn gael hyfforddiant addas.
3. Yr un yw'r Rhestr Wirio ar gyfer achosion cyfredol neu ôl-weithredol; fodd bynnag, mae'r prosesau ar gyfer ei ddefnyddio'n wahanol. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r nodiadau gwahanol ar gyfer yr amgylchiadau gwahanol fel a ganlyn:
 - Adran 1: Achosion cyfredol
 - Adran 2: Ôl-adolygiadau

ADRAN 1: ACHOSION CYFREDOL

Cyflwyniad

4. Dylai'r Rhestr Wirio gael ei chwblhau yn unol â'r canllawiau a nodir yn Fframwaith 2021. Rhaid iddi gael ei chwblhau gan o leiaf 2 ymarferwr, gan gynnwys cynrychiolydd o'r ALI. Gall gael ei chwblhau gan amrywiaeth o ymarferwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft: nyrsys cofrestredig a gyflogir gan y GIG, meddygon teulu, clinigwyr eraill neu staff ALI megis gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal neu gynorthwyyr gofal cymdeithasol.
5. Dylai'r cartrefi gofal gysylltu â'r tîm GIP perthnasol er mwyn trefnu i Restr Wirio gael ei chwblhau i'w preswylwyr. Bwriedir i'r Rhestr Wirio gael ei chwblhau fel rhan o'r broses ehangach o asesu neu adolygu anghenion unigolyn. Felly, disgwylir y bydd cwblhau Rhestrau Gwirio wedi'u nodi fel rhan o rôl pob aelod o staff sydd mewn rolau lle y bydd disgwyl iddynt fod yn rhan o asesu neu adolygu anghenion, a'u bod yn cael hyfforddiant priodol.
6. Rhaid i'r Ymarferwyr sy'n cwblhau'r Rhestr Wirio sefydlu dewis iaith yr unigolyn, neu ei gynrychiolydd, cyn i unrhyw asesiad gael ei gynnal. Rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig a llafar fod yn newis iaith yr unigolyn neu ei gynrychiolydd fel y nodir yn **Egwyddor 7: Cyfathrebu**.
7. Gall unigolion wneud cais am asesiad ar gyfer GIP. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r sefydliad sy'n derbyn y cais wneud y trefniadau priodol i gwblhau Rhestr Wirio. Bydd angen i bob aelod o'r staff sy'n cymhwyso'r Rhestr Wirio fod yn gyfarwydd ag egwyddorion Fframwaith 2021 a'r ACP.

Sut i ddefnyddio'r Rhestr Wirio

8. Cyn cymhwyso'r Rhestr Wirio, mae angen sicrhau bod yr unigolyn a (lle y bo'n briodol) ei gynrychiolydd yn deall nad yw cwblhau'r Rhestr Wirio yn arwydd o'r tebygolrwydd y caiff yr unigolyn ei ystyried yn gymwys i gael GIP.
9. Dylai'r unigolyn gael ei hysbysu y bydd angen cwblhau'r Rhestr Wirio a dylid egluro'r broses honno iddo. Dylai'r unigolyn a (lle y bo'n briodol) ei gynrychiolydd gael ei gefnogi i chwarae rôl lawn yn y broses a dylai gael cyfle i leisio barn am ei anghenion. Fel y nodir yn **Egwyddor 3: Dim penderfyniadau amdanaf heb yn wybod i mi**. Dylai'r penderfyniadau a'r seiliau rhesymegol fod yn dryloyw o'r cychwyn cyntaf.
10. Fel gydag unrhyw archwiliad neu driniaeth, dylid cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr unigolyn cyn dechrau'r broses o gwblhau'r Rhestr Wirio.
11. Os oes pryder efallai nad oes gan yr unigolyn y galluedd i roi ei gydsyniad, dylid gwneud penderfyniad ynghylch hyn ar sail Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r cod ymarfer cysylltiedig. Dylai unrhyw un sy'n cwblhau'r Rhestr Wirio fod yn arbennig o ymwybodol o bum egwyddor y Ddeddf:
 - **Rhagdybiaeth o alluedd:** Rhaid cymryd yn ganiataol bod rhywun yn meddu ar alluedd meddyliol oni chadarnheir nad yw'n meddu ar y galluedd hwnnw.

- **Cefnogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain:** Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oni fydd pob cam ymarferol i'w helpu i wneud hynny wedi cael ei gymryd heb lwyddiant.
- **Penderfyniadau annoeth:** Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad yn syml am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
- **Budd pennaf:** Rhaid i unrhyw weithred neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf hon, i unigolyn nad yw'n meddu ar y galluedd meddyliol neu ar ran unigolyn o'r fath gael ei wneud er budd yr unigolyn hwnnw.
- **Yr opsiwn lleiaf cyfyngol:** Cyn i'r weithred gael ei chyflawni neu'r penderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a yw diben cyflawni hyn yr un mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau a rhyddid gweithredu person.

12. Rhaid cofio hefyd fod yr ystyriaeth a roddir i alluedd yn benodol i'r penderfyniad sy'n cael ei wneud a'r adeg y caiff ei wneud – h.y. ni ddylai'r ffaith yr ystyrir nad oes gan unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad penodol gael ei defnyddio fel rheswm dros gredu na all wneud unrhyw benderfyniadau. Yn yr un modd, ni ddylai'r ffaith nad ystyriwyd bod gan unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad penodol ar ddyddiad penodol fod yn rheswm dros gredu nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad tebyg ar ddyddiad arall.
13. Os nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i roi neu wrthod cydsyniad i ddefnyddio'r Rhestr Wirio, dylid gwneud penderfyniad er 'budd pennaf' yr unigolyn (a'i gofnodi), gan ystyried safbwyntiau a fynegwyd gan yr unigolyn yn flaenorol, ynghych p'un a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Dylai'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad hwn gofio bod disgwyl i bawb a allai gyrraedd trothwy'r Rhestr Wirio gael y cyfle hwn. Ni all trydydd parti roi neu wrthod rhoi cydsyniad i asesu cymhwysedd i gael GIP ar ran person nad oes ganddo alluedd, oni bai bod ganddo Atwrneiaeth Arhosol (Lles) neu ei fod wedi cael ei benodi'n Ddirprwy Lles gan y Llys Gwarchod. Cyn gwneud penderfyniad er 'budd pennaf' yr unigolyn ynghylch p'un a ddylid cwblhau'r Rhestr Wirio ai peidio, dylai'r asesydd gofio ei ddyletswydd i ymgynghori â thrydydd partïon priodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os penderfynir peidio â chwblhau Rhestr Wirio.
14. Ceir rhagor o wybodaeth am gydsyniad a galluedd meddyliol yn **Adran 3** o Fframwaith 2021.

Cwblhau'r Rhestr Wirio

15. Mewn lleoliad ysbyty aciwt, ni ddylai'r Rhestr Wirio gael ei chwblhau tan fod anghenion yr unigolyn ar adeg ei ryddhau yn glir.
16. Cymharwch y disgrifiadau o angen ag anghenion yr unigolyn a dewiswch lefel A, B neu C, fel sy'n briodol, ar gyfer pob maes. Ystyriwch pob disgrifiad a dewiswch yr un sydd mwyaf perthnasol i'r unigolyn. Os bydd anghenion yr unigolyn ar yr un lefel ag unrhyw beth yng ngholofn A neu'n uwch na hynny, dylid dewis 'A'. Ar gyfer pob maes, rhwch gyfeiriad cryno, yn nodi lle y gellir cael gafael ar y dystiolaeth sy'n ategu'r penderfyniad, os bydd angen.
17. Lle y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd anghenion yr unigolyn yn debygol o gynyddu yn ystod y tri mis nesaf (e.e. oherwydd dirywiad disgwylidig yn ei gyflwr), dylai hynny gael ei adlewyrchu yn y colofnau a ddewisir. Lle y disgwylir y bydd yr anghenion yn llai am fod gofal

a thriniaeth dda yn lleihau effaith cyflwr, dylai'r angen gael ei gofnodi yn y Rhestr Wirio fel pe na bai'r gofal a'r driniaeth yn cael eu darparu.

18. Bydd angen asesiad llawn ar gyfer GIP os bydd:

- dau faes neu fwy wedi'u dewis yng ngholofn A;
- pum maes neu fwy wedi'u dewis yng ngholofn B, neu un wedi'i ddewis yn A a phedwar yn B; neu
- un maes wedi'i ddewis yng ngholofn A yn un o'r blychau sydd wedi'i nodi â seren (h.y. y meysydd hynny sydd â lefel blaenoriaeth yn yr ACP), gydag unrhyw nifer o ddewisiadau yn y ddwy golofn arall.

19. Gall fod amgylchiadau hefyd lle yr ystyrir bod angen cynnal asesiad llawn ar gyfer GIP, er nad yw'n ymddangos bod yr unigolyn yn cyrraedd y trothwy a nodwyd.

20. Ni waeth beth fo'r canlyniad, dylai'r aseswyr gofnodi rhesymau ysgrifenedig a dylent lofnodi a dyddio'r Rhestr Wirio. Dylai aseswyr roi gwybod i'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd am y penderfyniad gan roi esboniad clir am sail y penderfyniad. Dylai'r unigolyn gael copi o'r Rhestr Wirio wedi'i chwblhau. Dylai'r sail resymegol a nodir yn y Rhestr Wirio wedi'i chwblhau roi digon o fanylion er mwyn i'r unigolyn a'i gynrychiolydd allu deall pam y cafodd y penderfyniad ei wneud.

21. Dylid cyngori unigolion a'u cynrychiolwyr, os byddant yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnal asesiad llawn ar gyfer GIP, y gallant ofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) ei ailystyried. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r Rhestr Wirio wreiddiol ac unrhyw wybodaeth newydd sydd ar gael, a gall gynnwys cwblhau ail Restr Wirio. Os byddant yn dal i fod yn anfodlon, gallant fynd ar drywydd y mater drwy'r broses gwyno arferol.

22. Dylai fod gan bob BILI brosesau lleol clir sy'n nodi lle y dylid anfon Rhestr Wirio wedi'i chwblhau, er mwyn i'r camau nesaf priodol gael eu cymryd. Dylai Rhestrau Gwirio wedi'u cwblhau gael eu hanfon ymlaen yn unol â'r prosesau lleol hyn.

23. Dylai'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb gael ei chwblhau gan yr unigolyn sy'n destun y Rhestr Wirio. Os bydd angen cymorth ar yr unigolyn i gwblhau'r ffurflen, dylai gael ei gynnig gan yr ymarferwr sy'n cwblhau'r Rhestr Wirio. Dylai'r ymarferwr anfon y ffurflen ddata ymlaen i'r lleoliad priodol, yn unol â phrosesau perthnasol y BILI ar gyfer prosesu data cydraddoldeb.

Ffurflen Gofnodi'r Rhestr Wirio – Achosion Cyfredol

Dyddiad cwblhau'r Rhestr Wirio _____

Dyddiad geni _____

Enw _____

Rhif y GIG _____ Practis Meddyg Teulu _____

Cyfeiriad parhaol a lleoliad presennol (e.e. rhif ffôn, ward yr ysbyty ac ati)

Rhywedd _____

Sicrhewch fod y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ar ddiwedd y Rhestr Wirio wedi'i chwblhau.

A gymerodd yr unigolyn ran yn y broses o gwblhau'r Rhestr Wirio? **Do/Naddo** (dilêer fel y bo'n briodol)

A gafodd yr unigolyn gyfle i ofyn i gynrychiolydd megis aelod o'r teulu neu eiriolwr arall fod yn bresennol pan gwblhawyd y Rhestr Wirio? **Do/Naddo**

Os do, a oedd y cynrychiolydd yn bresennol pan gwblhawyd y Rhestr Wirio? **Do/Naddo**

Rhowch fanylion cyswllt y cynrychiolydd (enw, cyfeiriad a rhif ffôn).

A wnaethoch esbonio wrth yr unigolyn sut y byddai ei wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu â'r gwahanol sefydliadau sy'n rhan o'i ofal, ac a wnaeth gydsynio i rannu'r wybodaeth hon?

Do/Naddo

Nodwch y canlyniad a nodwyd gan y Rhestr Wirio:

- Angen atgyfeiriad am asesiad llawn ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG **neu**
- Dim angen atgyfeiriad am asesiad llawn ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG.

(Efallai y bydd amgylchiadau pan fyddwch o'r farn bod angen cynnal asesiad llawn ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG, er nad yw'n ymddangos bod yr unigolyn yn cyrraedd y trothwy a nodir. Os felly, dylid rhoi esboniad llawn.)

Sail resymegol dros y penderfyniad

--

Enw(au) a llofnod(ion) yr asesydd(aseswyr)

Dyddiad

--	--

Manylion cyswllt yr aseswyr (enw, rôl, sefydliad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost)

--

ADRAN 2: ÔL-ADOLYGIADAU

Cyflwyniad

24. Gall unigolyn a/neu'i gynrychiolydd wneud cais am ôl-adolygiad GIP os gwnaethant gyfrannu tuag at gost eu gofal, ond bod ganddynt reswm dros gredu eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael GIP a oedd yn berthnasol ar y pryd.
25. Mae angen i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gydbwysu'r angen i ddarparu iawndal amserol â'r angen i ddangos uniondeb o ran y pwrs cyhoeddus. Nid yw gwneud cais yn golygu y caiff ad-daliad ei warantu; rhaid i BILlau fodloni eu hunain bod y cais yn ddilys a chadarnhau bod y person yn gymwys i gael GIP yn ystod y cyfnod dan sylw.
26. Mae'r data a gynhyrchwyd gan Gamau 1, 2 a 3 Prosiect Ôl-adolygiadau GIP Cymru Gyfan, a oedd yn weithredol tan fis Ebrill 2019, yn dangos bod canfuwyd bod 31% yn gymwys ac nad oedd 69% yn gymwys. Mae'r data hyn yn cefnogi'r rhesymeg dros gymhwyso Rhestr Wirio at geisiadau er mwyn nodi a oes ffactorau sy'n sbarduno ystyried GIP ac, os felly, am ba gyfnod. Bydd hyn yn helpu i ganolbwyntio ar achosion lle mae ffactorau sbarduno wedi'u nodi a bydd yn gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o bwrs y wlad.
27. Mae'r Rhestr Wirio yn seiliedig ar yr ACP ac mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ei hyrwyddo.
28. Dylai'r Rhestr Wirio hon gael ei chymhwyso at bob achos GIP ôl-weithredol yng Nghymru, yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol.

Esboniad o'r Cam Adolygu

29. Adolygiad Cam 1 - Caiff cronoleg o angen yn cynnwys cynlluniau gofal ac asesiadau risg gan y darparwr gofal, cofnodion y meddyg teulu a datganiad yr hawlydd ei hystyried gan Banel er mwyn nodi a oes unrhyw ffactorau sbarduno i ystyried GIP ôl-weithredol mewn Adolygiad Cam 2.
30. Adolygiad Cam 2 - Nodwyd ffactorau sbarduno ac mae'r cronoleg o angen wedi'i chwblhau gan ddefnyddio unrhyw gofnodion sydd ar gael. Caiff yr achos ei adolygu wedyn drwy'r broses arferol fel y nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol.

Proses

Adolygiad Cam 1

- i. Caiff y Rhestr Wirio ei defnyddio fel adnodd i helpu clinigwyr a/neu aseswyr addas i benderfynu a ddylai achosion lle gwnaed cais am ôl-adolygiad GIP fynd rhagddynt i adolygiad llawn. (Cam 2)
- ii. Bydd swyddog addas a enwebir gan y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gydgyssylltu'r rhan hon o'r broses.
- iii. Bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas a fydd yn cymhwyso'r Rhestr Wirio yn gyfarwydd ag egwyddorion y Fframwaith Cenedlaethol a'r ACP.

- iv. Bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas yn cymhwyso'r Rhestr Wirio hon at gronoleg o angen cynhwysfawr yn cynnwys ystod eang o gofnodion sydd ar gael, gan gynnwys datganiad yr hawlydd, cofnodion cartref gofal (gan gynnwys cynlluniau gofal, asesiadau risg a dyddiaduron dyddiol ayb), cofnodion meddyg teulu, nyrs ardal ac unrhyw gofnodion clinigol perthnasol arall sydd ar gael. Os na fydd rhai o'r cofnodion hyn ar gael, defnyddir y cofnodion sydd ar gael.
- v. Bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas yn nodi a oes ffactorau sbarduno ar gyfer ystyried GIP ôl-weithredol yn ystod Adolygiad Cam 2 ar gyfer y cyfnod hawlio cyfan a geisiwyd gan yr hawlydd/cynrychiolydd, rhan ohono neu ddim ohono.
- vi. Bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas yn cwblhau cynifer o ddogfennau Rhestr Wirio ag sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y cyfnod hawlio cyfan yn cael ei ystyried ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r lefel o angen drwy gydol y cyfnod hawlio neu tan fod dyddiad sbardun yn cael ei nodi.
- vii. Os na fydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas yn canfod unrhyw ffactorau sbarduno ar gyfer ystyried GIP ôl-weithredol yn ystod Adolygiad Cam 2, yna yn dilyn cadarnhad gan Gadeirydd PAA, darperir Rhestr Wirio wedi'i chwblhau i'r hawlydd/cynrychiolydd er mwyn esbonio pam na fydd yr achos yn mynd rhagddo ar gyfer Adolygiad Cam 2 a bydd yr achos yn cael ei gau.
- viii. Os bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas yn canfod ffactorau sbarduno ar gyfer ystyried GIP ôl-weithredol yn ystod Adolygiad Cam 2, bydd Rhestr Wirio wedi'i chwblhau yn cael ei ddarparu i'r hawlydd/cynrychiolydd i esbonio pam na chaiff y cyfnod hawlio cyfan ei adolygu a bydd yn dogfennu'r dyddiadau a fydd yn cael eu hadolygu yn ystod Adolygiad Cam 2.
- ix. Os bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas yn canfod ffactorau sbarduno ar gyfer GIP ôl-weithredol yn ystod Adolygiad Cam 2 ar ddechrau'r cyfnod hawlio, byddent yn hysbysu'r hawlydd/cynrychiolydd y caiff y cyfnod hawlio cyfan ei adolygu yn ystod Cam 2. Dim gofyniad i Gadeirydd y PAA ei gadarnhau.

Nodiadau:

- Nid yw mynd rhagddo i Adolygiad Cam 2 yn arwydd o ganlyniad y penderfyniad ynghylch cymhwysedd ac nid yw'n gwarantu y bydd tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer ariannu ôl-weithredol ar gyfer GIP.
- Os yw'r hawlydd yn gymwys ar gyfer GNA neu GIP, dylid symud ymlaen i Gam 2, i ystyried cyfnod cymhwystra llawn, heb fod angen adolygiad Cam 1.

Os yw'r Cadeirydd yn anghytuno gyda'r argymhelliad o gymhwysedd Rhannol neu Dim Cymhwysedd, yna dylid symud ymlaen i Gam 2 ar sail y lefel uchaf o gymhwysedd a awgrymir e.e. cydweddu'n Llawn yn hytrach na Rhannol; Rhannol yn hytrach na Dim Cymhwysedd.

Adolygiad Cam 2

- i. Os bydd y clinigwyr a/neu aseswyr addas wedi nodi ffactorau sbarduno ar gyfer ystyried GIP ar gyfer y cyfnod hawlio cyfan neu ran ohono, yna bydd unrhyw dystiolaeth ychwanegol o'r cofnodion sydd ar gael yn cael ei hychwanegu at y Gronoleg o Angen.
- ii. Yna caiff yr achos ei adolygu gan Gynghorydd Clinigol yn cwmpasu'r cyfnod hawlio cyfan a geisiwyd os nodwyd ffactorau sbarduno ar ddechrau'r cyfnod hawlio a geisiwyd, neu ran

o'r cyfnod hawlio a geisiwyd gyda'r dyddiad dechrau yn cael ei nodi gan y clinigwyr a/neu aseswyr addas gan ddefnyddio'r Rhestr Wirio i nodi'r dyddiad dechrau yn seiliedig ar y ffactorau sbarduno.

- iii. Yna bydd yr achos yn mynd drwy'r broses adolygu fel y nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol.

Cwynion

31. Os bydd gan unigolion bryder ynghylch y broses a gymhwysir gan y clinigwyr a/neu aseswyr addas, efallai y byddant am gael mynediad i weithdrefn gwynion y GIG a/neu godi pryder gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cwblhau'r Rhestr Wirio

32. Cymharwch y disgrifiadau o angen ag anghenion yr unigolyn a dewiswch lefel A, B neu C, fel sy'n briodol, ar gyfer pob maes. Ystyriwch pob disgrifiad a dewiswch yr un sydd mwyaf perthnasol i'r unigolyn. Os bydd anghenion yr unigolyn ar yr un lefel ag unrhyw beth yng ngholofn A neu'n uwch na hynny, dylid dewis 'A'. Ar gyfer pob maes, rhwch gyfeiriad cryno, yn nodi lle y gellir cael gafael ar y dystiolaeth sy'n ategu'r penderfyniad, os bydd angen.
33. Caiff achos fynd rhagddo i Adolygiad Cam 2 os bydd:
- dau faes neu fwy wedi'u dewis yng ngholofn A;
 - pum maes neu fwy wedi'u dewis yng ngholofn B, neu un wedi'i ddewis yn A a phedwar yn B; neu
 - un maes wedi'i ddewis yng ngholofn A yn un o'r blychau sydd wedi'i nodi â seren (h.y. y meysydd hynny sydd â lefel blaenoriaeth yn yr ACP), gydag unrhyw nifer o ddewisiadau yn y ddwy golofn arall.

Ffurflen Gofnodi'r Rhestr Wirio - Achosion Ôl-weithredol

Adolygiad Cam 1

Dyddiad cwblhau'r Rhestr Wirio _____

Enw testun yr hawliad _____

Bwrdd lechyd _____

Rhif Adnabod yr Achos _____

Cyfnod hawlio a geisiwyd o: _____

i: _____

Nodwch y canlyniad a nodwyd gan y Rhestr Wirio:

- Angen atgyfeiriad ar gyfer Adolygiad Cam 2 o (dyddiad) **neu**
- Dim angen atgyfeiriad ar gyfer Adolygiad Cam 2 am na chafodd unrhyw ffactorau sbarduno eu nodi,

Rhesymeg dros y penderfyniad

Cynghorydd Clinigol

Lefelau:

Yn seiliedig ar y lefelau uchod o angen:

- nid yw'r dystiolaeth yn ategu unrhyw ffactorau sbarduno ar gyfer Adolygiad Cam 2 ***neu***
- mae'r dystiolaeth yn cefnogi ffactor sbarduno ar gyfer Adolygiad Cam 2 o (**nodwch ddyddiad**) ***neu***
- mae'r dystiolaeth yn ategu'r angen am Adolygiad Cam 2 o ddechrau'r Cyfnod Hawlio.

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Cadeirydd Annibynnol

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan y Cynghorydd/Cynghorwyr Clinigol.

Neu

Nid wyf yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan y Cynghorydd/Cynghorwyr Clinigol.

- Mae'r dystiolaeth yn ategu ffactor sbarduno ar gyfer Adolygiad Cam 2 o (nodwch ddyddiad) ***neu***
- Mae'r dystiolaeth yn ategu'r angen am Adolygiad Cam 2 o ddechrau'r Cyfnod Hawlio.

Mae'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn wedi'i dogfennu isod:

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

Enw'r claf		Dyddiad cwblhau		
Rhowch gylch o gwmpas datganiad A, B neu C ym mhob maes. MAE SEREN wrth ymyl pob categori yn nodi maes BLAENORIAETH				
LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
1. Anadlu *	Anadlu arferol, dim problemau o ran diffyg anadl NEU Diffyg anadl a all olygu bod angen defnyddio anadlyddion neu nebiwleiddiwr ac nad yw'n effeithio ar weithgareddau byw o ddydd i ddydd. NEU Byliau o ddiffyg anadl sy'n gwella'n gyflym os cânt eu rheoli ac nad ydynt yn effeithio ar weithgareddau byw o ddydd i ddydd.	Diffyg anadl a all olygu bod angen defnyddio anadlyddion neu nebiwleiddiwr ac sy'n cyfyngu ar weithgareddau byw o ddydd i ddydd. NEU Byliau o ddiffyg anadl nad ydynt yn gwella os ceisir eu rheoli ac sy'n cyfyngu ar rai gweithgareddau o ddydd i ddydd. NEU Mae'n gofyn am unrhyw un o'r canlynol: - therapi ocsigen lefel isel (24%); - awyryddion ystafell drwy fwgwd wyneb neu drwyn; - dyfeisiau therapiwtig eraill i gynnal llif yr awyr os gall unigolyn anadlu'n ddigymell o hyd e.e. CPAP (Pwysedd Cadarnhaol Parhaus ar y Llwybrau Anadlu) i reoli apnoea ataliol pan fydd yr unigolyn yn cysgu.	Gall anadlu'n annibynnol drwy draceotomi y gall ei reoli ei hun, neu gyda chymorth gofalwyr neu weithwyr gofal. NEU Ddiffyg anadl oherwydd cyflwr nad yw'n ymateb i driniaeth therapiwtig ac sy'n cyfyngu ar bob gweithgaredd byw o ddydd i ddydd. NEU Gyflwr y mae angen ei reoli drwy ddefnyddio dyfais anfewnwithiol i ysgogi a chynnal anadlu (pwysedd cadarnhaol anfewnwithiol ar y llwybr anadlu neu gymorth anadlu anfewnwithiol)	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
2. Maeth	Gall gymryd digon o fwyd a diod trwy'r geg i fodloni'r holl ofynion o ran maeth. NEU Mae angen ei oruchwyllo, gan ei annog i fwyta prydau, neu efallai fod angen ei fwydo a/neu ddarparu deiet arbennig ar ei gyfer NEU Gall gymryd bwyd a diod trwy'r geg ond mae angen rhoi bwyd ychwanegol/ategol iddo.	Mae angen ei fwydo er mwyn sicrhau ei fod yn cael digon o fwyd ac mae'n cymryd amser hir (hanner awr neu fwy), gan gynnwys bwyd wedi'i hylifo. NEU Ni all gymryd unrhyw fwyd na diod trwy'r geg, ond mae'r holl ofynion o ran maeth yn cael eu bodloni'n ddigonol trwy ddefnyddio dulliau artiffisial, er enghraifft drwy PEG nad yw'n peri problemau.	Dysffagia sy'n gofyn am ymyriad medrus er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael digon o faeth/hylif a lleihau'r risg o dagu a mewnsugno i gynnal y llwybr anadlu. NEU Hylifau isgroenol sy'n cael eu rheoli gan yr unigolyn neu gan ofalwyr neu weithwyr gofal sydd wedi cael hyfforddiant penodol. NEU Statws maeth "mewn perygl" a gall fod yn gysylltiedig â cholli pwysau sylweddol yn anfwriadol. NEU Ennill neu golli pwysau sylweddol o ganlyniad i anhwylder bwyta a nodwyd. NEU Problemau sy'n gysylltiedig â dyfais fwydo (e.e. PEG) sy'n gofyn am asesiad ac adolygiad medrus.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
3. Ymataliaeth	Ymataliol o ran wrin ac ysgarthion. NEU Rhoddir gofal ymataliaeth yn rheolaidd bob dydd. NEU Caiff anymataliaeth o ran wrin ei rheoli, er enghraifft trwy ddefnyddio meddyginiaeth, mynd â'r unigolyn i'r toiled yn rheolaidd, defnyddio gwain pidynnol ac ati. A Gall gynnal rheolaeth lawn dros y coluddyn neu mae ganddo stoma sefydlog, neu gall brofi anymataliaeth ysgarthion/rhwymedd yn achlysurol.	Rhoddir gofal ymataliaeth yn rheolaidd ond mae angen ei fonitro er mwyn lleihau'r risgiau, er enghraifft risgiau sy'n gysylltiedig â chathetrau wrinol, anymataliaeth ddwbl, heintiau cronig yn y llwybr wrinol a/neu reoli rhwymedd.	Mae gofal ymataliaeth yn peri problemau ac yn gofyn am ymyriad amserol a medrus, y tu hwnt i ofal rheolaidd, (er enghraifft golchi'r bledren yn rheolaidd, gwacáu'r coluddyn â llaw, ailosod cathetr yn rheolaidd).	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
4. Iechyd Croen	Dim risg o niwed pwyso na chyflwr sy'n effeithio ar y croen. NEU Risg y bydd y croen yn ymddatod sy'n gofyn am ymyriad ataliol unwaith y dydd neu lai nag unwaith y dydd, a byddai cyfanrwydd y croen yn ymddatod hebddo NEU Dystiolaeth o niwed pwyso a/neu wls(er)(au) pwyso un ai gydag 'aflwiad ar groen sy'n gyfan' neu fân glwyf. NEU Gyflwr sy'n effeithio ar y croen y mae angen ei fonitro neu ei ailasesu lai nag unwaith y dydd ac sy'n ymateb i driniaeth, neu nad oes angen rhoi triniaeth ar ei gyfer ar hyn o bryd.	Risg y bydd y croen yn ymddatod sy'n gofyn am ymyriad ataliol sawl gwaith y dydd, y byddai cyfanrwydd y croen yn ymddatod hebddo. NEU Niwed pwyso neu glwyf(au) agored, wls(er)(au) pwyso ynghyd â 'cholli rhan o drwch y croen gan gynnwys epidermis a/neu ddermis', sy'n ymateb i driniaeth. NEU Gyflwr sy'n effeithio ar y croen y mae angen ei driniaeth bob dydd o leiaf, neu ei fonitro/ailasesu bob dydd er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i'r driniaeth.	Niwed pwyso neu glwyf(au) agored, wls(er)(au) pwyso ynghyd â 'cholli rhan o drwch y croen gan gynnwys epidermis a/neu ddermis', nad yw'n ymateb i driniaeth. NEU Niwed pwyso neu glwyf(au) agored, wls(er)(au) pwyso ynghyd â 'cholli trwch llawn y croen sy'n cynnwys niwed neu necrosis i'r meinwe isgroenol, ond heb gyrraedd yr asgwrn, y tendon na chwpan y cymal oddi tano', sy'n ymateb i driniaeth. NEU Trefn rhwymo clwyfau arbenigol ar waith sy'n ymateb i driniaeth.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
5. Symudedd	Gall symud yn annibynnol. NEU Gall gynnal ei bwysau ond mae angen rhywfaint o gymorth a/neu gyfarpar symudedd arno i fyw o ddydd i ddydd.	Ni all gynnal ei bwysau'n gyson. NEU Mae'n methu'n lân â chynnal ei bwysau ond gall helpu neu gydweithredu pan fydd yn cael ei drosglwyddo a/neu ei symud. NEU Mae mewn un lleoliad (gwely neu gadair) am y rhan fwyaf o'r amser ond gall gydweithredu a helpu gofalmwyr neu weithwyr gofal. NEU Yn wynebu risg gymedrol o gwmpo (fel y gwelir mewn hanes o gwmpo neu asesiad risg)	Mae'n methu'n lân â chynnal ei bwysau ac ni all helpu na chydweithredu pan fydd yn cael ei drosglwyddo a/neu ei symud. NEU Mae angen bod yn ofalus wrth leoli'r unigolyn oherwydd y risg o niwed corfforol neu'r risg y bydd yn colli tyndra'r cyhyrau neu'n dioddef poen ac ni all gydweithredu. NEU Risg uchel o gwmpo (fel y gwelir mewn hanes o gwmpo neu asesiad risg). NEU Ceir gwingiadau neu gyfangiadau anwirfoddol yn y cyhyrau sy'n peri risg i'r unigolyn neu bobl eraill.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
6. Cyfathrebu	Gall gyfathrebu'n glir, mewn geiriau neu heb eiriau. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o'i iaith gyntaf. Efallai y bydd angen gwasanaeth cyfieithu arno os nad Saesneg yw ei iaith gyntaf. NEU Mae angen cymorth arno i gyfleu ei anghenion. Efallai y bydd angen gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod ei anghenion yn cael ei ddehongli'n gywir neu efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arno naill ai'n weledol, drwy gyffyrddiad neu gyda chlyw.	Mae'n anodd deall neu ddehongli'r hyn y mae'r unigolyn yn ei gyfleu am ei anghenion, neu weithiau ni all gyfathrebu'n ddibynadwy, hyd yn oed pan fydd yn cael cymorth. Efallai y bydd gofawyr neu weithwyr gofal yn gallu rhagweld anghenion drwy arwyddion di-eiriau am eu bod yn gyfarwydd â'r unigolyn.	Ni all gyfleu ei anghenion yn ddibynadwy ar unrhyw adeg nac mewn unrhyw ffordd, hyd yn oed pan fydd pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu. Rhaid rhagweld y rhan fwyaf o anghenion yr unigolyn oherwydd ei anallu i'w cyfleu.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
7. Anghenion Seicolegol ac Emosiynol	Nid yw anghenion seicolegol nac emosiynol yn cael effaith ar ei iechyd a'i les. NEU Tarfiad ar ei hwyliau neu orbryder neu gyfnodau o drallod, sy'n effeithio ar ei iechyd a/neu ei les ond sy'n ymateb os bydd rhywun yn annog yr unigolyn neu'n ceisio tawelu ei feddwl. NEU Mae angen ei ysgogi er mwyn iddo gymhell ei hun tuag at weithgarwch a'i gynnwys yn y gwaith o gynllunio gofal, cymorth a/neu weithgareddau pob dydd.	Tarfiad ar ei hwyliau neu symptomau gorbryder, neu gyfnodau o drallod, nad ydynt yn ymateb os bydd rhywun yn annog yr unigolyn neu'n ceisio tawelu ei feddwl ac sy'n cael effaith gynyddol ar iechyd a/neu lesiant yr unigolyn. NEU Oherwydd ei gyflwr seicolegol neu emosiynol mae'r unigolyn wedi mynd i'w gragen mewn perthynas â'r rhan fwyaf o ymdrechion i'w gynnwys yn y gwaith o gymorth, cynllunio gofal, a/neu weithgareddau pob dydd.	Tarfiad ar ei hwyliau neu symptomau gorbryder, neu gyfnodau o drallod sy'n cael effaith ddifrifol ar iechyd a/neu les yr unigolyn. NEU Oherwydd ei gyflwr seicolegol neu emosiynol mae'r unigolyn wedi mynd i'w gragen mewn perthynas â phob ymdrech i'w gynnwys yn y gwaith o gynllunio gofal, cymorth a gweithgareddau pob dydd.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
8. Gwybyddiaeth	Dim tystiolaeth o nam gwybyddol na dryswch. NEU Nam gwybyddol sy'n golygu bod angen rhywfaint o oruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth gyda gweithgareddau mwy cymhleth byw o ddydd i ddydd, megis cyllid a meddyginiaeth, ond mae'n amlwg ei fod yn ymwybodol o risgiau sylfaenol sy'n effeithio ar ei ddiogelwch. NEU Mae'n cael problemau o bryd i'w gilydd gyda'r cof a phenderfyniadau/dewisiadau sy'n golygu bod angen cefnogaeth, anogaeth neu gymorth arno. Fodd bynnag, mae'r unigolyn yn deall ei nam.	Nam gwybyddol (a all gynnwys rhai problemau gyda'r cof) sy'n gofyn am rywfaint o oruchwyliaeth, anogaeth a/neu gymorth gydag anghenion gofal sylfaenol a gweithgareddau byw o ddydd i ddydd. Mae rhywfaint o ymwybyddiaeth o anghenion a risgiau sylfaenol yn amlwg. Fel arfer, gall yr unigolyn wneud dewisiadau sy'n briodol i'w anghenion gyda chymorth. Fodd bynnag, mae gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau am rai agweddau ar ei fywyd yn gyfyngedig hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth, sy'n golygu ei fod yn wynebu risg o niwed, esgeulustod neu ddirywiad yn ei iechyd.	Nam gwybyddol a allai gynnwys problemau cof byrdymor aml a cholli cyswllt ag amser a lle. Dim ond ymwybyddiaeth o ystod gyfyngedig iawn o anghenion a risgiau sylfaenol sydd gan yr unigolyn. Er y gall wneud rhai dewisiadau sy'n briodol i'w angen ar ystod gyfyngedig o faterion, ni all wneud hynny ar gyfer y rhan fwyaf o faterion, hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth. Mae'r unigolyn yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau am agweddau allweddol ar ei fywyd yn gyfyngedig hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth, sy'n golygu ei fod yn wynebu risg uchel o niwed, esgeulustod neu ddirywiad yn ei iechyd.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
9. Ymddygiad *	Dim tystiolaeth o ymddygiad 'heriol'. NEU Rhai achosion o ymddygiad 'heriol'. Mae asesiad risg yn nodi nad yw'r ymddygiad yn peri risg i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill nac i eiddo ac nad yw'n rhwysr i ymyriad. Mae'r unigolyn yn cydymffurfio â phob agwedd ar ei ofal.	Ymddygiad 'heriol' sy'n dilyn patrwm y gellir ei ragweld. Mae'r asesiad risg yn nodi patrwm o ymddygiad a all gael ei reoli gan ofalwyr neu weithwyr gofal medrus a all gynnal lefel o ymddygiad nad yw'n peri risg i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill nac i eiddo. Mae'r unigolyn bron bob amser yn cydymffurfio â gofal.	'Ymddygiad 'heriol' sy'n peri risg y gellir ei rhagweld i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill neu i eiddo. Mae'r asesiad risg yn nodi bod ymyriadau a gynlluniwyd yn effeithiol i leihau risgiau ond nad ydynt yn eu dileu bob tro. Mae cydymffurfiaeth yn amrywio ond fel arfer mae'r unigolyn yn ymateb i ymyriadau a gynlluniwyd.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
10. Therapiau cyffuriau a meddyginiaeth *	Rheolir y symptomau'n effeithiol heb unrhyw broblemau, ac nid yw'r feddyginiaeth yn cael unrhyw sgil effeithiau na ellir eu rheoli. NEU Mae angen goruchwyllo'r unigolyn pan fydd yn cymryd y feddyginiaeth/mae angen rhoi'r feddyginiaeth iddo a/neu mae angen ei annog i gymryd y feddyginiaeth ond mae'n cydymffurfio â'r gyfundrefn feddyginiaeth. NEU Boen ysgafn y gellir ei ragweld a/neu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol byw i ddydd i ddydd; nid yw poen na symptomau eraill yn effeithio ar y ffordd y darperir gofal.	Mae angen i feddyginiaeth gael ei rhoi i'r unigolyn (gan nyrs gofrestredig, gofalwr neu weithiwr gofal) am y rhesymau canlynol: • peidio â chytuno neu ddiffyg cydymffurfiaeth, neu • y math o feddyginiaeth (er enghraifft inswlin); neu • llwybr y feddyginiaeth (er enghraifft PEG). NEU Boen cymedrol sy'n dilyn patrwm y gellir ei ragweld; neu symptomau eraill sy'n cael effaith gymedrol ar feysydd eraill neu'r ffordd y darperir gofal.	Mae angen i feddyginiaeth gael ei rhoi ac i'r gyfundrefn feddyginiaeth gael ei monitro gan nyrs gofrestredig, gofalwr neu weithiwr gofal sydd wedi cael hyfforddi penodol ar gyfer y dasg hon oherwydd bod risgiau'n gysylltiedig â'r ffaith y gallai'r cyflwr meddygol neu'r cyflwr meddyliol fod yn anwadal, neu risgiau o ran effeithiolrwydd y feddyginiaeth neu natur neu ddifrifoldeb posibl y sgil-effeithiau. Fodd bynnag, gyda'r math hwn o waith monitro, fel arfer nid oes problemau yn gysylltiedig â rheoli'r cyflwr. NEU Boen cymedrol neu symptomau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar feysydd eraill neu ar y ffordd y darperir gofal.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

LEFEL→ CATEGORI↓	C	B	A	Tystiolaeth a gofnodwyd i gefnogi lefel
11. Cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig *	Dim tystiolaeth o gyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC). NEU Hanes o ASC ond mae'n cael ei reoli'n effeithiol ac mae'r risg o niwed yn isel.	Pyliau achlysurol o ASC (unwaith y mis neu'n llai aml) sy'n gofyn am oruchwyliaeth gofalwr neu weithiwr gofal er mwyn lleihau'r perygl o niwed.	Pyliau aml o ASC sy'n gofyn am oruchwyliaeth gofalwr neu weithiwr gofal er mwyn lleihau'r perygl o niwed. NEU Byliau achlysurol o ASC sy'n gofyn am ymyriad medrus er mwyn lleihau'r perygl o niwed.	

Adran 3: Rhestr Wirio GIP

Enw'r claf		Dyddiad cwblhau		
CYFANSWM O BOB TUDALEN	C	B	A	
SYLWADAU YCHWANEGOL				
LLOFNOD A SWYDD Y LLOFNODWR				

FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB

I'w defnyddio gydag achosion cyfredol yn unig

Rhowch rywfaint o wybodaeth amdanoch chi eich hun. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a oes gan bawb fynediad teg a chyfartal at GIP. Cedwir yr holl wybodaeth yn gwbl gyfrinachol gan y GIG. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych ei throsglwyddo i unrhyw sefydliad arall, i'r cyhoedd nac i'r wasg.

Ticiwch un blwch ym mhob categori yn unig.

1. RHYW	
Gwryw	
Benyw	
Trawsryweddol	

2. CYFEIRIADEDD RHYWIOL					
Dim ond os ydych yn 16 oed neu drosodd y mae angen i chi ateb. Pa un sy'n gymwys i chi? (*Os 'Arall', nodwch hynny a'i ysgrifennu yn y blwch a ddarperir)					
Hetero rywiol / Strêt	Lesbiaidd / Menyw Hoyw	Dyn Hoyw	Person Deurywiol	Gwell gennyf beidio â dweud	*Arall

* Unrhyw grŵp arall, nodwch yma

3. GRŴP OEDRAN –								
Pa un sy'n gymwys i chi?								
0-15	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75-84	85+

4. ANABLEDD	
A oes gennych anabledd fel y'i diffinnir gan <i>Ddeddf Cydraddoldeb 2010</i> ?	Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio person anabl fel rhywun â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/definition-of-disability-under-equality-act-2010

Oes	
Nac oes	

5. GRŴP ETHNIG –

Pa un sy'n gymwys i chi? (*Os 'Arall', nodwch hynny a'i ysgrifennu yn y blwch a ddarperir)

Gwyn		Cymysg		Asiaidd <i>neu</i> Asiaidd Prydeinig		Du <i>neu</i> Ddu Prydeinig		Tsieineaidd neu grŵp arall	
Prydein-ig		Gwyn a Du Caribiaidd		Indiaidd		Caribiaidd		Tsieineaidd	
Gwydd-elig		Gwyn a Du Affricanaidd		Pacistanaidd		Affricanaidd		Arall*	
Arall*		Gwyn ac Asiaidd		Bangladesh-aidd		Arall*			
		Arall*		Arall*					

* Unrhyw grŵp arall, nodwch yma

6. CREFYDD

Pa un sy'n gymwys i chi? (*Os 'Arall', nodwch hynny a'i ysgrifennu yn y blwch a ddarperir)

Mae Cristnogaeth yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, Eglwys Brotestanaidd a phob enwad Cristnogol arall

Cristnog-aeth	Bwdhaeth	Hindŵaeth	Iddewiaeth	Mwslimiaeth	Siciaeth

* Unrhyw grŵp arall, nodwch yma

ATODIAD 4: Sefydlu Panel Adolygu Annibynnol

Sefydlu paneli adolygu

- A.5.1 Rhaid bod panel sefydlog ar gael i fyrddau iechyd lleol, yn cynnwys o leiaf cadeirydd annibynnol, cynrychiolydd BILI a chynrychiolydd awdurdod lleol. Bydd hefyd yn gallu cael gafael ar farn arbenigol. Er mwyn osgoi unrhyw achosion o oedi yn y broses ac er mwyn sicrhau bod cymaint o arbenigedd ar gael â phosibl, rhaid i fyrddau iechyd ddefnyddio, lle y bo'n bosibl, gadeiryddion Panel Adolygu Annibynnol. Wrth eu defnyddio ni ddylent ddibynnu ar un unigolyn yn unig er hwylustod neu gysondeb a dylent ddefnyddio pob un sy'n gweithredu yn eu hardal.
- A.5.2 Penodir cadeiryddion annibynnol drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus a gellir cael gafael ar eu gwasanaethau drwy gysylltu â'r Arweinydd GIP ym mhob GIP.
- A.5.3 Caiff cynrychiolwyr y BILI(au) a'r ALLau eu penodi ar sail enwebiadau gan y sefydliadau hynny. Dylent ystyried y sgiliau proffesiynol a'r sgiliau eraill a fydd yn berthnasol i waith y panel.
- A.5.4 Dylai pob BILI ddynodi unigolyn i roi'r weithdrefn adolygu ar waith ac i gasglu gwybodaeth i'r panel drwy gyfweld â chleifion, aelodau'r teulu ac unrhyw ofalwr perthnasol.
- A.5.5 Dylai pob BILI anelu at sicrhau y caiff y weithdrefn adolygu ei chwblhau o fewn pedair wythnos i dderbyn y cais, lle y bo'n bosibl. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau unwaith y bydd unrhyw gamau i ddatrys yr achos yn anffurfiol wedi'u cymryd, a dim ond pan na ellir osgoi gwneud hynny oherwydd amgylchiadau eithriadol y dylid ei ymestyn. Ni ddylai'r weithdrefn adolygu beri oedi cyn darparu gofal a dylai'r protocol lleol nodi'n glir sut y caiff arian ei ddarparu tra'n aros i'r achos gael ei ddatrys.
- A.5.6 Rhaid i bob BILI sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi gwaith y panel drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor clinigol perthnasol.

Diben a chwmpas panelau adolygu

A.5.7 Diben y weithdrefn adolygu yw:

- sicrhau y dilynwyd gweithdrefnau priodol wrth wneud penderfyniadau am yr angen am ofal iechyd parhaus y GIG a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG
- sicrhau y caiff y dull gweithredu mewn perthynas ag anghenion iechyd sylfaenol wrth bennu cymhwysedd ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG ei gymhwyso'n briodol ac yn gyson

A.5.8 Nid yw'r weithdrefn adolygu yn berthnasol pan fydd cleifion neu eu teuluoedd ac unrhyw ofalwr am herio:

- cynnwys maen prawf cymhwysedd y Bwrdd Iechyd Lleol, yn hytrach na'r ffordd y cafodd ei gymhwyso
- math a lleoliad unrhyw gynnig o wasanaethau gofal iechyd parhaus y GIG a ariennir gan y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG
- cynnwys unrhyw becyn gofal amgen a gynigiwyd iddynt
- eu triniaeth neu unrhyw agwedd arall ar y gwasanaethau y maent yn eu cael neu y maent wedi'u cael

Byddai'n fwy priodol ymdrin â'r rhain drwy'r weithdrefn gwyno

A.5.9 Ni ddylai adolygiad fynd rhagddo hyd nes y bydd y BILI, i ddechrau, wedi gweithio gyda'r unigolyn i ddatrys y sefyllfa'n anffurfiol. Dylent sicrhau y cynhaliwyd asesiadau priodol, y lluniwyd cynlluniau gofal, y cymhwyswyd y gweithdrefnau a'r meini prawf priodol ac y rhoddwyd yr oll wybodaeth berthnasol i'r claf.

A.5.10 Os na ellir datrys yr achos yn anffurfiol, gall y claf, ei deulu neu unrhyw ofalwr ofyn i'r BILI lle mae'r claf yn preswyllo fel arfer adolygu'r penderfyniad nad yw'r claf yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG. Y disgwyliad yw y bydd y BILI, wrth lunio barn, yn gofyn am gyngor gan banel annibynnol (Gweler paragraff 7). Cyn gwneud hynny, dylai sicrhau, gan ystyried paragraffau 5.7-5.8 uchod, bod y penderfyniad yn un y mae'r weithdrefn adolygu yn berthnasol iddo.

A.5.11 Mae gan y BILI yr hawl i benderfynu yn unrhyw achos unigol i beidio â chynnull panel. Disgwylir y bydd penderfyniadau o'r fath wedi'u cyfyngu i'r achosion hynny lle nad yw'r claf yn agos at y meini prawf cymhwysedd neu lle mae'n amlwg iawn nad yw'r achos yn achos priodol i'r panel ei ystyried. Cyn gwneud penderfyniad, dylai'r BILI ofyn am gyngor cadeirydd y panel adolygu. Ymhob achos lle gwneir penderfyniad i beidio â chynnull panel, dylai'r BILI roi esboniad ysgrifenedig llawn i'r claf, ei deulu neu ei ofalwr o'r sail dros ei benderfyniad, ynghyd â nodyn i'w atgoffa o'i hawliau o dan Weithdrefn Gwynion y GIG.

A.5.12 Tra bydd y weithdrefn adolygu yn mynd rhagddi, dylid parhau i ddarparu unrhyw becyn gofal sydd eisoes ar waith, boed yn ofal ysbyty neu'n wasanaethau iechyd cymunedol, hyd nes y bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys.

Gweithrediad y panel

A.5.13 Mae'r BILI dynodedig yn gyfrifol am baratoi gwybodaeth i'r panel. Dylai'r panel allu gweld unrhyw ddogfennaeth sy'n bodoli eisoes, sy'n berthnasol, gan gynnwys manylion asesiad gwreiddiol y claf. Dylai hefyd allu gweld safbwyntiau'r partïon allweddol sy'n ymwneud â'r achos, gan gynnwys y claf, ei deulu ac unrhyw ofalwr, staff iechyd a

gwasanaethau cymdeithasol, ac unrhyw gyrff neu unigolion perthnasol eraill. Bydd cyfle i'r partion allweddol gyflwyno eu safbwyntiau i swyddog y BILI. Fel arfer, rheolir y broses gan ddefnyddio datganiadau ysgrifenedig a gaiff eu paratoi gan swyddog cyfrifol dynodedig y BILI.

- A.5.14 Gall claf ofyn i gynrychiolydd weithredu ar ei ran os bydd am wneud hynny, neu os na fydd yn gallu cyflwyno ei safbwyntiau ei hun neu y bydd yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny.
- A.5.15 Er mai i swyddog dynodedig y BILI y bydd y claf neu ei gynrychiolydd fel arfer yn rhoi gwybodaeth, gall ofyn am gael cynrychiolaeth uniongyrchol yng ngwrandawriad y panel. Nid yw yn cynnwys cyfreithiwr sy'n gweithredu mewn rhinwedd broffesiynol.
- A.5.16 Rhaid i'r panel gynnal cyfrinachedd y claf.
- A.5.17 Bydd angen i'r panel allu cael gafael ar gyngor clinigol annibynnol, a ddylai ystyried yr amrywiaeth o anghenion meddygol, nyrsio a therapi sy'n gysylltiedig â phob achos.
- A.5.18 Rôl gynghori sydd gan y panel. Fodd bynnag, er na fydd ei benderfyniadau yn gyfrwymol yn ffurfiol, disgwylir i'w argymhellion gael eu derbyn. Os bydd BILI yn penderfynu gwrthod argymhelliad panel mewn achos unigol, rhaid iddo gyflwyno'n ysgrifenedig i'r claf ac i gadeirydd y panel ei resymau dros wneud hynny.
- A.5.19 Ymhob achos, rhaid i'r BILI gyfleu'n ysgrifenedig i'r claf ganlyniad yr adolygiad, gan gynnwys rhesymau. Dylai pob parti perthnasol (GIG, meddyg ymgynghorol, meddyg teulu a chlinigydd arall (clinigwyr eraill), ALI lle y bo'n briodol) hefyd gael y wybodaeth hon.
- A.5.20 Ni fydd trefniadau'r panel yn newid hawliau'r claf o dan y gweithdrefnau cwynion presennol na'i hawl bresennol i atgyfeirio'r achos i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Atodiad 5: Prawf Talu ar gyfer Ôl-hawliadau

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 1 Chwefror

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CYDYMFFURFIO
CATEGORI: POLISI

Teitl:
Canllawiau Ychwanegol ar Brawf Talu ar gyfer Ad-dalu Ôl-hawliadau WHC/2016/003

Dyddiad dod i ben / Adolygu
dd/b

I'w weithredu gan:

Byrddau iechyd
Ymddiriedolaethau'r GIG
Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol

Angen gweithredu erbyn:
Ar unwaith

Anfonir gan: Neil Jones

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :
Neil Jones jones.neil@wales.gsi.gov.uk

Is-adran Integreiddio, Polisi a Chyflawni, Grŵp Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol,

4^{ydd} Llawr Parc Cathays 2, Caerdydd. CF10 3NQ.

Dogfen(nau) amgaeedig: Atodiad 1

ATODIAD 1 CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU WHC/2016/003
Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP) yng Nghymru
Canllawiau Ychwanegol ar Brawf Talu ar gyfer Ad-dalu Ôl-hawliadau Cefndir

1. Ar 16 Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru MD/ML/001/13. Supplementary Guidance (Proof of Payment) to Welsh Health Circular 015/2010 (Saesneg yn unig). Roedd y canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol ag achosion a adolygwyd gan Brosiect Powys lle gwnaed cais am brawf talu pellach gan fyrddau iechyd lleol (BILlau) ar ddiwedd y broses.
2. Dilynodd canllawiau pellach yn WHC/2015/039 gan ymestyn egwyddorion y canllawiau atodol blaenorol a mynd i'r afael ag argymhellion Adroddiad Dilynol Gofal Iechyd Parhaus y GIG, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2015. Roedd yn cyfeirio at:
 - yr hawliadau hynny a gyflwynwyd i BILlau ers mis Awst 2010 ond gallant ymwneud â chyfnodau cyn y dyddiad hwnnw;
 - yr hawliadau hynny a gyflwynwyd mewn ymateb i'r dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf 2014, a all ymwneud ag unrhyw gyfnod rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Gorffennaf 2013.
3. Mae'r canllawiau hyn yn disodli WHC/2015/039. Maent yn cadw'r un trefniadau er nad ydynt bellach yn cyfeirio at y defnydd o'r Gyfradd Llys Sirol wrth gyfrifo ad-daliadau ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol ar gyfer hawliadau sydd eto i'w prosesu.
4. Ystyr 'gwneud yn iawn' yw gosod unigolyn yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe bai Gofal Iechyd Parhaus y GIG wedi'i ddyfarnu ar yr adeg briodol, ac nid yw'n golygu y dylai'r GIG na'r cyhoedd elwa ar arian cyhoeddus. Ystyrir mai defnyddio'r mynegai prisiau manwerthu (RPI), heb ddiynnu budd-daliadau a lwfansau hanesyddol sydd eisoes wedi'u derbyn gan yr hawlydd, yw'r ffordd briodol o gyfrifo lefel deg o log sy'n daladwy yn ogystal â swm setliad yr hawliad. Ystyrir hefyd ei fod yn ffordd weddol syml o gyfrifo llog.
5. Gwelwyd bod cyfrifiad sy'n defnyddio'r Gyfradd Llys Sirol, gan ddiynnu budd-daliadau a lwfansau a dderbyniwyd, yn ffordd anymarferol o ddod i benderfyniad yn y rhan fwyaf o achosion, ac felly nid yw'n cael ei ystyried fel lefel briodol o log i'w ddefnyddio dan yr amgylchiadau hyn.

Gall hawlwr sydd eisoes wedi gofyn am ystyried eu setliad gan ddefnyddio cyfrifiad Cyfradd Llys Sirol barhau i ddilyn hyn gyda'u Bwrdd Iechyd, ond byddai'n rhaid i'r holl wybodaeth a thystiolaeth berthnasol fod yn eu lle i wneud y cyfrifiad hwnnw. Os nad dyna'r achos, dylid dilyn y dull o gyfrifo gan ddefnyddio'r mynegai prisiau manwerthu.

Cytunwyd ar y trefniadau hyn gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

6. Mae'r trefniadau newydd bellach yn ymwneud â'r canlynol:
- y cyfnodau hawlio a nodwyd uchod;
 - yr hawliadau hynny a gyflwynwyd o ganlyniad i'r dyddiad cau, sef 31 Hydref 2015, a all ymwneud ag unrhyw gyfnod rhwng 1 Awst 2013 a 30 Medi 2014;
 - yr hawliadau a gyflwynwyd ar ôl hynny.

Egwyddorion Gweinyddiaeth Gyhoeddus Dda

7. Dylai Byrddau Iechyd sicrhau eu bod, wrth eu gwaith, yn cydymffurfio ag Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r canllawiau llawn gan yr Ombwdsmon ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.ombwdsmon.cymru/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2018/04/Egwyddorion-Gweinyddiaeth-Dda-a-Rheoli-Cofnodion-yn-Dda.pdf>

Goblygiadau ar gyfer gwneud iawn mewn ôl-hawliadau Gofal Iechyd Parhaus

8. Mae Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn gyrff gwneud penderfyniadau annibynnol, ac maent wedi cytuno ar y trefniadau ar gyfer ymdrin ag ôl-hawliadau fel y nodir yn **Adran 6** o Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru (2014).
9. Mae'r trefniadau ar gyfer ymdrin ag ôl-hawliadau, fel y nodir yn Fframwaith 2014, yn glir bod prawf talu ffioedd gofal yn ofynnol ar ddechrau'r broses. Ni chaiff yr hawliad ei brosesu os na ellir darparu tystiolaeth o'r fath. Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi bod angen i BILlau gydbwyso'r angen i ddarparu iawndal amserol â'r angen i ddangos uniondeb o ran pwrs y wlad (paragraff 6.10).

Cais prydlon am Brawf Talu a blaenoriaethu hawliadau yn deg

10. Cyfrifoldeb y BILl yw gwneud cais am brawf talu ac awdurdod cyfreithiol i gyflwyno hawliad yn brydlon ar ôl cael cais neu fwriad i hawlio (e.e. llythyr i'r BILl). Dylai'r cais WHC/2016/003 ysgrifenedig am Brawf Talu gael ei bostio o fewn 10 diwrnod gwaith a'i gofnodi ar gronfa ddata'r BILl.
11. Ni ddylai unrhyw hawlydd fod o dan anfantais oherwydd bod y BILl wedi methu gwneud cais am brawf talu yn brydlon. Os nad yw'r BILl wedi cydymffurfio â'r amserlen fel y nodir uchod, dylai addasu'r amserlen ar gyfer adolygu yn unol â hynny.
12. Fel y nodir yn y Fframwaith, mae'n rhesymol disgwyl i'r hawlydd ddarparu'r prawf gofynnol o fewn pum mis, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys. Dylai'r BILl ddangos tystiolaeth o'r canlynol:
- ei fod wedi monitro cynnydd gyda'r hawlydd;
 - tystiolaeth o oedi yn sgil asiantaethau eraill;

- bod unrhyw amgylchiadau eithriadol wedi cael eu hystyried

13. Dylai'r BILI roi adborth i'r hawlydd a dilysu neu wrthod yr hawliad o fewn 6 wythnos (30 diwrnod gwaith) i dderbyn y prawf talu.

Penderfyniadau rhesymedig a rhesymol ar brawf talu derbyniol.

14. Dylai BILlau wneud penderfyniadau rhesymedig a rhesymol ynglŷn â derbyn tystiolaeth o brawf talu, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ac sy'n berthnasol. Dylai BILlau gofio efallai na fydd tystiolaeth yn gyflawn oherwydd treigl amser.

15. Er mwyn dangos rhesymoldeb, bydd angen i BILlau ddefnyddio rhywfaint o ddisgresiwn o ran lefel y dystiolaeth sy'n briodol yn eu barn hwy, yn dibynnu ar y cyfnod y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef. Ar gyfer achosion sy'n ymwneud â dyddiad diwedd cyfnod hawlio o 5 mlynedd neu lai, dylid darparu'r holl dystiolaeth sy'n hygyrch, gan gynnwys datganiadau banc, datganiadau cartrefi gofal ac anfonebau. Bydd hyn yn dangos nad oes dyledion heb eu talu i'r darparwr gofal os yw deiliad yr hawliad yn ymadawedig oni bai bod amgylchiadau esgusodol.

16. Fel isafswm, dylai BILlau fodloni eu hunain:

- Bod yr unigolyn yn preswyllo mewn cartref gofal am y cyfnod(au) cymhwysedd;
- Nad oes tystiolaeth bod unrhyw gorff nac asiantaeth gyhoeddus wedi talu'r cyfan o'r ffioedd neu ran ohonynt;
- Nad oes dyledion heb eu talu, e.e. ffioedd heb eu talu i'r cartref gofal.

Cyfrifo ad-daliad yn deg a thryloyw

17. Wrth benderfynu ar werth yr ad-daliad, dylai'r BILI ddefnyddio rhesymeg dryloyw a chyfrifiadau clir.

18. Os oes tystiolaeth yn bodoli o brawf talu am ran o'r cyfnod hawlio, ac y tybir bod y dystiolaeth hon yn gadarn, yna dylid defnyddio hyn fel sail ar gyfer cyfrifiadau pellach sy'n cwmparu'r cyfnod hawlio cyfan.

19. Lle nad yw'r dystiolaeth o gost ariannol gan yr hawlydd yn ddigon cadarn, gall BILlau gyfrifo cynigion ad-dalu yn seiliedig ar ddangosydd cost gwahanol a rhesymedig; er enghraifft, y gyfradd cartref gofal preswyl dibyniaeth uchel a weithredir gan yr Awdurdod Lleol yn yr ardal yn ystod y cyfnod cymhwysedd.

20. Os oes tystiolaeth bod awdurdod cyhoeddus wedi talu cyfran o ffioedd cartref nyrsio'r hawlydd yn uniongyrchol i'r cartref nyrsio, gall ofod yn briodol lleihau'r ad-daliad er mwyn lleihau'r gyfran honno.

21. Ystyrir ei bod yn rhesymol i BILlau ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu arferol, ar gyfer cyfrifo llog wrth ystyried iawndal mewn adolygiadau gofal

parhaus. Lle defnyddir Mynegai Prisiau Manwerthu i gyfrifo llog ni cheir didyniad ar gyfer budd-daliadau a dderbynnir gan yr hawlydd yn ystod y cyfnod hawlio (ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cytuno na fydd y budd-daliadau hynny yn cael eu hadennill).

22. Ar ôl dod i benderfyniad ynghylch cymhwysedd, ni ddylai Byrddau Iechyd fel rheol gymryd mwy nag 1 mis (20 diwrnod gwaith) i gyfrifo ad-daliad ac anfon llythyr indemniad i'r hawlydd.

Taliadau ex-gratia

23. Yn ogystal â'r egwyddorion ad-dalu a nodwyd uchod, efallai y bydd adegau pan fydd BILLau hefyd yn dymuno ystyried gwneud taliadau ex-gratia yn unol â'r canllawiau presennol ar Golledion a Thaliadau Arbennig yn Llawlyfr Cyfrifon Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol GIG Cymru. Anogir BILLau i geisio cyngor cyfreithiol am achosion unigol lle y bo angen, a gwneud taliadau ex-gratia os yw hynny'n briodol.

Anghydfodau

24. Os yw'r hawlydd yn anfodlon ar y dull a gymerir gall godi pryder gyda'r BILL perthnasol. Bydd eu pryder yn cael ei drin yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. Gall hawlwyr hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.